

Aseiad Lles Lleol Sir y Fflint

Ebrill 2017



Asesiad o les lleol (Chwefror 2017)

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
1.1	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	3
1.2	Saith nod lles Cymru	4
1.3	Ymgynghori ac ymgysylltu	5
1.4	Matrics yn dangos trawsdoriad ar draws y themâu	6
2	Asesiad lles	7
2.1	Rhoi'r 'dechrau gorau' i bob plentyn	7
2.2	Cadw pobl ifanc yn y boblogaeth (pobl ifanc fel asedau)	20
2.3	Heneiddio'n dda l	22
2.4	Cefnogi gofalwyr	28
2.5	Byw mewn unigedd a mynediad at wasanaethau	31
2.6	Gwirfoddoli	36
2.7	Trechu tlodi ac amddifadedd	40
2.8	Disgwyliad oes iach i bawb	43
2.9	Mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ar gyfer eu ffordd o fyw	47
2.10	Mynd i'r afael â gordewdra (gan gynnwys gordewdra mewn plant)	51
2.11	Cefnogi rhai gydag iechyd meddwl gwael	53
2.12	Pwysau cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol	59
2.13	Bygythiadau i iechyd a lles sy'n dod i'r amlwg	63
2.14	Mynd i'r afael â cham-drin domestig	64
2.15	Cyfleoedd gwaith lleol	67
2.16	Cyraeddiadau addysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach / sgiliau cyflogaeth / sgiliau byw	70
2.17	Gwella sgiliau ar gyfer gwaith	75
2.18	Cefnogi busnesau bach	82
2.19	Cefnogi twristiaeth	83
2.20	Cefnogi'r economi weledig	86
2.21	Ased economaidd allweddol – Glannau Dyfrdwy	88
2.22	Ased allweddol – diogelu'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth	89
2.23	Newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon	93
2.24	Amddiffyn rhag llifogydd (gan gynnwys amddiffyn yr arfordir)	97
2.25	Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff	97
2.26	Darparu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy	99
2.27	Gallu i gefnogi'r rhai ag anghenion tai	103
2.28	Cynyddu dibyniaeth ar rentu yn y sector preifat	106
2.29	Mynd i'r afael â thlodi tanwydd	107
2.30	Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd	109
2.31	Twf technoleg newydd (gan gynnwys mynediad i'r rhyngryd a heriau cymdeithasol megis seibrfwlio)	111
2.32	Cydraddoldeb ac amrywiaeth / cydlyniant cymunedol	115
2.33	Hybu'r iaith Gymraeg	120
2.34	Diwylliant sy'n ffynnu	123
2.35	Beth yw barn y gymuned ynglŷn â'r gwasanaethau cyhoeddus	127
3	Asesiadau, strategaethau a chynlluniau i'w hystyried	131
4	Dangosyddion lles cenedlaethol	133
	Cyfeiriadau	137

1 Cyflwyniad

1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cefndir yr asesiad

- 1.1.1 Mae Cymru yn wynebu nifer o heriau yn awr ac yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd, tloedi, anghydraddoldebau iechyd a swyddi a thwf. Er mwyn mynd i'r afael â'r rhain, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd. Er mwyn darparu bywyd o ansawdd da i'r cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol mae'n rhaid i ni ystyried effaith hir dymor y penderfyniadau a wnawn.
- 1.1.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi pwrpas cyffredin cyfreithiol-rwymol - y saith nod lles - i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio a chydweithio i wella lles Cymru.
- 1.1.3 Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid cynhyrchu Asesiad o Les Lleol i gefnogi'r cyrrff cyhoeddus hyn i osod yr amcanion lles ac i gynhyrchu unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i wella lles pobl sy'n byw yn eu hardal. Yr adroddiad hwn yw cam cyntaf cynhyrchu'r Asesiad Lles hwnnw.

Sut y cynhyrchwyd yr asesiad hwn?

- 1.1.4 Byddai ceisio disgrifio'r holl agweddau o les yn dasg enfawr, felly mae'r Asesiad hwn yn ceisio darparu amlinelliad o'r materion strategol sy'n effeithio ar Sir y Fflint. Rydym wedi defnyddio dull sy'n cael ei 'arwain gan ymgysylltiad' i gynhyrchu'r Asesiad hwn. Nid yw'r daith wedi dechrau gyda syniadau rhagdybiol neu ddadansoddiad data haniaethol, ond gydag ymgysylltiad helaeth gyda'r cymunedau lleol a'r staff sy'n gweithio gyda'r gwahanol sefydliadau o'r sector cyhoeddus. Anogwyd pobl i drafod cryfderau a gwendidau byw yn yr ardal neu ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i'r bobl Sir y fflint.
- 1.1.5 Rydym wedi dosbarthu'r hyn a ddywedodd pobl i destunau strategol ac wedi edrych ar y data a'r papurau ymchwil sydd ar gael i weld lle y mae tystiolaeth gadarn i gefnogi'r canfyddiadau a'r teimladau. Yn benodol, rydym wedi ceisio ystyried goblygiadau pob testun ar les yr unigolyn a sut y mae'n cyfrannu at y 7 nod lles a nodwyd yn y Ddeddf.
- 1.1.6 Ynghyd â darparu dadansoddiad o'r sefyllfa bresennol, lle bo modd, casglwyd data i olrhain cynnydd dros amser ac i ystyried sut y gallai'r dyfodol edrych pe bai'r tueddiadau presennol yn parhau.

Cyfyngiadau'r asesiad hwn a'r camau nesaf

- 1.1.7 Rydym yn gwybod mai dim ond amlinelliad neu fframwaith strategol er mwyn i gyrff y sector cyhoeddus gynhyrchu eu hamcanion lles fydd yr Asesiad hwn yn ei ddarparu. Mae'n darparu dadansoddiad eang ond eithaf sylfaenol o'r meysydd testun y mae'n ymdrin â nhw. Dim ond fel cam cyntaf y broses y mae'n cael ei gynhyrchu a bydd yn datblygu fel asesiad dros amser.

- 1.1.8 Er mwyn symud ymlaen o'r asesiad hwn rydym yn argymhell bod gwasanaethau cyhoeddus yn ystyried blaenoriaethu nifer o feysydd testun, ac yna'n comisiynu dadansoddiad manylach o bob un o'r rhain. Bydd hyn yn golygu y gellir rheoli'r Asesiad hwn ac y bydd yn cael effaith. Bydd cam nesaf proses yr Asesiad yn ceisio darparu cyswllt amlwg rhwng y testunau strategol a drafodwyd â'r ymateb sydd ei angen gan y gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r cymunedau.

1.2 Saith nod lles Cymru

- 1.2.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu saith nod lles sydd angen eu hystyried wrth lunio amcanion lleol. Mae disgrifiad o bob nod lles a'r materion a nodwyd o fewn y thema honno wedi'u nodi isod. Mae'r holl faterion a nodwyd yn y dadansoddiad anghenion hwn yn drawsbynciol ac yn effeithio ar fwy nag un o'r themâu lles hyn.

lewyrchus (1)	Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.
Cydnherth (2)	Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnherthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).
Iachach (3)	Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
Mwy cyfartal (4)	Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).
Cymunedau cydlynus (5)	Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (6)	Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
Cyfrifol ar lefel byd-eang (7)	Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

1.3 Ymgynghori ac ymgysylltu

1.3.1 Mae ymgynghori ac ymgysylltu wedi digwydd ar amryw o lefelau er mwyn cefnogi a chyfrannu at yr asesiad hwn. Mae aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol a'n gweithlu sector cyhoeddus i gyd wedi cyfrannu eu profiadau o fyw, gweithio ac ymweld â Sir y Fflint. Maent wedi trafod y dyfodol a phwysigrwydd gwasanaethau cyhoeddus a gweithio ar draws sectorau, ac wedi cefnogi'r saith ardal ddaearyddol a ddewiswyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

1.3.2 Mae rhywfaint o'r ymgysylltiad sydd wedi hysbysu'r asesiad yn cynnwys:

- Ymgysylltwyd â bron i 170 o bobl yn bersonol drwy sgwrs y sir gyda'r cyhoedd ar y gyllideb ymhob un o'r saith ardal ddaearyddol. Hefyd cafwyd 1,370 o ymweliadau i dudalennau gwe unigryw a thros 3,000 o ymgysylltiadau Trydar. Cyflwynwyd ffilm oedd wedi ei chomisiynu ar fywyd yn Sir y Fflint yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu hyn ac roedd yn rhan o'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y ffilm yn cyfwrdd amryw o bobl oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn Sir y Fflint (Cyngor ar Bopeth, Ysgolion, busnesau lleol, cyn brentis, coleg ayb.) am fywyd yn Sir y Fflint a'r materion sy'n wynebu'r ardal.
- Ymgysylltu penodol a gomisiynwyd gyda grwpiau anodd eu cyrraedd drwy Rwydwaith Hil a Chydraddoldeb Gogledd Cymru a thrwy gyngor Wrecsam gan gynnwys: Grŵp Anabledd Corfforaethol, Grŵp Gofalwyr, Cymdeithas Alzheimer, BAWSO, cynrychiolwyr cymuned Portiweaidd, cynrychiolwyr cymuned Pwylaidd, Grŵp Cefnogi Nam ar y Llygaid, Grŵp LGBT a Chymdeithas y Byddar.
- Roedd y gwaith ymgysylltu o dan Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn cynnwys ymatebion gan fwy na 120 o sefydliadau trydydd sector a gweithdai gyda staff lechyd a Gofal Cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru.
- Mae cynrychiolwyr o holl wasanaethau mewnol y Cyngor a'r holl sefydliadau partner a restrwyd fel rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus uchod wedi cael y cyfle i gyfrannu at yr asesiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

○ Cyngor Sir y Fflint	○ Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
○ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	○ Heddlu Gogledd Cymru
○ Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru	○ Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
○ Cyfoeth Naturiol Cymru	○ Llywodraeth Cymru
○ Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint	○ Iechyd Cyhoeddus Cymru
	○ Coleg Cambria
	○ Prifysgol Glyndŵr

1.3.3 Bydd digwyddiad i fudd-ddeiliaid yng Ngogledd Cymru yn cael ei gynnal ar 17 Chwefror i sicrhau fod gan bawb y cyfle i lunio'r asesiad, ffurfio gwell dealltwriaeth o'r hyn y mae lles yn ei olygu i Ogledd Cymru a datblygu cyfleoedd i ymwneud yn y dyfodol. Bydd yr adborth o'r digwyddiad, sy'n cael ei hyrwyddo gan Cynnal Cymru yn cael ei ymgorffori yn yr asesiad lles terfynol.

1.4 Matrics yn dangos trawsdoriad ar draws y themâu

1.4.1 Mae'r holl faterion a nodwyd yn y dadansoddiad anghenion hwn yn drawsbynciol ac yn effeithio ar fwy nag un o'r themâu lles hyn. Mae'r grid isod yn darparu dehongliad o sut y gall pob mater gydweddu â'r rhestr o nodau lles.

	(1) Llewyrchus	(2) Cydnherth	(3) Iachach	(4) Mwy cyfartal	(5) Cydllynus	(6) Diwylliant			(7) Byd-eang			
						1	2	3	4	5	6	7
1	Rhoi'r 'dechrau gorau' i bob plentyn											
2	Cadw pobl ifanc yn y boblogaeth (pobl ifanc fel asedau)											
3	Heneiddio'n dda											
4	Cefnogi gofawyr											
5	Byw mewn unigedd a mynediad at wasanaethau											
6	Gwirfoddoli											
7	Trechu tlodi ac amddifadedd											
8	Disgwyliad oes iach i bawb											
9	Mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ar gyfer eu ffordd o fyw											
10	Mynd i'r afael â gordewdra (gan gynnwys gordewdra mewn plant)											
11	Cefnogi rhai gydag iechyd meddwl gwael											
12	Pwysau cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol											
13	Bygythiadau i iechyd a lles sy'n dod i'r amlwg											
14	Mynd i'r afael â cham-drin domestig											
15	Cyfleoedd gwaith lleol											
16	Cyraeddiadau addysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach											
17	Gwella sgiliau ar gyfer gwaith											
18	Cefnogi busnesau bach											
19	Cefnogi twristiaeth											
20	Ased economaidd allweddol – Glannau Dyfrdwy											
21	Sector cyflogaeth allweddol – gofal cymdeithasol ac iechyd											
22	Ased allweddol – diogelu'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth											
23	Ased allweddol – hyrwyddo ac amddiffyn treftadaeth leol											
24	Newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon											
25	Amddiffyn rhag llifogydd (gan gynnwys amddiffyn yr arfordir)											
26	Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff											
27	Darparu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy											
28	Gallu i gefnogi'r rhai ag anghenion tai											
29	Cynyddu dibyniaeth ar rentu yn y sector preifat											
30	Mynd i'r afael â thlodi tanwydd											
31	Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd											
32	Twf technoleg newydd											
33	Cydraddoldeb ac amrywiaeth / cydluniant cymunedol											
34	Hybu'r iaith Gymraeg											
35	Diwylliant sy'n ffynnu											
36	Beth yw barn y gymuned ynglŷn â'r gwasanaethau cyhoeddus											

2 Asesiad lles

"The future is already here — it's just not very evenly distributed." William Gibson, awdur ffuglen wyddonol

2.1 Rhoi'r 'dechrau gorau' i bob plentyn

Cydnerth

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.1.1 Mae rhoi'r dechrau gorau i blant, eu diogelu ac atal Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentynod cymaint â phosibl yn nodwedd allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Gall Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentynod yn benodol niweidio cyfleoedd plant i fyw bywyd da. Gall dechrau anodd effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, gwydnwch a lles. Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar gyflawniad addysgol, cyflogadwyedd, perygl y byddant yn wynebu'r system cyfiawnder troseddol, y defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a pherygl o ddod yn rhieni yn gynnar a pharhau â'r gylched o anfantais rhwng cenedlaethau.
- 2.1.2 Yn nogfen strategaeth iechyd y cyhoedd 'Ein Dyfodol Iach', mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod:
- "sylfaen iechyd da yn cael eu gosod yn ystod beichiogrwydd a babandod ac yn cael ei ddatblygu yn ystod blynyddoedd oed ysgol. Mae ystod o ffactorau risg, megis mamau yn ysmegu a maetheg wael yn ystod beichiogrwydd, tlodi yn ystod plentynod, cyrhaeddiad addysgol gwael, ac esgeulustod a'u gwrthod gan deuluoedd, yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd a lles negyddol yn fyrdymor a thros gyfnod oes. Yn yr un modd, mae canlyniadau cadarnhaol wedi bod yn gysylltiedig â nifer o ffactorau amddiffynnol, megis amgylchedd teuluol cefnogol. Bydd mynd i'r afael â ffactorau risg ar gyfer iechyd a lles gydol oes yn y blynyddoedd cynnar a datblygu gwydnwch plant i adfyd yn ganolog wrth symud ymlaen â'r agenda hwn".
- 2.1.3 Ynghyd ag iechyd corfforol, gall gwahaniaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gael effaith ehangach ar gyfleoedd bywyd ar gyfer rhieni, plant a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys ansawdd tai, mynediad at wasanaethau, incwm y teulu / tlodi / amddifadedd ac ymddygiad y teulu megis bod trefn ganddynt, darllen iddynt ac iechyd meddwl aelodau'r teulu a'u hunain. Ynghyd â'r materion a nodwyd yn yr adran hon o'r asesiad lles, drwy natur yr adroddiad mae pob adran arall yn effeithio ar ein plant a chenedlaethau'r dyfodol. Yn benodol, mae'n rhaid ystyried y sectorau canlynol wrth asesu sut i roi'r 'dechrau gorau' i blant:
- Cefnogi gofawyr
 - Byw mewn unigedd a mynediad at wasanaethau
 - Trechu tlodi ac amddifadedd
 - Cefnogi rhai gydag iechyd meddwl gwael
 - Mynd i'r afael â cham-drin domestig

- Cyflawniadau mewn ysgolion a datblygiad cymdeithasol ehangach
- Darparu tai

2.1.4 Mae 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn cael eu hystyried yn bwysig iawn gan y gall y cyfnod datblygu hwn ddylanwadu'n sylweddol ar ganlyniadau ar gyfer plant drwy gydol eu bywyd ac o genhedlaeth i genhedlaeth. Yn ystod y cyfnod hwn mae'r ymennydd yn datblygu'n gyflym ac mae'r sgiliau cymdeithasol, ymddygiad, sgiliau gwybyddol a deallusrwydd emosiynol y mae'r plentyn eu hangen yn y dyfodol yn cael eu datblygu. Mae'r 1,000 diwrnod cyntaf yn disgrifio'r cyfnod o'u cenhedlu i ail ben-blwydd y plentyn, a dyma brif ganolbwynt yr adran hon o'r asesiad lles. Bu newid yn y blynyddoedd diwethaf i ddarparu dull cydlynol rhwng yr holl wasanaethau cyhoeddus sy'n cynorthwyo gyda phlant a theuluoedd, gan ddechrau o'r cyswllt cyntaf gyda'r fydwraig.

Cam iechyd allweddol – cenhedliad i'r enedigaeth (diwrnod 1 i ddiwrnod 280)

2.1.5 Mae'n allweddol bod merched yn iach ar ddechrau eu beichiogrwydd. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar ganlyniad y beichiogrwydd ar gyfer y fam a'r plentyn. Mae nifer o ffactorau iechyd mewn beichiogrwydd yn anodd mynd i'r afael â nhw unwaith y bydd beichiogrwydd wedi dechrau, mae'n fwy effeithiol derbyn cyngor a newid ymddygiad cyn cenhedlu. Mae'r materion yn cynnwys:

- cyngor ynglŷn ag ychwanegion fitamin D ac asid ffolig cyn cenhedlu ac am 12 wythnos gyntaf y beichiogrwydd i atal nam ar y tiwb nerfol.
- pwysigrwydd peidio ag ysmegu, yfed alcohol a chamddefnyddio sylweddau wrth geisio cenhedlu ac yn ystod beichiogrwydd. Mae ysmegu yn ystod beichiogrwydd yn dangos graddfa dosbarth cymdeithasol cryf, gyda mamau o grwpiau economaidd cymdeithasol is bum gwaith yn fwy tebygol o ysmegu drwy'r beichiogrwydd, mae hyn yn cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd ymysg mamau a phlant. Mae risgiau ysmegu yn ystod beichiogrwydd yn cynnwys comesgoriad, marwolaeth amenedigol, cynamseroldeb, pwysau geni isel ac anomaleddau cynhenid yn y baban yn enwedig y galon, yr wyneb a'r aelodau¹.
- pwysau iach cyn dechrau beichiogrwydd Mae merched sy'n ordew fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gael baban marw-anedig, ac mae'r risg yn cynyddu gyda mynegai màs y corff uwch. Mae babanod sy'n cael eu geni i famau gordew yn llai tebygol o gael eu bwydo o'r fron, yn fwy tebygol o gael anomaleddau cynhenid, yn enwedig nam i'r tiwb nerfol, ac yn fwy tebygol o fod angen eu derbyn i'r unedau newyddenedigol. Gall yr achosion o ordewdra fod yn rhyng-genhedlaeth, gan fod merched sy'n ordew yn ystod beichiogrwydd yn fwy tebygol o gael plant gordew.
- gwirio statws brechiad rwbela.
- cyngor ynglŷn â chyflyrau iechyd a genetig unigol; a chyngor cyffredinol ynglŷn â phryd a sut i gael cymorth cyn gynted ag y bydd beichiogrwydd yn dechrau.

2.1.6 Mae beichiogi yn yr arddegau yn Sir y Fflint ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond mae'n tueddu i newid o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y niferoedd eithaf bychan. Y cyfraddau ar gyfer beichiogi yn yr arddegau yn 2015 oedd 26.1

fesul 1,000 o fenywod 15-17 oed. Mae hyn yn cymharu â chyfradd Cymru gyfan o 25.4.

- 2.1.7 Yn 2014 roedd 70 cenhedliad ar gyfer merched ifanc o dan 18 oed, a 20 genedigaeth i famau o'r un grŵp oedran.
- 2.1.8 Gall beichiogrwydd fod yn ddewis bywyd cadarnhaol ar gyfer nifer o bobl yn eu harddegau, fodd bynnag, ar gyfer nifer nid yw wedi'i gynllunio a gall fod yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd negyddol ar gyfer y fam a'r baban. Mae mamau ifanc yn fwy tebygol o ddiodeff iselder ar ôl geni ac yn llai tebygol o gwblhau eu haddysg. Mae plant sydd wedi'u geni i rieni yn eu harddegau yn llai tebygol o gael eu bwydo o'r fron, yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ac yn ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn rieni yn eu harddegau eu hunain.
- 2.1.9 Gall darpariaeth addysg rhyw a pherthnasau mewn ysgolion gael effaith fuddiol o ran ymddygiad iechyd rhywiol, gan gynnwys oedi unrhyw weithgarwch rhywiol, lleihau nifer y partneriaid a chynyddu gwybodaeth am ddulliau atal cenhedlu a'u hargaeledd²
- 2.1.10 Mae babanod sy'n pwysu llai na 2.5 cilogram wrth eu geni yn cael eu cyfrif fel babanod â phwysau geni isel. Mae'r babanod hyn yn fwy tebygol o ddiodeff problemau iechyd yn eu plentynod ac, yn benodol, datblygiad sgiliau gwybyddol. Mae hefyd yn gysylltiedig â salwch pan yn oedolyn, megis clefyd siwgr, strôc a chlefyd yr ysgyfaint. Fodd bynnag, mae effeithiau iechyd a chymdeithasol ar fabanod gyda phwysau geni isel hefyd yn dibynnu ar y rheswm dros bwysau geni isel a'r cyfleoedd bywyd eraill y mae'r baban yn eu profi. Y ffactor risg mwyaf ar gyfer pwysau geni isel yw amlygiad i fwg tybaco yn ystod beichiogrwydd (ysmygu gan y fam a mwg ail law). Risgiau eraill yw camddefnyddio sylweddau gan y fam, diet, iechyd rhywiol a mynegai màs y corff isel³.
- Mae canran y babanod newydd-anedig sydd o dan bwysau ychydig yn is yn Sir y Fflint nag yng Nghymru gyfan.
 - Yn 2014, roedd 103 achos o bwysau geni isel yn Sir y Fflint, 6.0% o'r holl enedigaethau byw (Cymru=6.7%).
- 2.1.11 Mae babanod sy'n cael eu geni mewn teuluoedd difreintiedig yn fwy tebygol o gael eu geni'n gynnar ac â phwysau geni isel, ac weithiau defnyddir pwysau geni isel fel mesur cyffredinol o dlodi mewn cymuned. Roedd gostwng pwysau geni isel yn un o'r amcanion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i fesur cynnydd lleol yn erbyn targedau tlodi plant.

Cam iechyd allweddol – dwy flynedd bywyd (diwrnod 281 i ddiwrnod 1,000)

- 2.1.12 Y prif bryderon iechyd ar gyfer y ddwy flynedd gyntaf mewn bywyd yw bwydo o'r fron, brechiadau a iechyd meddwl y fam.
- 2.1.13 Mae bwydo o'r fron yn amddiffyn iechyd y mamau a'r babanod. Mae babanod sy'n cael eu bwydo o'r fron yn llai tebygol o orfod mynd i'r ysbyty gyda heintiau, ac yn fwy tebygol o dyfu i fyny gyda phwysau iach a heb alergedd. Mae oed ifanc y fam, cyrhaeddiad isel mewn addysg a sefyllfa economaidd-gymdeithasol isel yn cael effaith gryf ar batrymau bwydo babanod⁴. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymhell y dylid bwydo o'r fron yn unig nes bo'r baban yn 6 mis oed, ond mae nifer o ferched

yn dewis peidio â bwydo o'r fron neu yn rhoi'r gorau am eu bod yn cael anawsterau. Mae nifer o famau yn dechrau bwydo o'r fron ond yn rhoi'r gorau iddi.

- 2.1.14 Canfu arolwg bwydo babanod 2012⁵ fod 36% o'r holl famau yng Nghymru yn bwydo o'r fron yn unig pan fo'r baban yn un wythnos oed, tra bod 17% yn gwneud hynny pan fyddant yn chwe wythnos oed. Erbyn chwech mis roedd cyfran y mamau oedd yn bwydo o'r fron yn unig yn holl wledydd y DU yn fychan iawn, fel yr oedd yn 2005.
- 2.1.15 Brechiadau - dull â brofwyd y gall reoli a gwaredu afiechydon heintus sy'n peryglu bywyd - yw un o'r ymyriadau iechyd mwyaf cost effeithlon. Dyma'r brif ystyriaeth iechyd ar gyfer 1,000 diwrnod cyntaf bywyd y plentyn. Mae cyfraddau imiwneiddio yn eithaf isel yn yr ardal o gymharu â ffigur Cymru gyfan, ond yn uwch na'r targed 95% (y lefel y mae imiwneiddio yn darparu rhwystr effeithiol rhag afiechyd).
- Y cyfraddau derbyn ar gyfer y brechiad sylfaenol 5 mewn 1 (erbyn 1 oed) yw 96.8% yn Sir y Fflint. Ffigur Cymru yw 96.8%.
 - Y cyfraddau derbyn ar gyfer brechiad sylfaenol niwmococol erbyn 1 oed yw 96.7%. Ffigur Cymru yw 96.6%⁶.
- 2.1.16 Mae iechyd meddwl y fam yn effeithio ar y plentyn yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Os yw'r fam o dan bwysau neu'n bryderus yn ystod beichiogrwydd, mae'r plentyn yn fwy tebygol o fod yn bryderus⁷. Mae iechyd meddwl gwael yn effeithio ar y gallu i ddarparu rianta cadarnhaol ac mae hyn yn bwysig iawn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o'u bywyd pan y ffurfir ymlyniad a thra bo'r ymennydd yn datblygu'n gyflym⁸.
- 2.1.17 Gall gallu rianta rhieni yn eu harddegau gael ei effeithio gan ffactorau megis gwrthdaro o fewn y teulu neu gyda phartner, eithrio cymdeithasol, hunanhyder a hunan-barch isel. Gall y ffactorau hyn effeithio ar les meddyliol yr unigolyn ifanc. Gall y fam a'r tad deimlo effeithiau bod yn riant yn eu harddegau.

Cam iechyd allweddol – tyfu i fyny (1,000 a thu hwnt)

- 2.1.18 Mae derbyniadau brys ar gyfer anaf yn cael ei ddefnyddio fel dangosydd cyffredinol o iechyd ac anghydraddoldeb iechyd. Anafiadau yw achos allweddol marwolaeth ac anabledd ymysg plant ac mae'n rhoi pwysau sylweddol ar unigolion, teuluoedd, gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach. Mae'r grŵp oedran 0-4 yn agored i anafiadau yn amgylchedd y cartref.
- Mae nifer y derbyniadau brys i ysbytai oherwydd anafiadau sy'n digwydd i blant 0-4 oed yn Sir y Fflint yn 126 fesul 10,000. Cyfartaledd Cymru yw 177 fesul 10,000⁹.
- 2.1.19 Er gwaethaf y ffaith y gellir ei atal gan fwyaf, pydredd yn y dannedd yw prif afiechyd y geg yn ystod plentynod cynnar. Mae pydredd y dannedd mewn plant ifanc yn gysylltiedig ag amddifadedd ac yn aml yn arwain at boen ac afiechyd gan arwain at gyfnodau yn yr ysbyty er mwyn tynnu dannedd o dan anathesia ynghyd â phoen ac afiechyd. Mae Sir y Fflint wedi gweld gostyngiad yn nifer cyfartalog y dannedd coll, dannedd wedi pydru neu ddannedd wedi'u llenwi ar gyfer plant 5 mlwydd oed o 1.6 yn 2007/08 i 1.0 yn 2011/12. Cyfartaledd Cymru yn 2011/12 yw 1.6 dant¹⁰.
- 2.1.20 Yn bedair oed, mae 91% o'r holl blant wedi'u himiwneiddio fel y dylid yn Sir y Fflint. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru o 86%, ond yn llawer na'r targed o 95%.

- 2.1.21 Mae dechrau'n deg – rhaglen gan Lywodraeth Cymru i leihau tlodi plant – wedi cael llwyddiant i sicrhau bod plant 0-4 i oed sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn barod ar gyfer ysgol drwy gefnogi rhieni drwy wasanaeth ymwelydd iechyd dwys, gofal plant a rhaglenni rhianta. Yn 2015/16 roedd dros 1,350 o blant wedi elwa o wasanaethau Dechrau'n Deg yn Sir y Fflint¹¹.

Mater allweddol – profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

- 2.1.22 Yn fyd-eang, mae cynnydd mewn tystiolaeth sy'n archwilio sut y gall profiadau yn ystod plentyndod gael effaith hirdymor ar iechyd. Gall profiadau cronig yn ystod plentyndod, a elwir yn brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ddigwydd yn uniongyrchol i'r plentyn neu gall y plentyn fod yn dyst iddynt o fewn y teulu. Maent yn cynnwys:
- cam-drin geiriol
 - cam-drin corfforol
 - cam-drin rhywiol
 - rhieni yn gwahanu
 - trais domestig
 - salwch meddwl
 - camddefnyddio alcohol
 - defnyddio cyffuriau
 - carcharu
- 2.1.23 Gall amlygiad i'r rhain arwain at fywyd sy'n achosi niwed i iechyd unigolion; cynyddu'r risg y byddant yn ysmegu, y bydd ganddynt broblem yfed, lefelau ymarfer corff isel ac ymddygiad rhywiol peryglus. Gall ymddygiad o'r fath arwain at iechyd gwael yn gynnar drwy gynyddu risg clefydau nad ydynt yn drosglwyddadwy megis clefyd siwgr, clefyd y galon a chancr. Gall yr un pwysau cronig mewn plentyndod cynnar arwain at ddatblygu ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys tuedd tuag at ymddygiad ymosodol a threisgar a phroblemau gyda'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn y pen draw.
- 2.1.24 Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgymryd ag Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng Nghymru¹²; gan awgrymu ar gyfer pob 100 oedolyn yng Nghymru, mae 47 wedi dioddef o leiaf un Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod ac 14 wedi dioddef 4 neu fwy.
- 2.1.25 Mae'r cyswllt cryf rhwng amlygiad i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod yn agored i niwed yn golygu bod y plant yr effeithir arnynt gan y profiadau hyn mewn perygl uwch o amlygu eu plant eu hunain i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Cyfeirir yn aml at hyn fel 'cylched trais'. O ganlyniad, mae atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod mewn cenhedlaeth unigol neu leihau eu heffaith ar blant yn gallu elwa nid yn unig yr unigolion hynny ond hefyd gall effeithio ar genedlaethau'r dyfodol ar draws Sir y Fflint.
- 2.1.26 Mae rhieni'n gwahanu wedi profi i fod yn ffactor risg o ganlyniadau gwael ar gyfer plant. Mae cyfradd ysgariad wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, ond gall hyn fod o ganlyniad i fwy o gyplau yn cyd-fyw sy'n effeithio ar y niferoedd sy'n ysgaru. Er nad oes ystadegau lleol ynglŷn â rhieni yn gwahanu, ac mae'n rhaid i ni fod yn ofalus ynglŷn â'r goblygiadau bod rhiant sengl ei hunan yn cyfrannu at brofiad niweidiol yn ystod plentyndod, gwyddwn fod 4,500 o deuluoedd rhieni sengl gyda phlant dibynnol yn Sir y Fflint yn 2011.

2.1.27 Gall amlygu plant i wrthdaro rhwng eu rhieni - boed y rheini gyda'i gilydd neu wedi gwahanu- roi iechyd meddwl a chyfleoedd bywyd hirdymor plant mewn perygl. Yn benodol, gall gwrthdaro rhwng y rhieni sydd heb ei ddatrys effeithio ar iechyd meddwl a lles plant yn hirdymor ac effeithio'n andwyol ar agweddau ehangach o weithrediad y teulu, gan gynnwys ansawdd rhianta. Canfu astudiaeth Sylfaen Ymyrraeth Gynnar¹³ i rieni sy'n gwahanu:

- mae rhieni sydd mewn perthnasau gelyniaethus a chyfyngus yn fwy gelyniaethus ac ymosodol tuag at eu plant ac yn llai ymatebol i anghenion eu plant.
- gall plant sy'n gweld gwrthdaro difrifol, parhaus a heb ei ddatrys rhwng rhieni fod yn ymosodol, gelyniaethus a threisgar. Gall eraill ddatblygu hunan-barch isel, gorbryder, iselder, ac mewn achosion difrifol, gallant fod eisiau lladd eu hunain. Mae hefyd yn gostwng eu perfformiad academaidd ac yn cyfyngu datblygiad eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol a'r gallu i ffurfio perthnasau cadarnhaol eu hunain, ac mae'r rhain oll yn effeithio ar gyfleoedd bywyd hir dymor y plant.
- gall gwrthdaro rhwng rhieni effeithio'n andwyol ar berthynas y plentyn gyda'r fam a pherthynas y plentyn gyda'r tad, gyda thystiolaeth yn awgrymu efallai bod y cysylltiad rhwng gwrthdaro rhwng rhieni ac arferion rhianta negyddol yn gryfach ar gyfer perthynas y tad â'r plentyn o gymharu â pherthynas y fam â'r plentyn.
- nid yw'n debygol y bydd ymyrraethau sy'n ceisio gwella sgiliau rhianta pan fo gwrthdaro aml, difrifol a heb ei ddatrys rhwng y rhieni - heb fynd i'r afael â'r gwrthdaro hynny- yn llwyddiannus i wella canlyniadau ar gyfer y plentyn.


2.1.28 Mae gwybodaeth ynglŷn â cham-drin domestig ar gael yn [adran 2.14 'Mynd i'r afael â cham-drin domestig'](#).

2.1.29 Mae dioddef trosedd yn brofiad niweidiol mewn plentynodod ar gyfer unrhyw unigolyn ifanc sy'n gallu cael effaith hirdymor. Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu hadrodd fel dioddefwyr trosedd wedi cynyddu'n raddol flwyddyn ar ôl blwyddyn ar draws awdurdodau lleol Gogledd Cymru. Gall hyn fod o ganlyniad i nifer o resymau gan gynnwys cynnydd mewn gallu/ parodrwydd i adrodd; cynnydd yn nifer y troseddau a gyflawnir; cynnydd yn y mathau penodol o drosedd megis troseddau seibr.

2.1.30 Mae gwybodaeth ynglŷn â dod i gysylltiad â chamddefnyddio sylweddau ac alcohol yn ystod plentynodod ar gael yn [adran 2.9 'Mae pobl yn gwneud dewisiadau iach yn eu ffordd o fyw'](#) (yn bennaf pwyntiau 2.9.8 a 2.9.9).

Siart 2.1.1: nifer y rhai sydd wedi dioddef trosedd yn 17 oed ac iau yng Ngogledd Cymru

Ffynhonnell: Ystadegau Bywyd, ONS



Mater allweddol – darparu addysg blynyddoedd cynnar ac addysg gynradd o ansawdd uchel

- 2.1.31 Dwy thema allweddol strategaeth blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru yw darparu addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel, a darparu addysg gynradd effeithiol¹⁴.
- 2.1.32 Diffinnir blynyddoedd cynnar gan Lywodraeth Cymru fel y cyfnod o fywyd o'r cyfnod cyn-geni hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen neu o 0 i 7 oed. Mae'r blynyddoedd hyn yn gyfnod pwysig iawn ar gyfer plant. Mae plant yn tyfu'n gyflym ac mae'r amgylchedd y maent ynddo yn effeithio ar eu datblygiad corfforol a meddyliol. Mae tair blynedd gyntaf bywyd yn bwysig iawn ar gyfer datblygiad iach oherwydd cyfradd gyflym y twf niwrolegol sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn.
- 2.1.33 Mae darparu gofal plant priodol yn chwarae rhan allweddol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cyn-ysgol. Mae hefyd yn cynorthwyo rhieni, drwy ddarparu cyngor a chanllawiau, drwy ddangos sgiliau gofal plant ymarferol a thrwy gynnig cefnogaeth gofal plant sydd ei angen er mwyn caniatáu rhieni i dderbyn cyfleoedd gwaith.
- 2.1.34 Mae lefelau cyrhaeddiad ysgol ar gyfer plant sydd wedi dioddef profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn tueddu i fod yn sylweddol is na chyfartaledd y boblogaeth. Nid yw data ar lefel leol yn ddigon cadarn yn ystadegol oherwydd y niferoedd bach dan sylw, ond ar lefel Cymru gyfan:
- mae oddeutu 54% o blant mewn angen yng Nghymru yn cyflawni dangosydd cyfnod sylfaen o gymharu â 87% o'r holl blant.

- mae oddeutu 55% o blant mewn angen yng Nghymru yn cyflawni dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 2 (11 oed) o gymharu â 88% o'r holl blant.
- mae oddeutu 13% o blant mewn angen yng Nghymru yn cyflawni dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 (15/16 oed) o gymharu â 55% o'r holl blant.

2.1.35 Mae mwy o wybodaeth am lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion ar gael [yn adran 2.16 'Cyraeddiadau addysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach'](#).

Mater allweddol – gwella sgiliau rhianta

- 2.1.36 Fel arfer mae sgiliau rhianta yn sgiliau a ddysgir o'n profiadau ein hunain wrth i ni dyfu i fyny fel plant. Os oes diffyg elfennau craidd o fagu plant mewn amgylchedd diogel a chefnogol yn y profiadau hyn, gall gael effaith andwyol ar y plentyn wrth iddynt dyfu ac felly mae'r gylched o rianta amhriodol yn parhau. Mae'r rhai sy'n darparu rhianta yn cynnwys mamau, tadau, gofalwyr maeth, rhieni mabwysiedig, llysrieni a neiniau a theidiau.
- 2.1.37 Mae angen darparu cefnogaeth i rianta er mwyn torri cylchedau rhianta amhriodol a datblygu hyder rhieni yn eu sgiliau i fagu eu plant mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol. Gall darparu gwasanaethau a chefnogaeth wella perthnasau rhwng y rhieni a'r plant; gwella dealltwriaeth rhieni, ymddygiad ac agwedd y rhieni a chynyddu hyder rhieni er mwyn hyrwyddo lles cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plant.
- 2.1.38 Dros y blynyddoedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu mentrau sgiliau rhianta o dan yr agenda tlodi plant megis Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf. Tra bo Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf wedi canolbwyntio ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a bod cyfyngiadau eraill megis oedran ar gyfer Dechrau'n Deg, mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn agored i unrhyw deulu sydd angen cefnogaeth gynnar i atal atgyfeirio at wasanaethau statudol.
- 2.1.39 Mae Dechrau'n Deg yn darparu cyrsiau rhianta i deuluoedd sy'n byw o fewn ardaloedd cod post sydd wedi'u pennu fel y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn dangos faint o leoedd oedd ar gael yn y tair blynedd diwethaf a chanran y lleoedd a lenwyd.

Tabl 2.1.1: cyrsiau rhianta ffurfiol Dechrau'n Deg a gynigiwyd gan yr awdurdod lleol

Ffynhonnell: crynodeb ystadegau Dechrau'n Deg, Llywodraeth Cymru

	2013/14		2014/15		2015/16	
	Nifer y lleoedd	% y lleoedd a lenwyd	Nifer y lleoedd	% y lleoedd a lenwyd	Nifer y lleoedd	% y lleoedd a lenwyd
Sir y Fflint	223	78%	252	82%	229	68%

Mater allweddol – cam-fanteisio'n rhywiol ar blant

- 2.1.40 Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddiffinio fel 'gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Efallai

na fydd yn cynnwys lefel uchel o drais ac efallai y bydd y plentyn neu na fydd y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, megis ymosod drwy dreiddiad neu weithredoedd heb dreiddiad. Gallant gynnwys gweithgareddau heb gyswllt, er enghraifft:

- cynnwys plant wrth edrych ar, neu gynhyrchu, delweddau rhywiol
- cynnwys plant wrth wyllo gweithgareddau rhywiol
- annog plant i ymddwyn mewn dulliau rhywiol amhriodol
- meithrin perthynas amhriodol â phlentyn yn barod i'w cam-drin (gan gynnwys dros y rhyngwyd)


- 2.1.41 Mae'n aml yn drosedd gymhleth a chudd. Mae'r cyflawnwyr yn aml yn gweithredu ar eu pennau eu hunain, neu os ydynt mewn grwpiau mae ganddynt gysylltiad agos iawn, ac nid yw'r dioddefwyr o reidrwydd yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr ar adeg y drosedd. Nid dynion sy'n oedolion sy'n cyflawni cam-drin rhywiol yn unig. Gall merched gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol hefyd, ynghyd â phlant eraill.
- 2.1.42 Mae mwyafrif y dioddefwyr yn fenywod 14-17 oed. Mae cyfran fawr o'r dioddefwyr hysbys wedi bod yn dystion i gam-drin domestig parhaus ac mae llawer wedi dioddef trais domestig eu hunain. Mae diffyg adrodd am gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac felly mae'n debyg bod yr achosion yn llawer uwch na'r ffigurau troseddau a gofnodwyd. Mae dros hanner y dioddefwyr sy'n hysbys wedi bod yn destun o leiaf un trosedd rhywiol yn flaenorol. Mae cysylltiad rhwng caledi ariannol a bod yn ddioddefwr cam-fanteisio'n rhywiol. Mae ffactorau cymdeithasol a demograffig cymhleth yn cymhlethu a chynyddu diamddiffynedd. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn eithaf unigryw o ran bod ymddygiad troseddol wedi bodoli erioed ond efallai nad oedd yn cael ei gydnabod felly. Mae'r gydnabyddiaeth hon wedi cyd-fynd â nifer o ffactorau galluogi sydd wedi cynyddu gallu'r troseddwr i gyflawni troseddau.
- 2.1.43 Roedd yr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig ag amddiffyn plant yn cytuno y bu cynnydd mewn cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein ac all-lein yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn yn cael ei gymell yn rhannol oherwydd mwy o ymwybyddiaeth ond fe asesir ei bod yn debygol bod gwir gynnydd o ran nifer y troseddau sy'n cael eu cyflawni.
- 2.1.44 Mae twf parhaus o ran argaeledd a fforddiadwyedd y technolegau â chysylltiad gyda'r rhyngwyd megis ffonau clyfar a thabledi electronig yn alluogwyr hanfodol, ynghyd â'r cynnydd o ran mynediad i gyfryngau cymdeithasol. Mae'r cynnydd cenedlaethol mewn delweddau anwedus sydd wedi'u cynhyrchu gan y troseddwr yn dangos y linell aneglur rhwng yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn ymddygiad rhywiol niweidiol yn flaenorol a cham-drin plant yn rhywiol. Mae'r ffiniau rhwng rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu ar-lein yn aneglur ac mae gweithgareddau megis meithrin perthynas amhriodol yn cynyddu o ran cwmpas a maint drwy fynediad ar-lein at y dioddefwyr. Nododd Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn 2012 bod y defnydd o dechnoleg symudol a systemau anfon negeseuon yn arwyddocaol o ran galluogi, cymhelliad, cynnal ac ymgysylltiad y cyflawnwyr i gam-drin¹⁵. Yn seiliedig ar ddadansoddiad lleol gwyddwn fod hyn yn gywir ar gyfer Gogledd Cymru.
- 2.1.45 Canfyddiad yr ymarferwyr diogelu yw bod demograffeg y plant sydd â mynediad at ddyfeisiau clyfar yn mynd yn iau, gan olygu bod carfan iau o blant yn weithredol ar-lein ac y gellir cael mynediad atynt ar-lein.

- 2.1.46 Mae dadansoddiad yr heddlu o droseddau all-lein (y rhai sy'n digwydd mewn lleoliad ffisegol) yn nodi bod hanner y rhain yn gysylltiedig â manau cyhoeddus, megis ar y stryd, tafarndai, gwestai, ysgolion, mewn ceir a mewn parciau. Mae cyfran sylweddol o'r troseddau sy'n weddill yn digwydd mewn annedd. Nid oes tystiolaeth o ddiwylliant criw stryd sy'n cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yng Ngogledd Cymru, er mae is-ddiwylliannau peryglus o fewn ysgolion a gweithgareddau ieuencid eraill yn cyflwyno perygl o hyn. Mae mwyafrif y troseddwr yn wrywod unigol nad ydynt yn dangos unrhyw dystiolaeth o drefniadaeth na bod eraill yn rhan o'r weithred.
- 2.1.47 Mae'r niwed a achosir i blant o ganlyniad i gam-fanteisio'n rhywiol arnynt yn eang iawn, o'r effaith gorfforol a seicolegol i'r effeithiau llai cydnabyddedig o ddibyniaeth ar alcohol a sylweddau ar ôl eu cam-drin. Mae diamddiffynedd y dioddefwyr yn cynyddu'n sylweddol pan fo materion iechyd meddwl yn bresennol.
- 2.1.48 Yn aml mae gan ddioddefwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ddiamddiffynedd sy'n bodoli eisoes sydd wedi'i nodi gan un neu fwy o asiantaethau eisoes mewn sawl achos. Mae'r llenyddiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn nodi bod plant mewn gofal yn hynod ddiamddiffyn (Pearce a Pitts, 2011, Pearce 2009, Creegan 2005, Scott a Skidmore 2006, Coy 2008, Brodie et al, 2011). Mae rhagamcanion cenedlaethol o ddioddefwyr sydd hefyd yn blant mewn gofal yn amrywio rhwng 20% a 35%. O'r cyflwyniadau i Ymchwiliad Cam-fanteisio'n rhywiol ar blant mewn Criwiau a Grwpiau - a oedd yn darparu data penodol am statws gofal y plant unigol- roedd 21% o'r plant y nodwyd y cam-fanteisir yn rhywiol arnynt yn y system ofal.

Mater allweddol – cynnydd yn nifer y plant gydag anabledau

Siart 2.1.2: nifer y plant o dan 16 oed sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl

Ffynhonnell: hawlwyr budd-dal - lwfans byw i'r anabl, NOMIS




- 2.1.49 Mae ardal Sir y Fflint wedi profi cynnydd yn nifer y plant sy'n hawlio Lwfans Byw i'r Anabl o 740 o blant yn 2002 i 1,060 yn 2016. Mae hyn yn gynydd o dros 40% ac yn cael ei adlewyrchu ar lefel ranbarthol (Gogledd Cymru) a lefel cenedlaethol (Cymru). Mae angen rhywfaint o ofal wrth edrych ar dueddiadau hirdymor yn nata budd-daliadau gan yr effeithir arnynt gan newidiadau i feini prawf cymhwyso ac yn benodol y trosglwyddiad i gredyd cynhwysol, fodd bynnag, credir bod y duedd hon yn un gwirioneddol ar lefel leol a chenedlaethol. Nododd gweithwyr iechyd proffesiynol eu bod yn credu mai'r rheswm dros y cynnydd yw gwell cyfraddau byw, genedigaethau lluosog a mamau hŷn.
- 2.1.50 Mae magu plentyn anabl yn cael effaith sylweddol ar les y rhieni neu'r gwarchodwyr, yn ogystal â'r gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol sy'n darparu cefnogaeth ar eu cyfer. Mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn [adran 2.4 'Cefnogi gofalwyr'](#).

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.1.51 Bu tuedd ar i lawr mewn cyfraddau cenhedlu yn ystod yr arddegau yn yr 20 mlynedd diwethaf, ac mae'n yn is na chyfartaledd Cymru yn gyffredinol.

Siart 2.1.3: cyfraddau cenhedlu merched yn eu harddegau

Ffynhonnell: Ystadegau Bywyd, ONS



- 2.1.52 Nid yw nifer a chanran y pwysau geni isel wedi newid llawer yn y deng mlynedd diwethaf ar gyfer Sir y Fflint, ond maent yn awgrymu bod tuedd tuag at welliant..

Tabl 2.1.2: genedigaethau byw gyda phwysau geni isel*

Ffynhonnell: Ystadegau Bywyd, ONS

	Sir Y Fflint		YIP Betsi Cadwaladr	Cymru
	Nifer	%	%	%
2014	103	6.4	7.0	6.7
2013	102	6.2	6.8	7.1
2012	107	6.3	6.9	7.3
2011	109	6.4	6.5	6.8
2010	132	7.3	8.8	7.0
2004 - deng mlynedd	118	6.8	7.0	7.2

* diffinnir pwysau geni isel fel llai na 2,500 gram neu 5 pwys 8 owns

- 2.1.53 Mae'r cyfraddau imiwneiddio, a oedd wedi derbyn tuedd ar i fyny'n hir dymor, wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gyfradd ar gyfer y brechiad sylfaenol 5 mewn 1 (erbyn 1 oed) wedi gostwng ychydig ers 2013/14 (o 98.2% i 96.8%).

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.1.54 Mae sylfaen dystiolaeth gref o ran pwysigrwydd 1,000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn; gall mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac ymyrryd yn gynnar i atal problemau iechyd gynorthwyo pobl i wneud y dewisiadau iechyd gorau ar gyfer eu hunain yn awr ac ar gyfer eu plant yn y dyfodol.
- 2.1.55 Mae achos economaidd cryf ar gyfer buddsoddi ym mlynnyddoedd cynnar bywyd hefyd. Mae cyfradd enillion economaidd ar fuddsoddiad yn sylweddol uwch yn y cam cyn-ysgol nag unrhyw gam arall yn y system addysg. (Gweler Ffigur 2.1.1). Er gwaethaf hyn, yn aml mae'r buddsoddiad mewn gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn aml ar ei isaf yn y blynyddoedd cynnar a'r rhain yw'r blynyddoedd mwyaf hanfodol o ran datblygiad yr ymennydd. Mae buddsoddiad yn cynyddu ar y pwynt pan fo datblygiad yn arafu. (Gweler Ffigur 2.1.2).
- 2.1.56 Mae ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos manteision iechyd a chymdeithasol posibl pe bai profiadau plentyndod yn cael eu gwella. O ran y boblogaeth, pe na bai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gall olygu bod 125,000 yn llai yn ysmegu ar draws Cymru a 55,000 yn llai o bobl wedi defnyddio heroin a chocên. Mae hyn yn gost effeithlon; mae tystiolaeth yn dangos y bydd ychydig dros £100 a fuddsoddwyd i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn arwain at dros £6000 o arbedion pan fesurir ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus dros y pum mlynedd nesaf.

Ffigwr 2.1.1: cyfraddau enillion ar fuddsoddiad mewn cyfalaf dynol fel gweithrediad oedran pan fo'r buddsoddiad wedi'i sefydlu

Ffynhonnell: Knudsen E I et al. PNAS 2006; 103:10155–10162





Figure 2.1.2: gwario cyhoeddus ac ymchwil yr ymennydd – y datgysylltiad

Ffynhonnell: The Rand Corporation



2.1.57 Mae nifer o ddulliau o atal neu leihau effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'u pwysigrwydd, darparu gwasanaethau priodol ar gyfer yr holl deuluoedd a mynediad dibynadwy at gefnogaeth ychwanegol ar gyfer y rhai sydd fwyaf ei angen. Mae manteision y

gwaith hwn yn adlewyrchu gwerth buddsoddiadau ar y cyd a phartneriaethau rhwng y GIG, awdurdodau lleol a gwasanaethau ac asiantaethau eraill i atal Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yn effeithiol yn y dyfodol.

2.2 Cadw pobl ifanc yn y boblogaeth (pobl ifanc fel asedau)

Llewyrchus

Cydnherth

Mwy cyfartal

Cydlynus


Diwylliant

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.2.1 Mae cadw pobl ifanc yn Sir y Fflint yn fater pwysig. Er nad yw cyfran y bobl ifanc yn yr ardal yn bryder mor sylweddol ag ydyw ar gyfer yr awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru sef Sir Ddinbych, BS Conwy ac Ynys Môn, mae newidiadau yn nymameg poblogaeth yn golygu y bydd strwythur y boblogaeth gyffredinol yn heneiddio'n sylweddol yn yr ugain mlynedd nesaf. Mae'r byd gorllewinol yn gyffredinol yn gweld gostyngiad yn nifer a chyfran y bobl ifanc yn y boblogaeth yn gyffredinol oherwydd cyfraddau geni is, bod cenhedlaeth y to twf yn symud i oedran ymdeol a gwelliant mewn disgwyliad oes. Mae hyn yn tansilio siâp pyramid traddodiadol y strwythur poblogaeth, lle bo sylfaen eang o blant yn cefnogi brig cul o'r grŵp oedran hŷn.

Siart 2.2.1: pyramidiau poblogaeth yn dangos y bylchau strwythur oedran yn y boblogaeth rhwng 18 a 40 oed

Fynhonnell: amcangyfrifion poblogaeth canol blwyddyn y Cofrestrudd Cyffredinol, 2015



- 2.2.2 Mae'r strwythur oedran yn Sir y Fflint wedi'i wasgaru'n eithaf cytbwys o amgylch 40 oed, lle bo cynnydd sylweddol yn y boblogaeth yn eu 40au i ganol eu 50au. Mae 'brathiad' amlwg o ganol y grŵp oedran 16-29, pan fo'n rhaid i nifer o bobl ifanc adael yr ardal ar gyfer addysg uwch. Er ei bod yn ymddangos, ar gyfer adeg ar ôl addysg uwch, mae pobl ifanc yn parhau i gael eu denu i'r ardal, nid

yw'r niferoedd yn ddigon sylweddol i ddisodli'r cynnydd yn y 40au-canol 50au wrth iddynt heneiddio drwy'r gweithlu. Y grŵp oedran hwn sydd fwyaf tebygol o fod yn weithgar yn economaidd ac yn gymdeithasol, yn ceisio gwaith, addysg a chyfleoedd cymdeithasol eraill y tu allan i'r ardal.

- 2.2.3 Efallai bod tandoriad yn y pyramid poblogaeth yn deillio o strwythur oedran y gweithlu, sydd angen profiad a sgiliau penodol y mae gweithwyr hŷn yn fwy tebygol o'u cael. Efallai bo rhai ffactorau 'gwthio' sy'n gostwng cydbwysedd y boblogaeth yn y grwpiau oedran o dan 40. Mae argaeledd cyfleoedd cyflogaeth addas yn un o'r materion allweddol – efallai na fydd goruchafiaeth gwaith llafur crefftus yn yr ardal yn denu cenhedlaeth sydd wedi canolbwyntio mwy ar brifysgol na'r genhedlaeth flaenorol (gweler adran 2.17 'Gwella sgiliau ar gyfer gwaith' i gael rhagor o wybodaeth). Gall diffyg tai addas a fforddiadwy fod yn ffactor elfennol hefyd. Ac wrth benderfynu ble i ymgartrefu, mae pobl ifanc fel arfer yn chwilio am fwy na dim ond swydd; maent eisiau byw mewn lle sy'n cyfateb â'u ffordd o fyw a dymuniadau teuluol hefyd.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.2.4 Er bod cyfran y bobl ifanc ym mhoblogaeth yr ardal yn eithaf cadarn ar hyn o bryd o gymharu â chyfartaledd y DU, mae tueddiadau mudo diweddar yn debygol o gael effaith ar nifer a chyfran y bobl ifanc sy'n byw a gweithio yn Sir y Fflint. Yn y gorffennol, mae allfudiad net preswylwyr y DU o Sir y Fflint yn y grŵp oedran 16-29 wedi ei liniaru'n rhannol oherwydd lefelau eithaf uchel o allfudo rhyngwladol. Mae tystiolaeth yn awr bod y llif rhyngwladol hwn yn gwanhau, yn rhannol oherwydd dirywiad economaidd byd-eang 2008, ac yn rhannol oherwydd ansicrwydd gyda phleidlais Brexit.
- 2.2.5 Heb fudo rhyngwladol, byddai mwy o ostyngiad net ym mhoblogaeth 16-29 oed yn y 10 mlynedd diwethaf. Mudiad net blynyddol cyfartalog ers 2005:
- Wedi bod oddeutu -200 y flwyddyn ar gyfer y rhai sydd eisoes yn breswyllydd yn y DU. Oddeutu 1,900 o bobl yn y grwpiau oedran 15-29 yn gadael yr ardal bob blwyddyn, a dim ond 1,700 sy'n symud i'r ardal.
 - Wedi bod oddeutu +100 y flwyddyn ar gyfer y rhai sydd wedi symud o du allan i'r DU. Oddeutu 200 o bobl yn y grwpiau oedran 15-29 yn symud i Sir y Fflint o du allan i'r DU bob blwyddyn, ac mae oddeutu 100 yn gadael y DU.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.2.6 Os yw tueddiadau'r gorffennol yn parhau, rhagwelir erbyn 2039 y bydd y rhai 65 oed a hŷn yn ffurfio 29% o'r boblogaeth, gan gynyddu o ddim ond 20% yn 2015. Yn ystod yr un cyfnod bydd y rhai sydd o dan 25 oed yn lleihau fel cyfran o 29% i 26%.
- 2.2.7 Mae gostyngiad yng nghyfran y bobl ifanc yn y boblogaeth yn cael effaith ganlyniadol ar y strwythur poblogaeth cyfan. Ynghyd â bod yn sylfaen y boblogaeth oedran gwaith sy'n cymhell ein heconomi, y rhain yw'r unigolion fydd yn dod yn rhieni hefyd. Mae llai o fabanod yn cael eu geni oherwydd carfan rhieni 'absennol' sy'n golygu bod llai fyth o oedolion ifanc yn y genhedlaeth nesaf, sydd yna'n cael effaith ganlyniadol ar anghydbwysedd oedran yn y boblogaeth.

- 2.2.8 Mae cadw poblogaeth sy'n gytbwys o ran oedran yn darparu buddion ar gyfer y gymdeithas gyfan. Mae cyfnewid gwybodaeth, dealltwriaeth a diwylliant a rennir rhwng cenedlaethau yn cynorthwyo i ffurfio cymuned wydn sy'n fywiog, arloesol ac integredig – mae 'symud gyda'r oes' a 'rhannu doethineb' yn hanfodol er mwyn ffurfio gwydnwch cymdeithasol. Mae cefnogaeth gymunedol a rolau gofalu hefyd yn cael eu meithrin drwy integreiddiad rhwng cenedlaethau, nid yn unig o fewn teuluoedd, ond gyda chymdogion, cyfeillion a thrwy wirfoddoli. Gall hon fod yn broses ddwyffordd, gyda'r preswylwyr hŷn yn cynorthwyo gyda gofal plant a datblygiad a'r bobl iau yn darparu gofal ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer preswylwyr hŷn.
- 2.2.9 Ar gyfer cyflogwyr a'r economi yn gyffredinol, mae recriwtio, cadw a datblygu pobl ifanc o fewn y gweithlu a'r boblogaeth ehangach yn gymorth i fynd i'r afael â materion megis gweithlu sy'n heneiddio, bylchau a diffyg sgiliau, datblygu doniau, cynllunio ar gyfer olyniaeth a mewnwleidiad cwsmer i'r marchnadoedd a'r tueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

2.3 Heneiddio'n dda I

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.3.1 Mae datblygiadau o ran iechyd ac amodau byw yn cynorthwyo pobl i fyw'n hirach. Mae mwy o bobl dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn y DU nag o blant. Erbyn 2050, gall dyn 65 oed ym Mhrydain ddisgwyl byw i fod yn 91 oed. Yn 1950 ei ddisgwyliad oes oedd 76.
- 2.3.2 Mae manteision o ran cynnydd i ddisgwyliad oes sy'n gwella ansawdd bywyd yr unigolyn ond hefyd yn darparu gwelliannau i'r gymuned ehangach.
- Er y bydd maint cyffredinol y boblogaeth hŷn yn cynyddu'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd, mae cenhedlaeth bresennol pensynwyr yn iachach na'r cenedlaethau blaenorol. Yn unigol, maent yn debygol achosi llai o alw ar wasanaethau na chenhedlaeth eu rhieni, nes iddynt gyrraedd oedran mawr iawn.
 - Mae ymddeol tra bo unigolion yn parhau i fod yn heini, iach ac egniol yn golygu bod mwy o bobl yn cyfranogi yn eu cymunedau lleol. Pobl hŷn yw mwyafrif y gwirfoddolwyr, ac yn cynrychioli cyfran anghymesur o aelodaeth clybiau a chymdeithasau.
 - Mae pobl hŷn yn tueddu i dderbyn rôl allweddol i gefnogi a chynnal rhwydweithiau cymdeithasol anffurfiol, sydd yna'n uno cymunedau a theuluoedd. Maent yn darparu gofal plant, cymorth ariannol, ymarferol ac emosïynol i aelodau'r teulu, ac i gyfeillion a chymdogion.
 - Ni fydd yr holl bobl hŷn yn dewis ymddeol, a gall disgwyliad oes iachach olygu bod pobl yn aros yn y gweithlu'n hirach. Mae gweithlu hŷn yn tueddu i fod wedi'u haddysgu'n well ac yn meddu ar lefelau sgiliau uwch, gan arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant yn gyffredinol.
 - Mae cymdeithasau sydd â thuedd o strwythurau oedran hŷn yn tueddu i fod yn leoedd sy'n fwy diogel ar y cyfan, gan fod mwyafrif y troseddau yn erbyn pobl ac eiddo yn cael eu cyflawni gan wrywod iau.

2.3.3 Fodd bynnag, bydd cynnydd yn y boblogaeth hŷn, yn enwedig os nad yw'n cael ei baru gyda gwelliannau iechyd a chymdeithasol, yn rhoi mwy o bwysau ar arian cyhoeddus, gan fo'r boblogaeth oedran gwaith llai yn cefnogi gwario cynyddol ar iechyd, gofal cymdeithasol a phensiynau.

- Ar draws y DU mae oddeutu 55% o wariant lles yn cael ei dalu i bensiynwyr.
- Mae nifer yr achosion o gyflyrau iechyd hirdymor yn cynyddu gydag oedran, ac mae cyflyrau o'r fath yn ffurfio oddeutu 70% o wariant iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae twf yng ngrwpiau poblogaeth hŷn fel arfer yn golygu gostyngiad yn y boblogaeth oedran gwaith sy'n gymesur â nifer y pensiynwyr. Mae cyfran is o bobl mewn gwaith yn golygu llai o refeniw treth yn gyffredinol, a gall roi pwysau ar yr economi leol ac ar yr adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gofal cymdeithasol¹⁶.
- Mae pwysau ar lety preswyl a chartref nyrsio yn cynyddu, ac mae bwlch mewn darpariaeth (gweler [adran 2.21 'Sector cyflogaeth allweddol – gofal cymdeithasol ac iechyd'](#) i gael rhagor o wybodaeth).
- Mae dibyniaeth ar gludiant cyhoeddus yn debygol o gynyddu gydag oedran hŷn, gan nad yw pobl yn gallu gyrru eu hunain mwyach.

2.3.4 Er mwyn sicrhau ein bod yn byw mewn lleoedd da i heneiddio, mae'n rhaid i'r sector cyhoeddus ystyried darpariaeth tai da, amgylchedd lle y mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu, a lle nad ydynt yn cael eu hynysu neu'n unig a'u bod yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen i wella eu hiechyd a'u lles.

2.3.5 Y canolrif oedran (yr oedran y mae hanner y boblogaeth yn hŷn a hanner yn iau) yw 43 ar gyfer preswylwyr Sir y Fflint. Y canolrif oedran presennol ar gyfer Cymru yw 42 a 40 ar gyfer y DU. Mae hyn yn golygu bod ein poblogaeth yn hŷn na phoblogaeth Cymru a'r DU, er mae gan y Sir strwythur oedran iau na'i gymdogion yng Ngogledd Orllewin Cymru.

- Mae 20.1% o'r boblogaeth yn 65+ oed (Cymru = 20.1%, y DU=17.8%).
- Mae 61.5% yn 16-64 oed (cyfwerth ag oedran gweithio), o gymharu â 61.9% yng Nghymru gyfan a 63.3% ar draws y DU.
- Cymhareb dibyniaeth pobl hŷn fesul 100 o bobl o oedran gweithio yw 32.7 ar hyn o bryd, sy'n uchel o gymharu â chyfartaledd y DU.

Tabl 2.3.1: oedran canolrifol a chymarebau dibyniaeth, 2015

Ffynhonnell: rhagamcan canol blwyddyn y boblogaeth, ONS

	Sir y Fflint	Cymru	Y Du
Oed canolrifol	43	42	40
Cymhareb dibyniaeth	32.7	32.6	28.2

Diffiniadau

Oed canolrifol – yr oedran pan fo hanner y boblogaeth yn hŷn a'r hanner arall yn iau

Cymhareb dibyniaeth – nifer y bobl yn y boblogaeth nad ydynt o oedran gweithio ar gyfer pob 100 o bobl o oedran gweithio. Diffinnir poblogaeth oedran gweithio fel y rhai sy'n 16 i 64 oed.

Mater allweddol – cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n byw gyda dementia

- 2.3.6 Mae dementia yn fwy cyffredin ymysg pobl hŷn – mae un ym mhob 14 unigolyn dros 65 oed, un ym mhob 6 unigolyn dros 80 oed ac un o bob tri o unigolion dros 95 oed yn dioddef rhyw fath o ddementia¹⁷. Dementia a chlefyd Alzheimer oedd achos arweiniol marwolaeth yng Nghymru a Lloegr yn 2015 gan gynrychioli 11.6% o'r holl farwolaethau a gofrestrwyd - yn bennaf oherwydd gwell disgwyliad oes a datblygiadau meddygol i drin nifer o glefydau a salwch eraill¹⁸. (Er bod salwch sy'n gysylltiedig â dementia yn fwy cyffredin ymysg pobl hŷn, gall effeithio ar bobl ifanc hefyd - yn y DU mae gan dros 40,000 o bobl o dan 65 ddementia).
- 2.3.7 Nid yw dementia yn glefyd ynddo'i hun, ond mae'n ddisgrifiad o grŵp o symptomau sy'n digwydd pan fo cellau'r ymennydd yn peidio â gweithio'n iawn. Clefyd Alzheimer yw achos mwyaf cyffredin dementia, ond mae clefydau eraill, a allai ddiwydd ar y cyd, yn cynnwys dementia fasgwlaidd a dementia gyda chyrff Lewy. Mae'r clefydau yn effeithio ar yr ymennydd ac yn cael effaith ar sut y mae pobl yn cyfathrebu, meddwl a chofio.
- 2.3.8 Mae'r elusen Alzheimer's Research UK yn nodi rhai o'r heriau y gall unigolion sy'n dioddef o ddementia eu hwynebu, gan gynnwys:
- canfod bod eu gallu i gofio, meddwl a gwneud penderfyniadau yn gwaethygu.
 - cyfathrebu ac iaith yn anoddach.
 - anhawster adnabod gwrthrychau'r cartref neu wynebau cyfarwydd.
 - tasgau dyddiol yn anoddach, er enghraifft defnyddio teclyn rheoli'r teledu o bell, ffôn neu offer cegin. Gall pobl gael anhawster canfod gwrthrychau sydd o'u blaenau.
 - newidiadau yn eu patrymau cysgu.
 - rhai unigolion yn teimlo'n drist, isel neu'n rhwystredig o ran yr heriau y maent yn eu hwynebu. Mae gorbryder hefyd yn gyffredin a gall pobl geisio rhagor o sicrwydd neu fod yn ofnus neu ddrwgdybus.
 - gall pobl brofi rhithweledigaethau, lle y byddent yn gweld pethau neu bobl nad ydynt yno.
 - gall pobl fod yn fwy ansad ar eu traed ac yn fwy tebygol o syrthio.
 - gall gweithgareddau dyddiol megis gwisgo, mynd i'r toiled a bwyta fod yn anoddach, a bydd pobl angen rhagor o gymorth yn raddol.
- 2.3.9 Mae cynnydd yn nifer yr unigolion gyda dementia yng Nghymru yn duedd sy'n gyffredin ledled y byd. Mae rhai heriau sy'n benodol i Gymru, gan gynnwys yr angen i fynd i'r afael â'r effaith ar gymunedau gwledig, ynghyd â'r iaith Gymraeg, sy'n hynod bwysig ar gyfer unigolion sydd efallai ddim ond yn deall neu'n gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf wrth i'r salwch waethygu.
- 2.3.10 Mae dementia yn cael mwy o effaith ar ferched nag ar ddynion, oherwydd ei fod yn bennaf yn glefyd yn ystod oedran hŷn ac mae merched yn tueddu i fyw'n hirach na dynion. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o dderbyn rolau gofalu heb dâl ar gyfer pobl eraill gyda dementia ac yn ddwywaith yn fwy tebygol na dynion o ddarparu gofal dwys 24 awr¹⁹.
- 2.3.11 Mae data cofrestr Meddygon Teulu ar gyfer 2016 yn dangos bod 750 claf gyda dementia wedi cofrestru gyda meddygfeydd yn Sir y Fflint. Mae hyn yn 0.5% o'r holl gleifion sydd wedi cofrestru gyda meddygon teulu yn Sir y Fflint.

Mater allweddol – anafiadau oherwydd tân ymysg pobl hŷn


- 2.3.12 Ar gyfer y flwyddyn 2015/16, mae ystadegau tân ar gyfer Gogledd Cymru yn dangos bod 12% o'r holl bobl a gafodd anafiadau yng ngrŵp oedran 80+, er mai dim ond 6% o'r boblogaeth yw hynny. Roedd hyn yn gyfradd o 8.4 fesul 10,000 o bobl o gymharu â chyfradd o 3.2 ar gyfer y boblogaeth gyfan.
- 2.3.13 Mae'r tebygrwydd o ddioddef tân damweiniol yn eich cartref yn cynyddu yn unol â chyfuniad o effeithiau ffactorau cyfrannol. Caiff nifer sylweddol eu cynnu gan bobl yn coginio, gwaredu deunyddiau ysmegu'n esgeulus neu'n camddefnyddio offer yn y cartref. Felly er nad yw oed ei hun o reidrwydd yn cynyddu risg unigolyn, byddai unigolyn hŷn a bregus sy'n byw ar ei ben ei hun, a heb larwm mwg ac yn ysmegu y tu mewn yn wynebu mwy o berygl. Mae gwaith atal tân sydd wedi ei wneud gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys targedu pobl sydd â ffactorau cyfrannol i sicrhau fod yr wybodaeth ganddynt i gadw eu hunain yn ddiogel.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.3.14 Mae'r cynnydd yn nifer yr unigolion dros 65 oed yn deillio o ddau brif ffactor; yn gyntaf mae gwelliant yn y cyfraddau marwolaeth yn golygu bod pobl yn byw yn hirach, ac yn ail, mae'r garfan o'r to twf ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn awr yn heneiddio.
- 2.3.15 Mae oedran canolrifol poblogaeth Sir y Fflint wedi cynyddu o 40 i 43 blwyddyn dros y ddegawd ddiwethaf. Roedd y cymarebau dibyniaeth yn 100:24.6 yn 2005 (100:32.7 yn awr).


Siart 2.3.1: poblogaeth 65 oed a hŷn Sir y Fflint, 1991-2039

Ffynonellau: amcangyfrifion poblogaeth canol-blwyddyn, ONS; amcanestyniadau poblogaeth (prif amcanestyniad sail-2014), Llywodraeth Cymru



2.3.16 Mae ffigurau dementia wedi cynyddu'n raddol ers 2011 (blwyddyn gyntaf y data), pan fo 500 o gleifion gyda dementia yn Sir y Fflint.

Siart 2.3.2: cyfradd y digwyddiadau tân a adroddwyd gyda dioddefwyr 80 oed a hŷn
Ffynhonnell: system gofnodi digwyddiad tân, Y Swyddfa Gatref



2.3.17 Mae cyfradd y digwyddiadau tân ymysg pobl 80+ oed wedi bod yn cynyddu'n gyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf, gan godi o ddim ond 3.6 digwyddiad fesul 10,000 o'r boblogaeth 80+ oed yn 2001/2 i uchafbwynt o 14 digwyddiad fesul 10,000 o'r boblogaeth yn 2010/11.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

2.3.18 Rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn yn yr ardal yn cynyddu'n sylweddol dros y 25 mlynedd nesaf o ganlyniad i gynnydd yn nîsgwylad oes, a bod pobl a aned yn ystod yr ail do twf yn y DU ar ddiwedd 1950au/dechrau 1960au yn cyrraedd grwpiau oedran ymdeol ochr yn ochr â'r to twf ar ôl yr ail ryfel byd. Yn benodol bydd cynnydd mawr yn nifer yr unigolion 85 oed a hŷn, wrth i'r to twf symud i'r grŵp oedran hwnnw.


- Erbyn 2039 bydd nifer yr unigolion 65 oed a hŷn yn cynyddu yn Sir y Fflint o 35% i 46,050 a byddant yn ffurfio 29.2% o'r boblogaeth. Bydd y boblogaeth gyffredinol wedi cynyddu o 2.2%. Bydd cymarebau dibyniaeth wedi cynyddu i 100:42.7.
- Bydd nifer yr unigolion 85 oed a hŷn yn cynyddu o 205% i 10,450 9,650 a byddant yn ffurfio 6.6% o'r boblogaeth²⁰.

2.3.19 Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd 14.0% o'r aelwydydd yn Sir y Fflint yn cael eu meddiannu gan bensiynwyr sengl 65+ oed. Erbyn 2039 disgwylir i hyn gynyddu i 18.8% cynnydd o 3,900²¹.

2.3.20 Bydd effaith cenedlaethau'r to twf ar strwythur y boblogaeth yn dechrau dod i ben o ganol 2040au ymlaen.

Siart 2.3.3: rhagamcan o nifer yr achosion o ddementia yn y boblogaeth

Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth sail-2011, Llywodraeth Cymru, Cronfa Ddata Cennin Pedr, Sefydliad Gofal Cyhoeddus



2.3.21 Mae amcanestyniadau yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 a chyfraddau achosion dementia'r DU²² yn rhagweld rhwng 2015 a 2030;

- bydd nifer yr unigolion gyda dementia Yn Sir y Fflint yn cynyddu o oddeutu 1,350. Mae hyn yn gynydd o 66%.
- bydd mwyafrif y cynnydd yn deillio o gynydd yn nifer yr unigolion hŷn yn y boblogaeth. Mae dementia yn fwy cyffredin ymysg pobl hŷn – mae un ym mhob 14 unigolyn dros 65 oed, un ym mhob 6 unigolyn dros 80 oed ac un o bob tri o unigolion dros 95 oed yn dioddef rhyw fath o ddementia.
- yn y grwpiau oedran hŷn mae nifer yr achosion o ddementia ychydig yn uwch mewn menywod nag mewn dynion – efallai oherwydd disgwyliad oes hirach. Fodd bynnag, disgwylir i nifer y dynion hŷn gyda dementia gynyddu'n gyflymach nag ar gyfer merched oherwydd y gwelliannau a ragwelir mewn disgwyliad oes i ddynion.
- bydd achosion o ddementia cynnar (mewn pobl o dan 65 oed) yn aros yn eithaf sefydlog. Mae'r achosion o ddementia cynnar yn cynnwys Clefyd Alzheimer, dementia'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol a chyflyrau megis Clefyd Parkinson.

2.3.22 Er mai clefyd mewn pobl hŷn ydyw gan amlaf, nid yw'n anochel y bydd yr holl bobl hŷn yn dioddef o ddementia ac nid yw'n rhan arferol o heneiddio. Mae nifer

yr achosion yn mynd dros 10% ar ôl 80 oed, ac mae ymchwil presennol yn awgrymu bod y cyfraddau hyn yn gostwng, efallai o ganlyniad i welliannau cyffredinol o ran iechyd a ffyrdd o fyw megis gostyngiad yng nghyfraddau ysmegu²³.

2.3.23 Nododd ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar ei gynllun gweithredu dementia nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer gwella²⁴.

- Gwell darpariaeth gwasanaeth drwy weithio ar y cyd yn well ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector ac asiantaethau eraill;
- Gwella diagnosis cynnar ac ymyraethau amserol;
- Gwell mynediad at wybodaeth well a chefnogaeth ar gyfer pobl gyda'r salwch a'u gofalwyr, gan gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o'r galw am eiriolaeth.

2.3.24 Mae llawer o gostau'r henoed wedi codi oherwydd bod twf yng nghyfanswm disgwyliad oes wedi digwydd yn gyflymach na thwf mewn disgwyliad oes iach (h.y. nifer y blynnyddoedd y gallwn ddisgwyl byw gydag iechyd da). Gallai polisiâu sy'n gwella gofal iechyd ataliol, a chynorthwyo pobl i barhau i fod yn egnïol ac yn iach yn ddiweddarach mewn bywyd, gynorthwyo i gynyddu cyfran eu bywyd a dreulir mewn iechyd da a lleihau costau. Byddai poblogaeth hŷn iachach hefyd yn caniatáu i fwy aros yn y farchnad lafur yn hirach, ac felly'n lleihau effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar y gymhareb dibyniaeth.

2.3.25 Mae rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ac mae agenda 'Heneiddio'n Dda' Cymdeithas Llywodraeth Leol wedi nodi'r hyn sydd angen ei wneud i ddatblygu lleoedd da i heneiddio, sicrhau henaint iach a chynhwysol yn gymdeithasol. Mae'n tynnu sylw at y meysydd canlynol i'r sector cyhoeddus ganolbwyntio arnynt²⁵.

- Atal unigrwydd ac unigedd
- Hyrwyddo cydraddoldeb oedran
- Cynnwys pobl hŷn
- Cynyddu capasiti cymunedol
- Tai da
- Gwella iechyd a lles.
- Annog cyflogaeth a gweithgarwch economaidd
- Datblygu gwaith pontio'r cenedlaethau
- Creu cymunedau sy'n gyfeillgar i ddementia

2.4 Cefnogi gofalwyr

Cydnerth

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Beth sy'n digwydd yn awr

2.4.1 Gofalwyr di-dâl yw'r darparwyr gofal mwyaf i bobl gydag anghenion cefnogaeth yn ein cymunedau, ac maent yn arbed miliynau o bunnoedd i'r GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn. Mae un rhagamcan yn nodi bod


gwerth gofal di-dâl yn y DU yn £132 biliwn y flwyddyn - bron i ddwywaith yr hyn ydoedd yn 2001, ac yn agos at wariant iechyd blynyddol y DU o £134.1 biliwn²⁶.

- 2.4.2 Yn y degawdau diweddar mae nifer a chyfran yr unigolion sy'n cael eu geni gydag anableddau ac yn goroesi i fod yn oedolyn ac yn byw'n hirach wedi cynyddu'n sylweddol. Mae gwelliannau mewn gofal iechyd ac iechyd cyffredinol hefyd yn golygu bod mwy o bobl yn goroesi ar ôl salwch difrifol fel cancr neu strôc. Mae cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn creu galw newydd a chymhleth ar ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd eisoes o dan bwysau oherwydd cyllidebau prin y GIG a gofal cymdeithasol. Mae gofal di-dâl sy'n cael ei ddarparu gan deulu, cyfeillion a chymdogion yn cynorthwyo fwy a mwy i ddiwallu'r cynnydd mewn galw a'r bylchau mewn gwasanaethau.
- 2.4.3 Fodd bynnag, mae strwythur poblogaeth y DU sy'n heneiddio'n gyflym a disgwyliadau oes hirach yn golygu bod nifer y rhai sydd angen gofal a chefnogaeth yn rhagori ar nifer yr aelodau oedran gwaith sy'n cael eu darparu.
- 2.4.4 Gall gofalu am rywun arall roi pwysau ar unigolyn, a gall arwain at broblemau iechyd corfforol ar gyfer y gofalywr eu hunain (drwy ymdrech gorfforol megis codi a chario, ac o flinder cyffredinol). Gall gofalywr wynebu pwysau ar eu hiechyd meddwl hefyd, megis delio â straen a phoeni am yr unigolyn y maent yn gofalu amdanynt ac effaith eu salwch; arwahanrwydd cymdeithasol a diffyg amser i ganolbwyntio ar eu hunain; pryderon ariannol oherwydd llai o incwm yn y cartref a/neu gostau gofal cynyddol; a theimladau o rwystredigaeth a gwylltineb tuag at yr unigolyn y maent yn gofalu amdanynt a'r sefyllfa y maent ynnddi.
- 2.4.5 Yn ôl cyfrifiad 2011, mae dros 17,650 o bobl Sir y Fflint yn darparu gofal heb dâl. Mae dros 25% o'r gofalywr hyn (bron i 4,500 o bobl) yn darparu 50 awr neu fwy o ofal bob wythnos. Bydd bod â lefelau cyn uchred o ddarpariaeth gofal di-dâl yn effeithio'n enfawr ar les economaidd a chymdeithasol y gofalywr yn ogystal â'r rhai y gofelir amdanynt.
- 2.4.6 Mae oddeutu dau draean o'r gofalywr di-dâl yn 50 oed neu'n hŷn – ym mae dros 24% yn 65+ oed.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.4.1: darpariaeth gofal di-dâl 2001 a 2011

Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth 2001 a 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol



- 2.4.7 Mae nifer a chyfran yr unigolion sy'n darparu gofal heb dâl wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2001 – cynnydd o oddeutu 1,200. Mae mwy na hanner y cynnydd hwnnw wedi bod yn bobl sy'n darparu 50+ awr o ofal heb dâl bob wythnos.
- 2.4.8 Roedd y cynnydd yn cynnwys pobl 65+ oed sy'n darparu gofal heb dâl yn bennaf, sydd wedi cynyddu o dros 1,450 yn Sir y Fflint. Roedd hyn yn gynyddu o 12.3% i 15.2% o'r holl bobl 65+ oed.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.4.9 Mae'n anodd gwneud rhagamcan rhesymol ynglŷn â dyfodol darpariaeth gofal di-dâl, gan ei fod yn cael ei ddylanwadu gan ryngweithiad cymhleth o ffactorau megis newid mewn darpariaeth gofal cymdeithasol, tueddiadau hirdymor mewn iechyd a lles, polisi tai a rhwydweithiau teuluol a chyfeillgarwch. Fodd bynnag, mae cymhwysiad syml o'r cyfraddau presennol i'r poblogaethau amcanestynedig ar gyfer y dyfodol yn awgrymu y gallai nifer yr unigolion sy'n darparu 50+ awr o ofal di-dâl gynyddu i oddeutu 5,150 – cynnydd mewn canran o 15.2% ers 2011.
- 2.4.10 Disgwylir i nifer yr unigolion 65+ oed sy'n darparu gofal di-dâl gynyddu o oddeutu 2,150 – cynnydd mewn canran o oddeutu 55.2% ers 2011. Gallai cynnydd mewn dibyniaeth ar ofalwyr hŷn – sydd efallai ag anghenion lles eu hunain sy'n gysylltiedig â'u hoedran – fod yn beryglus²⁷.
- 2.4.11 Mae nifer y plant gydag anabledd yn cynyddu'n raddol ar draws Cymru gyfan. Bydd hyn yn cynyddu nifer y rhieni neu warchodwyr sydd angen darparu gofal di-dâl. Mae goblygiadau hefyd wrth i'r plant anabl hyn heneiddio ac wrth i'w gofalwyr heneiddio, gan newid natur y gefnogaeth sy'n ofynnol o bosib.
- 2.4.12 Mae'r amcanestyniadau hyn yn cyflwyno goblygiadau sylweddol ar gyfer y sector cyhoeddus yn Sir Fflint. Mae cefnogi gofalwyr drwy ddarparu gofal seibiant a gwasanaethau eraill yn flaenoriaeth allweddol i gynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain a lleihau'r pwysau hirdymor ar y GIG a gwasanaethau'r cyngor.

2.5 Byw mewn unigedd a mynediad at wasanaethau

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.5.1 Y grwpiau mwyaf diamddiffyn yw'r rhai sy'n lleiaf tebygol o allu cael mynediad at wasanaethau. Rhain hefyd yw'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o ddiodef arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd.
- 2.5.2 Mae mynediad at wasanaethau yn cael ei ddylanwadu gan nodweddion gwasanaeth strwythurol (strwythur, trefniadaeth a darpariaeth gwasanaethau; nodweddion gwasanaeth megis lleoliad ac amseroedd agor) a nodweddion y boblogaeth sy'n derbyn gwasanaethau (nodweddion demograffig, er enghraifft bod yn geisiwr lloches, bod yn ddigartref, bod ganddynt anabledd dysgu, neu'n byw mewn ardal wledig; nodweddion diwylliannol, er enghraifft os nad yw'r unigolyn yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf neu eu bod yn byw mewn cymuned Sipsiwn a Theithwyr; nodweddion ymddygiad, er enghraifft defnydd anghyfreithlon o gyffuriau, gwaith rhyw masnachol, y mae pobl eisiau ei guddio, nodweddion ymagwedd, er enghraifft yn amheus o'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig neu nad ydynt yn ymwybodol o'r buddion iechyd y gellir eu cael, nodweddion ffordd o fyw, er enghraifft eu bod yn ofalwyr). Mae pobl nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol safonol yn rheolaidd mewn mwy o berygl o iechyd gwael, a allai Gronni drwy fywyd ac arwain at gynnydd mewn galw ar wasanaethau a chynnydd mewn costau iechyd a gofal cymdeithasol.
- 2.5.3 Gall unigedd effeithio ar unrhyw un – waeth beth fo oedran yr unigolyn. Fodd bynnag, wrth i ni heneiddio, mae'r ffactorau risg sy'n gallu arwain at deimladau o unigedd yn cynyddu a chydgyfeirio. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys²⁸:

Personol	Cymdeithas ehangach
Iechyd gwael	Diffyg cludiant cyhoeddus
Colli synhwyrâu	Amgylchedd ffisegol, er enghraifft, diffyg toiledau cyhoeddus
Symudedd gwael	Llety
Incwm isel	Pryderon ynglŷn â throedd
Profedigaeth	Demograffeg
Ymddeoliad	Datblygiadau technolegol
Gofalu	Trosiant poblogaeth uchel
Newidiadau eraill (megis rhoi'r gorau i yrru)	

- 2.5.4 Mae ymchwil a nodwyd yn Asesiad Poblogaeth presennol Gogledd Cymru (sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lies (Cymru) yn awgrymu bod:

- mwy o unigedd a rhwystrau unigedd ar gyfer dynion, pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, unigolion sydd wedi profi profedigaeth yn ddiweddar, a'r unigolion hynaf yn ein cymunedau.
- gall anabledd neu salwch achosi unigedd, gan fod hyn yn newid mynediad pobl at eu rhwydweithiau cymdeithasol
- mae unigolion 50 oed a hŷn yn cymdeithasu llai oherwydd y sefyllfa economaidd, gyda bron i draean (32%) o bobl 50 oed a hŷn a chwarter pobl 65 oed a hŷn yn lleihau'r amser y byddant yn mynd allan i gymdeithasu
- mae nifer uchel o ddynion wedi profi unigedd ar ôl colli eu partner (62%) neu golli cyfeillion sydd yr un oedran â nhw (54%). Roedd dynion hefyd yn llai tebygol o gyfaddef eu teimladau i deulu neu ffrindiau (11% o ddynion a 24% o ferched). Mewn arolwg gan Wasanaeth Gwirfoddol Brenhinol Merched, canfuwyd bod dynion yn llai tebygol o gadw mewn cysylltiad â theulu neu berthnasau sy'n byw ymhell, dros y ffôn (71% o ferched o gymharu â 29% o ddynion).
- mae mwy o risg bod pobl sydd wedi derbyn gofal a chymorth yn gwybod sut deimlad yw arwahanrwydd cymdeithasol gan fod ganddynt 1 neu 2 o ffrindiau agos fel arfer.

2.5.5 Mae gwahanol fathau o unigedd; unigedd emosiynol ac unigedd cymdeithasol. Unigedd emosiynol yw'r teimlad o golli cwmnïaeth un unigolyn penodol; partner, brawd, chwaer neu gyfaill agos fel arfer. Mae unigedd cymdeithasol yn deillio o ddiffyg rhwydwaith cymdeithasol ehangach neu grŵp o ffrindiau. Gall unigedd fod yn deimlad sy'n mynd a dod, a gall unigolion ddiodeff o unigedd ar adegau penodol o'r flwyddyn, er enghraifft yn ystod y Nadolig. Gall unigedd fod yn gronig lle y bydd unigolyn yn teimlo'n unig y rhan fwyaf o'r amser. Mae teimlo'n unig yn oddrychol; os yw unigolyn yn teimlo'n unig, yna maent yn unig.

2.5.6 Mae arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd wedi'u nodi fel ffactorau risg ar gyfer iechyd gwael (yn enwedig iechyd meddwl gwael) a lles is, gan gynnwys morbidrwydd a marwolaeth, iselder a dirywiad gwybyddol. Mae ymchwil a nodwyd yn Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru'n awgrymu bod:


- unigedd yn cael effaith ar gyfraddau marwolaeth sy'n gyfartal ag ysmegu 15 o sigarennau y dydd.
- mae unigedd yn cynyddu'r perygl o bwysedd gwaed uchel.
- mae unigolion hefyd mewn perygl o ddirywiad corfforol
- mae unigolion unig mewn mwy o berygl o ddirywiad gwybyddol
- daeth un astudiaeth i'r casgliad bod unigolion unig 64% yn fwy tebygol o ddatblygu dementia clinigol
- mae unigolion unig hefyd yn fwy tebygol o ddiodeff o iselder
- mae unigedd a diffyg rhwydweithiau cymdeithasol yn ragfynegyddion o hunanladdiad mewn grwpiau oedran hŷn

2.5.7 Mae pobl yn fwy tebygol o gael anaf neu o gael eu lladd gan dân os ydynt gartref ar eu pennau eu hunain. Mae risg uwch ar gyfer unrhyw un sy'n byw ar eu pennau eu hunain, ond mae bod ar eich pen eich hun yn cynyddu'r perygl y bydd tân yn dechrau neu'n lledaenu heb i chi sylwi, ac yn lleihau cyfleoedd yr unigolyn o ddianc heb anaf.

- 2.5.8 Mae pobl hŷn sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol hefyd yn fwy agored i niwed gan effeithiau digwyddiadau na ellir eu rhagweld megis syrthio. Gan fod gan unigolion hŷn, sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol, rwydweithiau llai o berthnasau, cymdogion a chyfeillion, mae ganddynt lai o gefnogaeth anffurfiol a di-dâl i ddibynnu arno i ddiwallu eu anghenion gofal cymdeithasol neu anghenion eraill; ac efallai na fyddent yn derbyn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ffurfiol priodol, ac fel allai hyn arwain at ganlyniadau niweidiol hirdymor²⁹.
- 2.5.9 Mae Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru'n nodi pwysigrwydd atal neu liniaru unigedd er mwyn galluogi pobl hŷn i aros mor annibynnol â phosibl. O ran effaith unigedd ar wasanaethau cyhoeddus, mae unigolion unig yn fwy tebygol o:
- ymweld â'u meddyg teulu, defnyddio mwy o feddyginiaethau, â risg uwch o syrthio a chynnydd mewn ffactorau risg y byddant angen gofal hirdymor
 - derbyn mynediad cynnar i ofal preswyl neu ofal nyrsio
 - defnyddio gwasanaethau damweiniau ac achosion brys yn annibynnol o'r salwch cronig
 - yn ôl Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched, mae unigolion unig yn llai tebygol o ddefnyddio gwasanaethau ataliol (yn enwedig y gwasanaethau iechyd).
- 2.5.10 Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn broblem hefyd ar gyfer plant ac oedolion sy'n ofalwyr. Mae'r ymrwymiad amser a roddir i'r rhai sy'n derbyn gofal yn golygu bod anghenion cymdeithasol ac emosiynol y gofalwr yn cael eu rhoi o'r neilltu yn aml. Mae ffigurau yn dangos bod nifer y gofalwyr yn y gymuned yn cynyddu ac felly bydd nifer yr unigolion sy'n dioddef arwahanrwydd cymdeithasol yn ein cymunedau yn cynyddu hefyd.
- 2.5.11 Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn broblem hefyd ar gyfer plant ac oedolion sy'n ofalwyr. Mae'r ymrwymiad amser a roddir i'r rhai sy'n derbyn gofal yn golygu bod anghenion cymdeithasol ac emosiynol y gofalwr yn cael eu rhoi o'r neilltu yn aml. Mae ffigurau yn dangos bod nifer y gofalwyr yn y gymuned yn cynyddu ac felly bydd nifer yr unigolion sy'n dioddef arwahanrwydd cymdeithasol yn ein cymunedau yn cynyddu hefyd.

Map 2.5.1: ardaloedd 0 Sir y Fflint yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad at wasanaethau allweddol (mewn glas tywyll)

Ffynhonnell:(Llywodraeth Cymru 2014)



2.5.12 Mae mynediad daearyddol i wasanaethau allweddol yn ffurfio rhan o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, sef mesurydd swyddogol amddifadedd yng Nghymru. Mae'r maes hwn o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ystyried yr amser teithio cyfartalog i gael mynediad i ystod o wasanaethau sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n hanfodol ar gyfer bywyd dyddiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- fferyllfa a meddygfa
- swyddfa bost
- ysgol gynradd
- siop fwyd
- llyfrgell gyhoeddus
- canolfan hamdden

Mae tri o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yn Sir y Flint ymysg y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer mynediad at wasanaethau, fel y dengys y map isod (y rhai mewn glas tywyll) – LSOA Trelawnyd a Gwaenysgor, LSOA Caerwys1 a LSOA Gronant. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys poblogaeth o oddeutu 4,650 o bobl³⁰.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol


2.5.13 Mae rhai o'r grwpiau sy'n cael eu cydnabod fel y rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o arwahanrwydd cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd

diwethaf. Er nad yw hyn yn dystiolaeth uniongyrchol o gynnydd mewn arwahanrwydd cymdeithasol mae nifer yr aelwydydd ag unigolyn sengl (yn enwedig aelwydydd gyda phensiynwr sengl); gofalwyr a phobl gyda salwch cronig oll wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

- Rhwng 2001 a 2015 mae nifer yr aelwydydd ag unigolyn sengl yn Sir y Fflint wedi cynyddu o 2,150.
- Rhwng 2001 a 2011 mae nifer y gofalwyr wedi cynyddu o 1,200.

Siart 2.5.1: newid yn nifer yr aelwydydd gydag unigolyn sengl

Ffynhonnell: amcanestyniadau canol blwyddyn ar gyfer aelwydydd; Llywodraeth Cymru



Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.5.14 Mae'r amcanestyniadau yn dangos bod rhai grwpiau sy'n fwy diamddiffyn i arwahanrwydd cymdeithasol yn debygol o gynyddu dros y ddau ddegawd nesaf.
- Bydd nifer yr aelwydydd gyda phensiynwyr sengl yn Sir y Fflint yn cynyddu o 3,900 rhwng 2015 a 2039.
 - Rhagwelir y bydd nifer yr unigolion sy'n dioddef iechyd meddwl gwael yn cynyddu o oddeutu 1,000 ar draws yr ardal rhwng 2015 a 2035.
 - Bydd nifer y gofalwyr sy'n darparu 50+ awr o ofal yr wythnos yn cynyddu o 700 rhwng 2011 a 2035.
- 2.5.15 Lleihau unigedd ac arwahanrwydd yw un o'r prif heriau a nodwyd yn y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu a wnaed ar gyfer Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru. Mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru. Mae rhwydweithiau cymdeithasol cryf o deulu a ffrindiau ac ymdeimlad eu bod yn perthyn i'r gymuned leol yn bwysig er mwyn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.
- 2.5.16 Gall gwella mynediad at wasanaethau ar gyfer y boblogaeth leol gynorthwyo awdurdodau lleol i weithio tuag at gyflawni nod strategaeth iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru, 'Ein Dyfodol Iach' o leihau gwahaniaethau mewn disgwyliad oes a disgwyliad oes iach rhwng cymunedau, drwy wella'r rhain ar gyfer pobl yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.
- 2.5.17 Er bod dadansoddiad cost a budd cadarn o ymyraethau unigedd yn parhau i fod yn brin, mae data presennol yn nodi buddion da ar fuddsoddiad. O ystyried cost uchel y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a'r gwasanaethau eraill y mae unigolion unig eu hangen pe na eir i'r afael â'u hanghenion, mae tystiolaeth gref dros symud buddsoddiad i'r maes hwn, yn enwedig o ystyried cost cymharol isel nifer o ymyraethau effeithiol. Mewn un astudiaeth a nodwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol, amcangyfrifwyd arbediad costau o £300 fesul unigolyn bob blwyddyn o ganlyniad i gyfeillio sy'n costio £80 y pen³¹, ac arbedion o £900 y pen o ymyrraeth £480 drwy weithwyr cymunedol sy'n gweithio gyda phobl hŷn yn unigol i'w cysylltu â'u gwasanaethau lleol³².

2.6 Gwirfoddoli

Llewyrchus

Cydnherth

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.6.1 Gellir disgrifio gwirfoddoli fel rhoi eich amser a'ch egni'n rhydd ac yn ôl eich dewis heb bryderu am enillion ariannol. Gall ddisgrifio cannoedd o wahanol weithgareddau y mae pobl yn dewis eu gwneud er lles neu i gefnogi eraill yn y gymuned. Defnyddir y gair gwirfoddoli ar gyfer ystod o weithgareddau megis gwasanaeth cymunedol, hunangymorth, elusen, bod yn gymydog, dinasyddiaeth, gwasanaeth cyhoeddus, gweithredu yn y gymuned, ymgysylltu â'r gymuned, ymddiriedolwr, aelod, cymhorthydd.
- 2.6.2 Mae cyfleoedd gwirfoddoli mewn llawer o wahanol feysydd megis iechyd; gofal cymdeithasol; celfyddydau a diwylliant; ymddiriedolaeth; ymarferol a DIY; rheoli ac yn yr amgylchedd naturiol. Mae gwirfoddolwyr yn achub bywydau (Y Samariaid, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub); cynorthwyo i

gynnal digwyddiadau chwaraeon a chymdeithasol (stiwardiaid, codi arian, Ambiwylans Sant Ioan); gofalu am ein bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol, codi arian, cefnogi pobl ddiamddiffyn.

2.6.3 Mae gwirfoddoli yn cynyddu cyfalaf cymdeithasol cymuned a lles unigol ar gyfer y gwirfoddolwyr eu hunain a'r unigolion y maent yn eu cefnogi. Gall gynorthwyo i gynyddu capasiti cymunedol a chreu gwydnwch cymdeithasol.

2.6.4 Mae gan y sector gwirfoddol rôl bwysig i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws y DU. Yn 2012/13 derbyniodd y sector £13.3biliwn gan gyrrff y llywodraeth, ac roedd 83% ohono wedi'i dderbyn drwy gcontractau neu ffioedd. Daw mwyafrif yr incwm, £6.8biliwn, o berthnasau gyda llywodraeth leol³³. Gall elusennau lenwi bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth nad yw'r sector cyhoeddus neu'r sector preifat yn gallu eu llenwi neu nad ydynt yn fodlon eu llenwi. Gan eu bod yn agos at eu defnyddwyr, mae gan elusennau safbwynt unigryw o'u hanghenion a sut y dylid gwella gwasanaethau. Mae lefelau uchel o ymddiriedaeth gan y cyhoedd mewn elusennau - dyma'r trydydd grŵp y ceir yr ymddiriedaeth fwyaf ynddynt ar ôl y meddygon a'r heddlu. Mae nifer o elusennau hefyd yn ymgyrchu neu'n eirioli ar gyfer yr un materion ag y maent yn darparu gwasanaethau ar eu cyfer.

2.6.5 Manteision ar gyfer y gwirfoddolwr:

- Mae pobl sy'n ymgysylltu â gweithgareddau allgarol (e.e. gwirfoddoli) yn nodi mwy o ymdeimlad o bwrpas ac ystyr yn eu bywydau. Mae nifer o'r deg cynhwysyn allweddol ar gyfer bywyd hapus a chyflawn sy'n cael eu nodi gan y symudiad 'Action for Happiness'³⁴ yn cael eu nodi mewn gweithgareddau gwirfoddol: rhoi, cysylltu, ymarfer, ymwybyddiaeth, rhoi cynnig arni, cyfeiriad, gwydnwch, emosiynau, derbyn ac ystyr.
- Mae nifer o fuddion iechyd yn gysylltiedig â gwirfoddoli wedi'u nodi. Mae'r rhain yn cynnwys ansawdd bywyd gwell, gwella hunanbarch, gwella cyfleoedd cymdeithasu a gwella'r gallu i ymdopi gyda iechyd gwael³⁵.
- Gall gwirfoddoli gynorthwyo pobl i oresgyn salwch meddwl a dibyniaeth.
- Mae gwirfoddoli yn gyfle i ddysgu sgiliau ymarferol a chymdeithasol newydd, a gall wella cyfleoedd cyflogaeth.

2.6.6 Buddion ar gyfer y buddiolwyr a'r gymdeithas:

- Mae gwirfoddoli yn galluogi pobl i chwarae rôl weithgar yn eu cymdeithas a chyfrannu at newid cymdeithasol cadarnhaol.
- Mae gwirfoddoli yn cynorthwyo i ddyrchwyl rhwystrau cymdeithasol a chynnig cyfle i bobl gymdeithasu gyda phobl o wahanol gefndiroedd cymdeithasol a diwylliannol.
- Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi pobl ddiamddiffyn yn y gymdeithas ac yn eu galluogi i fyw bywyd iach a gwerthfawr. Gallai hyn olygu cefnogaeth gyda phethau yr ydym yn eu cymryd yn ganiataol, megis cymorth ymarferol yn y cartref ar gyfer pobl anabl neu bobl hŷn, mentora ar gyfer rhywun sy'n gadael gofal a'u cynorthwyo i sefyll ar eu traed eu hunain fel oedolyn, neu gefnogi mam ifanc sy'n cael trafferthion darparu ar gyfer ei phlant.
- Gall sefydliadau gwirfoddol gynorthwyo i ddarparu cefnogaeth barhaus i bobl mewn angen pan fyddant yn gadael gwasanaethau cefnogi swyddogol ond nad ydynt yn barod i ymdopi ar eu pennau eu hunain, gan gynorthwyo i bontio'r bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth ac o bosibl

yn atal ail achos ac ail-atgyfeirio sy'n gallu digwydd gyda rhai pobl ddiameddiffyn.

- Mae ymchwil meddygol yn dangos y gall cefnogaeth gan wirfoddolwyr: leihau gorbryder ar gyfer cleifion sy'n wynebu gweithred feddygol; cynyddu amser goroesi cleifion hosbis; cynyddu cyfraddau bwydo o'r fron ac imiwneiddio plant; gwella presenoldeb clinigol a chymryd meddyginiaethau; cynyddu hunan-barch y cleifion gyda chyflyrau hir dymor.
- Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i leihau'r pwysau ar ofalwyr a'u cynorthwyo i barhau â'u dyletswyddau gofal yn effeithiol.
- Gall gwirfoddolwyr weithredu fel cyfryngwyr rhwng y darparwyr gwasanaeth ffurfiol a'r defnyddwyr gwasanaeth – gellir eu hystyried yn gyfoedion yn hytrach nag unigolion o awdurdod, ac mae'n debygol y bydd ganddynt fwy o amser i wrando a sgwrsio gyda'r unigolion y maent yn eu cefnogi.
- Nododd Adroddiad Hapusrwydd y Byd 2016 fod cefnogaeth gymdeithasol a haelioni yn benderfynyddion allweddol o les cenedlaethol (a chymunedol).

2.6.7 Y sefydliadau ymbarél ar gyfer y sector gwirfoddol yn Sir y Fflint yw Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint (FLVC). Maent yn cynorthwyo i hyrwyddo, cefnogi, galluogi a datblygu sector gwirfoddol cynaliadwy yn yr ardal, drwy ddarparu cyngor ar godi arian, arfer gorau mewn gwirfoddoli, llywodraethu da, hyfforddiant a thrwy gynrychioli safbwyntiau'r sefydliadau trydydd sector i gyrff statudol. Er nad oes ystadegau manwl ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â lefelau gwirfoddoli lleol, yn 2014/15 FLVC wedi:

- lleoli 777 o wirfoddolwyr a darparu cyrsiau hyfforddiant ar gyfer bron i 350 o gyfranogwyr
- rerbyn ac ymateb i dros 10,000 o ymholiadau cyffredinol; derbyn ac ymateb i 365 o ymholiadau i gael cyngor am gyllid
- cynorthwyo grwpiau gwirfoddol lleol i dderbyn bron i £1m o gyllid; darparu bron i £7,500 o gyllid drwy grantiau a chynlluniau benthyca.

2.6.8 Mae mwy na 22 miliwn o bobl yn gwirfoddoli yn y DU o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae hyn oddeutu dau o bob pum person 16 oed a hŷn. Mae oddeutu 14 miliwn o bobl yn gwirfoddoli o leiaf unwaith y mis am gyfartaledd o 11-12 awr y mis³⁶.

2.6.9 Yn 2012/13, amcangyfrifodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod gwirfoddoli yn cyfrannu oddeutu £24biliwn i economi'r DU bob blwyddyn.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.6.10 Ers 2001, mae cyfraddau'r oedolion sy'n gwirfoddoli'n ffurfiol o leiaf unwaith yn y flwyddyn ddiwethaf yn parhau i fod o fewn pum pwynt canran o'i gilydd. Mae hyn yn awgrymu bod cyfraddau gwirfoddoli yn aros yn eithaf sefydlog.

2.6.11 Er bod lefelau diddordeb mewn gwirfoddoli mor uchel ag erioed ar hyn o bryd, mae cyllid ar gyfer gwirfoddoli yn wynebu cyfnodau anodd yn yr un modd â'r sector cyhoeddus. Mae gostyngiadau mewn gwasanaethau sector cyhoeddus hefyd wedi cynyddu'r ddibyniaeth ar y sector gwirfoddol i gynorthwyo i gefnogi pobl, cymunedau a seilwaith. Mewn nifer o achosion, nid yw'r galw ar gefnogaeth wirfoddol erioed wedi bod yn uwch. Mae technoleg newydd yn agor

llwybrau mynediad newydd a chyfleoedd ar gyfer pobl er mwyn iddynt gymryd rhan, ond nid yw gwerth gwirfoddoli wyneb yn wyneb erioed wedi bod mor amlwg.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

2.6.12 Mae'r heriau canlynol i ddyfodol gwirfoddoli wedi'u nodi gan Gyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol³⁷.

- Sut y gallwn ategu ac atgyfnerthu'r seilwaith gwirfoddoli sy'n tanategu cymaint o'r gweithredoedd cymdeithasol sy'n cael eu cyflawni yn ein cymunedau?
- Sut y gallwn ddatblygu partneriaethau ystyrlon rhwng y mudiad gwirfoddoli a'r sectorau statudol a busnes, yn seiliedig ar yr egwyddor o gydgyhyrchu?
- Pa rôl sydd i wirfoddoli er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus? Beth yw'r cyfleoedd a'r peryglon? Sut y gallwn ddiwygio'r amgylchedd comisiynu er mwyn iddo roi ystyriaeth briodol i'r cyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud?
- Pa gyfraniad y gall gwirfoddoli ei wneud i gynorthwyo cyflogadwyedd? Sut y gallwn ddiogelu uniondeb gwirfoddoli fel gweithred a roddir am ddim?
- Sut y gallwn gynyddu gwerth, effaith a chydabyddiaeth rheoli gwirfoddolwyr?
- Sut y gallwn ail-lunio'r sector gwirfoddol i ystyried dyheadau a dymuniadau pobl ifanc?
- Sut y gallwn harneisio buddion technoleg ddigidol a chael gwell cyfuniad o weithredoedd cymdeithasol ar-lein ac wyneb yn wyneb?

2.6.13 Mae Llywodraeth San Steffan eisiau symud oddi wrth y rhagdybiaeth mai'r wladwriaeth yw darparwr diofyn y gwasanaethau. Felly mae'n debygol y bydd y sector gwirfoddol yn parhau i ehangu. Mae'r llywodraeth eisiau gweld:

- lefelau gwell o ddarpariaeth gwasanaeth gan y sector preifat a'r sector gwirfoddol.
- modelau darparu cymysg newydd – gan gynnwys deilliannau o'r sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol.

2.6.14 Fodd bynnag, nid yw'r sector gwirfoddol wedi'i ddiogelu rhag mesurau caledi llywodraeth y DU dros y chwe blynedd diwethaf – mae oddeutu traean o holl incwm y sector gwirfoddol a chymunedol yn dod gan y wladwriaeth. Mae Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol wedi nodi bod maint, cyflymder a gweithrediad y toriadau yn llym ar y sefydliadau gwirfoddol³⁸. Mae tystiolaeth nad yw'r toriadau yn cael eu cymhwysu'n gyson, yn gymesur nac yn strategol. Maent hefyd yn teimlo y gallai'r toriadau achosi mwy o gostau i'r economi yn hirdymor gan fod gan y sector rôl allweddol mewn perthynas â gwasanaethau ataliol.

2.7 Trechu tlodi ac amddifadedd

Prosperous

Healthier

More equal

Cohesive

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.7.1 Gellir diffinio byw gyda thlodi ac amddifadedd fel bod mewn sefyllfa lle bo adnoddau unigolyn neu aelwyd ymhell islaw isafswm eu hanghenion. Mae'r anghenion hyn yn cynnwys bwyd, dillad a lloches, ond hefyd yn cynnwys yr hyn sydd ei angen er mwyn cael y cyfleoedd a'r dewisiadau sy'n ofynnol er mwyn cyfrannu mewn cymdeithas. Ynghyd ag ystyried lefelau incwm a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, sy'n allweddol i fesur tlodi, gall ystyriaethau eraill gynnwys lefelau addysg, iechyd, diogelwch cymunedol a mynediad at wasanaethau.
- 2.7.2 Mae anfanteision cymdeithasol ac economaidd yn gynnar mewn bywyd yn cynyddu'r risg o gael enillion is, safonau iechyd is a sgiliau is pan yn oedolyn. Gall hyn yn ei dro achosi anfantais ar draws cenedlaethau. Mae profiadau yn ystod plentyndod yn cael effaith sylweddol ar fywyd presennol y plant, ond mae hefyd yn effeithio ar eu cyfleoedd a'u amcanestyniadau ar gyfer y dyfodol.
- 2.7.3 Ar y cyfan mae lefelau incwm y cartref yn Sir y Fflint yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ystod o fesurau. Yn 2015, amcangyfrifwyd bod canolrif incwm aelwyd yr ardal yn ddim ond 95% o gyfartaledd Prydain.

Tabl 2.7.1: Incwm Blynyddol Aelwydydd (2015)

Ffynhonnell: Data CACI PayCheck

	Sir y Fflint	Cymru	Prydain Fawr.
Incwm canolrifol	£27,300	£24,250	£28,700
Incwm chwarterel isaf	£15,000	£13,600	£15,450
% o'r aelwydydd o dan 60% o ganolrif y DU	30.1%	34.5%	28.8%

Mae mesuryddion incwm aelwydydd yn cynnwys cyflog, cefnogaeth lles, buddsoddiadau, pensïynau ac incwm arall ar gyfer pob aelod o'r cartref.

- 2.7.4 Mae aelwyd yn cael ei ystyried fel un mewn tlodi os yw cyfanswm incwm blynyddol y cartref (gan gynnwys unrhyw fudd-daliadau) yn is na 60% o'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr, sy'n cyflwyno ffin tlodi o oddeutu £17,200. Mae cyfran sylweddol uwch o aelwydydd yn Sir y Fflint yn cael eu hamcangyfrif fel rhai ag incwm sy'n is na chyfartaledd Prydain Fawr – oddeutu 30.1% o'r holl aelwydydd neu oddeutu 19,550 o aelwydydd i gyd.
- 2.7.5 Mae mesuryddion uniongyrchol o dlodi plant yn anodd eu casglu, felly mae'n rhaid i ni ystyried data procsi i'n cynorthwyo i ddeall y mater hwn ar lefel leol.
- 2.7.6 Un mesurydd procsi yw plant sy'n byw mewn aelwydydd sydd mewn tlodi. Mae data Cyllid a Thollau ei Mawrhydi yn dangos bod 5,770 o blant yn Sir y Fflint yn byw mewn tlodi. Mae hyn yn 17.7% o'r holl blant o deuluoedd sy'n gymbwys am fudd-dal plant.

Tabl 2.7.2: plant sy'n byw mewn tlodi (mesuryddion procsi), Awst 2014

Ffynhonnell: mesurydd lleol plant o deuluoedd incwm isel; ystadegau credyd treth gwaith a phlant, HMRC

	Flintshire	Cymru	Prydain Fawr
Plant sy'n byw mewn aelwydydd sy'n ennill llai na 60% o'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr			
Plant o deuluoedd incwm isel	5,770	17.7%	19.9%
Plant o deuluoedd sy'n derbyn credyd treth			
Plant o deuluoedd sydd mewn gwaith	11,975	38.0%	38.8%
Plant o deuluoedd di-waith	5,575	17.7%	19.8%
Cyfanswm	17,550	55.7%	58.6%

- 2.7.7 Mae wardiau Sir y Fflint – Shotton Uchaf a Golftyn Cei Connah yn cynnwys dros 300 o blant sy'n byw mewn tlodi yn ôl y mesurydd hwn. Yn ogystal â hyn mae gan wardiau Bwcle Gorllewin Bistre, Canol Cei Connah, Oakenholt y Fflint, Sealand a Saltney Stonebridge dros 200 o blant yn byw mewn tlodi.
- 2.7.8 Dangosydd defnyddiol arall sy'n cael ei gyhoeddi gan yr HMRC yw nifer y teuluoedd gyda phlant sy'n hawlio credydau treth. Mae oddeutu 17,550 o blant yn Sir y Fflint yn byw gyda theuluoedd sy'n derbyn credyd treth i gynorthwyo i ategu at eu cyflog neu fudd-dal incwm. Mae hyn yn cyfrif ar gyfer oddeutu 56% o'r holl blant, sy'n is na chyfartaledd Prydain. Mae mwyafrif y teuluoedd hyn mewn gwaith ond ar incwm isel³⁹.
- 2.7.9 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn mesur amddifadedd perthnasol ar draws ystod o feysydd (incwm; cyflogaeth; iechyd; addysg; mynediad at wasanaethau; diogelwch cymunedol; amgylchedd ffisegol; tai) ar lefel ardal allbwn is ar gyfer Cymru gyfan. Mae ardal yn ardal o amddifadedd lluosog, ar gyfer mwy nag un o'r meysydd hyn, os oes gan yr ardal grynodiad o bobl yn profi'r math hwnnw o amddifadedd. Yn gyffredinol, po fwyaf y nifer o feysydd y mae crynodiadau uchel o amddifadedd ar eu cyfer, y mwyaf yw amddifadedd cyffredinol yn yr ardal. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod yr un bobl yn dioddef mathau lluosog o amddifadedd yn yr ardal, er y byddem yn disgwyl y byddai gorgyffwrdd sylweddol. Yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) o fewn y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y mynegai cyffredinol yw'r rhai sy'n tueddu i fod y mwyaf cymwys i dderbyn cyllid o dan raglenni cyllid sydd wedi'u targedu i fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd.

Tabl 2.7.3: ACEHI ymysg y 10% mwyaf difreintiedig ar gyfer y mynegai cyffredinol

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Sir y Fflint	
W01000336	Shotton Uchaf 2
W01000304	Canol Treffynnon

- 2.7.10 Byddai lefel 'cyfartalog' o amddifadedd yn golygu bod 10% o'r holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ymysg y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae gan Sir y Fflint gyfran uwch o'i Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is na'r

disgwyl yn y 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ar gyfer yr amgylchedd ffisegol.

Tabl 2.7.4: nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, yn ôl maes amddifadedd


Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

	Sir y Fflint	
	Nifer	Fel % o'r holl ACEHI
Mynegai cyffredinol	2	2.2%
Incwm	4	4.3%
Cyflogaeth	2	2.2%
Iechyd	2	2.2%
Addysg	4	4.3%
Mynediad at wasanaethau	3	3.3%
Diogelwch cymunedol	8	8.7%
Yr amgylchedd ffisegol	32	34.8%
Tai	6	6.5%

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.7.1: plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel

Ffynhonnell: mesurydd lleol plant mewn teuluoedd incwm isel, HMRC



2.7.11 Rhwng 2009 a 2014 mae nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel wedi cynyddu o 80.

- 2.7.12 Gostyngodd incwm cyfartalog (canolrifol) blynyddol ar gyfer aelwydydd o oddeutu £1,400 rhwng 2011 a 2015 i £27,300. Gostyngodd incwm aelwydydd yng Nghymru a Phrydain rhwng 2011 a 2015 (-£900 ar gyfer Cymru a -£300 ar gyfer Prydain).
- 2.7.13 Yn ystod yr un cyfnod yr aelwydydd gyda'r incwm isaf yn yr ardal oedd yn y sefyllfa waethaf – gostyngodd incwm aelwyd y chwarterl isaf o £1,300 i ddim ond £15,000. Mae cyfran yr aelwydydd gydag incwm sy'n is na 60% o ganolrif Prydain wedi cynyddu o oddeutu tri phwynt canran.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.7.14 Mae cysylltiadau cydnabyddedig rhwng tlodi a iechyd gwael yn awgrymu bod cynnydd a ragwelir yn nifer yr achosion o gyflyrau iechyd cronig yn gallu arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n byw mewn tlodi.
- 2.7.15 Mae newidiadau i drefniadau lles y wladwriaeth yn cael effaith anghymesur ar y rhai sy'n dioddef y tlodi mwyaf, yn enwedig teuluoedd gyda phlant. Bydd gostyngiadau diweddar yn y terfyn budd-daliadau, gostyngiadau mewn hawliau credydau treth a chyflwyno Credyd Cynhwysol yn cael effaith ar lefelau tlodi.
- 2.7.16 Mae tystiolaeth anecdotaidd gan Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn adrodd eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dibynnu ar Lwfans Byw i blant Anabl fel rhan hanfodol o incwm yr aelwyd dros y tair blynedd diwethaf, yn hytrach na darparu'r gefnogaeth ychwanegol y mae'r plentyn anabl ei hangen. Mae perygl y bydd plant anabl sy'n byw mewn tlodi yn wynebu anfantais pellach pan y defnyddir eu Lwfans Byw i'r Anabl ar gyfer bwyd, gwres neu rhent.
- 2.7.17 Mae effaith newidiadau ar lefelau incwm a tlodi yn yr economi ehangach anodd iawn eu rhagweld, ac yn cael eu dylanwadu'n drwm gan gyflyrau marchnad cenedlaethol a rhyngwladol sydd y tu hwnt i gwmpas dylanwad llywodraeth leol, a llywodraeth genedlaethol.
- 2.7.18 Yn y strategaeth tlodi plant 2011, mae Llywodraeth Cymru'n dymuno gwaredu tlodi plant yng Nghymru erbyn 2020⁴⁰.

2.8 Disgwyliad oes iach i bawb

Iachach

Mwy cyfartal

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.8.1 Mae pobl yn byw yn hirach oherwydd gwelliannau mewn gofal iechyd ac ystod o welliannau ffyrdd o fyw eraill megis gwell maeth, llai o bobl yn gweithio mewn diwydiannau trwm neu fudr, cyfraddau ysmegu yn gostwng, aer a dŵr glanach a gwell cyflyrau tai. Fodd bynnag, mae nifer o gyflyrau iechyd cronig yn gysylltiedig ag oedran hŷn, felly mae sicrhau oedran hŷn iachach yn bryder pwysig.
- 2.8.2 Mae bod mewn iechyd da, yn amlwg, yn gysylltiedig â pha mor dda y mae pobl yn cadw eu hannibyniaeth drwy gydol eu bywyd, ac yn enwedig yn ystod oedran hŷn. Bydd yn effeithio ar faint o gefnogaeth a gofal ffurfiol ac anffurfiol y maent eu hangen, a bydd yn effeithio ar eu gallu i gyfranogi yn eu cymuned a chyfrannu at yr economi leol.

- 2.8.3 Ynghyd â chael ei bennu gan oedran, mae salwch hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y profiad o amddifadedd. Mae Arolwg Iechyd Cymru yn dangos bod y gwahaniaeth mewn achosion o iechyd da rhwng pobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yng Nghymru, eisoes yn amlwg rhwng 0-15 oed. Mae'r bwch yn cynyddu gydag oedran, gan gyrraedd uchafbwynt mewn dynion 65-74 oed (79% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn erbyn 52% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig) a merched 55-64 oed (84% o gymharu â 56%).
- 2.8.4 Mae cyflawni gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd a chynnal iechyd a lles drwy gydol eu bywyd yn ddwy o'r chwe thema strategol o fewn fframwaith iechyd cyhoeddus Llywodraeth Cymru 'Ein Dyfodol Iach' ac yn parhau'n ganolog i'r nodau 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru iachach' a nodwyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- 2.8.5 Mae disgwyliad oes yn Sir y Fflint ychydig yn is na ffigurau Cymru a Lloegr ar gyfer dynion a merched, adeg geni ac yn 65 oed. Mae'r gwahaniaeth yn nodedig iawn ar gyfer merched. Mae bwch disgwyliad oes o 3.5 mlynedd adeg geni rhwng dynion a merched, ond mae'r bwch yn lleihau i 2 flynedd yn 65 oed.

Tabl 2.8.1: cyfanswm disgwyliad oes 2012-14

Ffynhonnell: tablau disgwyliad oes yn ôl cyfnodau, ONS

	Sir y Fflint	Cymru	Cymru a Lloegr
Gwryw – adeg geni	79.0	78.5	79.4
Gwryw – 65 oed	18.6	18.2	18.7
Benyw – adeg geni	82.5	82.3	83.1
Benyw – 65 oed	20.6	20.6	21.1

Nodyn: disgwyliad oes adeg geni yw'r disgwyliad oes ar gyfer babanod a gawsant eu geni yn y cyfnod hwnnw, a disgwyliad oes yn 65 oed yw'r blynyddoedd ychwanegol o fywyd y byddai rhywun 65 oed yn disgwyl eu cael.

- 2.8.6 Mae dadansoddiad o ddisgwyliad oes iach ar gyfer 2010-14 (gan Iechyd Cyhoeddus Cymru⁴¹) yn dangos ar y cyfan, mae nifer y blynyddoedd y mae dynion yn eu treulio gydag iechyd da yn gymharol â chyfartaledd Cymru ar gyfer Sir y Fflint.
- 2.8.7 Fodd bynnag, mae anghydraddoldeb iechyd yn yr ardal. Mae gan bobl sy'n byw yn yr ardaloedd yn y pumed mwyaf difreintiedig Sir y Fflint hyd oes byrrach, ond hefyd maent yn treulio llai o amser mewn iechyd da o gymharu â'r rhai sy'n byw yn y pumed lleiaf difreintiedig. Mae gwahaniaeth o dros 11 blynedd o ddisgwyliad oes iach ar gyfer merched yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Sir y Fflint o gymharu â'r ardaloedd lleiaf difreintiedig.
- 2.8.8 Yn gyffredinol mae merched yn treulio cyfran llai o'u bywyd mewn iechyd da o ganlyniad i fyw'n hirach, er eu bod mewn gwirionedd yn cael mwy o flynyddoedd mewn iechyd da na dynion.

Tabl 2.8.2: disgwyliad oes iach mewn blynyddoedd, ar gyfer yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig 2010-14

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM a MYE (ONS), WHC a WIMD 2014 (LIC)


	Sir y Fflint	Cymru
Gwryw	67.7	67.7
mwyaf difreintiedig	61.1	56.9
lleiaf difreintiedig	70.4	72.1
Gwahaniaeth rhwng lleiaf-mwyaf	9.3	15.2
Benyw	68.9	66.7
mwyaf difreintiedig	61.5	58.2
lleiaf difreintiedig	72.5	73.0
Gwahaniaeth rhwng lleiaf-mwyaf	11.0	14.9

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.8.9 Dros amser, mae disgwyliad oes yn gwella ar gyfer yr holl grwpiau yn Sir y Fflint. Mae disgwyliad oes dynion wedi cynyddu o 73.1 oed yn 1991-93 i 79.0 oed yn 2012-14 gyda disgwyliad oes merched yn codi o 78.8 i 82.3 yn yr un cyfnod.

Siart 2.8.1: disgwyliad oes adeg geni

Ffynhonnell: tablau disgwyliad oes yn ôl cyfnodau, ONS



- 2.8.10 Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol mewn disgwyliad oes, nid yw'r bwch rhwng cyfran y bywyd y disgwylir y bydd mewn iechyd da yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi dangos unrhyw arwydd clir o ostwng yn y 10 mlynedd diwethaf.


Siart 2.8.2: canran y disgwyliad oes mewn iechyd da yn ôl pumedau amddifadedd, 2005-09 a 2010-14

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM a MYE (ONS), WHC a WIMD 2014 (LIC)

Sir y Fflint

Gwryw

Benyw



- 2.8.11 Mae cyflyrau iechyd cronig yn cael effaith sylweddol ar ddisgwyliad oes iach. Mae nifer yr unigolion gyda chyflyrau cronig sydd wedi cofrestru gyda meddygon teulu yn Sir y Fflint wedi cynyddu yn y pum mlynedd rhwng 2011 a 2016.

- Mae nifer y cleifion sydd wedi cofrestru gyda **phwysedd gwaed uchel** wedi cynyddu o 1,150.
- Mae nifer y cleifion wedi'u cofrestru gydag **asthma** wedi cynyddu o 550.
- Mae nifer y cleifion gyda **diabetes** hefyd wedi cynyddu o oddeutu 1,400.
- Mae nifer y cleifion gyda **chlefyd coronaidd y galon** wedi gostwng o -150, ond mae'r rhai gyda **methiant y galon** wedi cynyddu o 350.
- Mae nifer y cleifion gyda **chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint** (clefydau'r ysgyfaint gan gynnwys bronchitis cronig ac emffysema) wedi cynyddu o oddeutu 400.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.8.12 Rhagwelir y bydd disgwyliad oes yn parhau i wella, a disgwylir i boblogaeth y rhai 65 oed yn Sir y Fflint dyfu o 31,000 yn 2015 i 46,100 erbyn⁴². Oherwydd bod mwyafrif y cyflyrau iechyd cronig yn gysylltiedig ag oedran hŷn, gallwn ddisgwyl i nifer yr achosion o salwch cronig gynyddu yn yr un cyfnod. Mae disgwyliad oes gwell hefyd yn golygu bod pobl gydag anghenion cymhleth yn byw'n hirach nag

erioed o'r blaen, a gallai hyn arwain at gynnydd mewn pwysau ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac ar ofalwyr di-dâl.

- 2.8.13 Mae tuedd ar i fyny hirdymor yng nghyfran yr unigolion sy'n orbwysau neu'n ordew hefyd yn debygol o achosi cynnydd mewn problemau iechyd cronig, a bydd hyn yn effeithio ar ddisgwyliadau oes iach yn y dyfodol (gweler yr [adran 2.10 'Mynd i'r afael â gordewdra'](#) i gael rhagor o wybodaeth).
- 2.8.14 Oherwydd nad yw cyfradd gwelliant ar gyfer disgwyliad oes iach wedi cynyddu mor gyflym â disgwyliad oes cyffredinol, mae perygl y bydd newidiadau mewn oedran pensiwn y wladwriaeth yn arwain at sefyllfa lle y bydd mwy o unigolion yn derbyn budd-dal analluogrwydd yn hytrach nag ymddeol gan nad ydynt yn ddigon iach i aros yn y gweithlu.

2.9 Mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ar gyfer eu ffordd o fyw

lachach

Mwy cyfartal

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.9.1 Mae annhegwch iechyd yn anghydraddoldebau iechyd rhwng gwahanol grwpiau o bobl y gellir eu hosgoi. Mae strategaeth iechyd y cyhoedd Llywodraeth Cymru, 'Ein Dyfodol Iach' yn nodi "pan y gellir osgoi gwahaniaethau o'r fath, mae'n annheg ac yn anfoesol ein bod yn eu goddef". Mae hyrwyddo ffyrdd o fyw iach yn gymorth i leihau anghydraddoldebau iechyd, ac yn mynd i'r afael â phedwar o'r deg o flaenoriaethau a nodwyd yn 'Ein Dyfodol Iach' (lleihau ysmegu, cynyddu gweithgarwch corfforol, lleihau peidio bwyta'n iach, atal niwed cynyddol alcohol a chyffuriau).
- 2.9.2 O gymharu ag awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, mae dinasyddion Sir y Fflint yn fwy tebygol yn ystadegol o wneud dewisiadau ffyrdd o fyw iach na chyfartaledd Cymru, heblaw am y dangosyddion sy'n ymwneud ag alcohol, ond mae angen gwelliant sylweddol.
- Mae oddeutu 58% o oedolion yn Sir y Fflint yn orbwysau neu'n ordew – lefel Cymru yw 58% (gweler [adran 2.10 'Mynd i'r afael â gordewdra'](#) i gael rhagor o wybodaeth).
 - Mae 19% o oedolion yn Sir y Fflint yn ysmygwyr o gymharu â 21% yng Nghymru.
 - Mae 33% o boblogaeth oedolion yn Sir y Fflint yn diwallu'r canllawiau gweithgarwch corfforol a argymhellir o bum sesiwn 30 munud o ymarfer corff bob wythnos, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 30%.
 - Mae 35% o oedolion Sir y Fflint yn nodi eu bod yn bwyta'r 5 darn o ffrwythau neu lysiau a argymhellir bob dydd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 32%.
 - Mae 44% o oedolion yn Sir y Fflint wedi nodi eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir o leiaf unwaith yr wythnos. Mae 28% wedi nodi eu bod wedi goryfed mewn pyliau o leiaf unwaith yn yr wythnos ddiwethaf (ffigurau Cymru =41% a 25%)⁴³.
- 2.9.3 Cyfanswm yr atgyfeiriadau i'r gwasanaethau iechyd ar gyfer camddefnyddio sylweddau (o bob math) yn yr ardal oedd bron i 1,550 yn 2014/15. O bob

100,000 o'r boblogaeth roedd hyn yn rhoi cyfradd atgyfeirio o 997 ar gyfer Sir y Fflint, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 822. Mae Sir y Fflint wedi'i raddio'n 5ed uchaf yng Nghymru. Rydym yn cydnabod nad yw hyn yn adlewyrchu yr unigolion nad ydynt yn cysylltu â'r gwasanaethau iechyd.

- 2.9.4 Weithiau mae camddefnyddio cyffuriau'n amlwg iawn mewn lleoedd cyhoeddus ac yn peri pryder i'r cyhoedd, ac yn cael effaith ar nifer y troseddau meddiangar sy'n cael eu hadrodd. Fodd bynnag, mae nifer y troseddau cyffuriau a gyflawnwyd a'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r rhain yn eithaf isel (26% o'r cyhoedd yn ardal Heddlu Gogledd Cymru wedi adrodd lefel uchel o ddefnydd cyffuriau er gwaethaf cyfradd flynyddol o ddim ond 2.06 trosedd am bob mil o'r boblogaeth⁴⁴). Yr hyn sy'n peri mwy o bryder ar gyfer iechyd a lles y gymuned ehangach yw sylweddau seicoweithredol a chyffuriau newydd, nad ydynt o reidrwydd yn anghyfreithlon). Mae bod yn gaeth i gyffuriau presgripsiwn hefyd yn broblem.
- 2.9.5 Mae'r pryderon mwyaf o ran camddefnyddio sylweddau yn gysylltiedig ag alcohol. Mae gan Sir y Fflint gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran o 318 o dderbyniadau i ysbytai fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2014/15⁴⁵. Mae hyn yn eu gosod yn y pymthegfed uchaf yng Nghymru, ac yn is na chyfartaledd Cymru o 333 o dderbyniadau. Dywedodd 44% o drigolion Sir y Fflint eu bod wedi yfed mwy na'r hyn sy'n cael ei argymhell o leiaf unwaith yr wythnos, a dywedodd 28% eu bod wedi goryfed mewn pyliau o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos ddiwethaf⁴⁶.
- 2.9.6 Yn rhyngwladol, amcangyfrifir bod alcohol yn achosi oddeutu 3.3 miliwn o farwolaethau bob blwyddyn, sy'n codi o dros 200 o afiechydon ac anafiadau sy'n cael eu hachosi'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan alcohol^{47 48}. Mae rhai astudiaethau hefyd yn awgrymu bod tebygolrwydd gordewdra yn uwch mewn rhai sy'n goryfed mewn pyliau a rhai sy'n yfed yn drwm, ond y gall hyn hefyd fod o ganlyniad i ymddygiad andwyol gan gynnwys diet gwael, ddim yn rheoli pwysau'n iach, anfodlonrwydd gyda'r corff a ffyrdd o fyw llonydd yn ogystal â'r calorïau o'r alcohol.
- 2.9.7 Tan yn ddiweddar, mae ymchwil ar faich alcohol wedi canolbwyntio'n bennaf ar y niwed y mae'r yfwr yn ei brofi eu hunain. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r niwed y gall yfed alcohol ei gael ar y rhai o amgylch yr unigolyn gan gynnwys aelodau'r teulu, cyfeillion, cydweithwyr a dieithriad⁴⁹.
- Mae'r niwed hwn yn cynnwys trais sy'n gysylltiedig ag alcohol ac ymddygiad ymosodol (gan gynnwys trais domestig a bywyd nos); esgeulustod, cam-drin neu gam-fanteisio (gan gynnwys plant); ymddygiad troseddol (difrod i eiddo a dwyn i gefnogi arferion yfed); anaf anfwriadol (e.e. damweiniau ffyrdd); ac anhwylder syndrom alcohol y ffetws.
 - Gall pobl brofi niwed i'r iechyd meddwl a lles hefyd, drwy orbryder ynglŷn ag ymddygiad rhai sy'n yfed, gan gynnwys bod ofn ymosodiad ac amharu ar eu cwsg. Pwysau gofal a phryderon ynglŷn â chyllid y teulu/aelwyd yn deillio o fod yn gaeth i alcohol.
 - Mae chwech o bob deg oedolyn (59.7%) yng Nghymru wedi profi niwed oherwydd arferion yfed rhywun arall yn y 12 mis diwethaf. Yn genedlaethol, amcangyfrifir bod hyn yn gyfwerth â 1,460,151 o bobl 18 oed a hŷn.
 - Amcangyfrifodd Arolwg Trosedd Cymru a Lloegr bod ychydig dros hanner (53%) o'r holl achosion o drais yn 2013/14 wedi'i gyflawni gan rywun oedd o dan ddylanwad alcohol.

- 2.9.8 Gall rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, achosi niwed sylweddol. Mae plant mewn perygl o gael eu hesgeuluso'n emosiynol ac yn gorfforol wrth iddynt dyfu i fyny, gan gynnwys yr hanfodion sylfaenol megis darparu diet cytbwys. Mae llawer o blant yn y pen draw yn darparu gofal ymarferol ac emosiynol ar gyfer eu rhieni (a brodyr a chwiorydd o bosib), yn aml o oedran ifanc iawn. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn eu rhieni rhag niwed, a gofalu am y cartref. Maent hefyd yn wynebu perygl o ddatblygu problemau emosiynol a chymdeithasol yn y dyfodol, gan gynnwys tebygolrwydd uwch na'r cyfartaledd o ddatblygu materion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau eu hunain.
- 2.9.9 Mae'r ffigurau a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Plant Lloegr yn 2012⁵⁰ yn amcangyfrif y canlynol ar draws y DU:
- Mae rhwng 3.3-3.5 miliwn o blant – oddeutu 30% o'r holl blant o dan 16 oed – yn byw gydag o leiaf un rhiant sy'n goryfed mewn pyllau. (Goryfed mewn pyllau: 6 neu fwy o unedau ar un achlysur ar gyfer merched; 8 ar gyfer dynion)
 - Mae 8% yn byw gydag o leiaf dau unigolyn sy'n goryfed mewn pyllau (ychydig dros 950,000 o blant) Mae 4% yn byw gyda rhiant sengl sy'n goryfed mewn pyllau (ychydig llai na 460,000 o blant);
 - Mae 2% yn byw gydag yfwr peryglus sef dros 2.5 miliwn o blant gan gynnwys oddeutu 93,500 o fabanod o dan 1 oed (Yfed peryglus: patrwm sy'n cynyddu perygl canlyniadau niweidiol i'r defnyddiwr neu eraill)
 - Mae 2.5% yn byw gydag yfwr niweidiol – oddeutu 299,000 o blant gan gynnwys 31,000 o fabanod (yfed niweidiol: yn arwain at ganlyniad iechyd corfforol a meddyliol). Mae 6% yn byw gydag yfwr dibynnol (dros 700,000 o blant)
 - Mae 4% yn byw gydag yfwr â phroblem sydd â phroblemau iechyd meddwl presennol (oddeutu 500,000 o blant)
- 2.9.10 Gall yfed alcohol a defnyddio cyffuriau fod yn ffactorau sy'n cyfrannu at y tebygolrwydd y bydd anaf neu farwolaeth oherwydd tân yn y cartref. Mae llawer o sylweddau yn effeithio ar allu pobl i farnu ac ymateb i berygl – gall coginio ar ôl yfed alcohol fod yn berygl penodol, er enghraifft. Mae alcohol yn effeithio ar ymateb arferol, yn amharu ar y gallu i farnu, yn lleihau canfyddiad a gall arwain at fod yn anymwybodol, mewn symiau eithafol. Gall meddyginiaethau neu gyffuriau anghyfreithiol gael effeithiau tebyg, ac mae cyfuniad o gyffuriau ac alcohol yn gallu gwneud pobl yn hynod o ddi-amddiffyn.
- 2.9.11 Weithiau mae camddefnyddio sylweddau yn ymateb hunanfeddyginiaeth i faterion iechyd meddwl ac yn aml yn gysylltiedig ag iselder ac anhwylderau gorbryder. Gall diffyg cydlyniad rhwng darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a darparwyr lles eraill (e.e. tai cymdeithasol) achosi problemau cyfansawdd ar gyfer y dioddefwyr, eu teulu, ffrindiau a'r gymuned y maent yn byw ynddi, ac ar gyfer y darparwyr gwasanaeth.


Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.9.12 O gymharu â phan ddechreuodd Arolwg Iechyd Cymru ystyried y materion hyn ar lefel awdurdod lleol:
- mae lefelau gordewdra wedi cynyddu ers 2003/4 (gweler [adran 2.10 'Mynd i'r afael â gordewdra'](#) i gael rhagor o wybodaeth).

- mae cyfran yr oedolion sy'n ysmegu wedi gostwng (ers 2003/4)
- mae lefelau gweithgarwch corfforol yn debyg i'r rhai a adroddwyd yn 2003/04
- mae cyfran yr oedolion sy'n adrodd eu bwyta'r 5 darn o ffrwythau neu lysiau bob dydd wedi gostwng ychydig ond nid yw'n sylweddol o gymharu â 2008/09 (y cyfnod cynharaf y mae data ar gael ar ei gyfer)
- mae lefelau yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir o leiaf unwaith yr wythnos wedi gostwng o 3 pwynt canran ers 2008/09, er nid yw lefelau yfed mewn pyllau wedi newid.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.9.13 Mae atal ymddygiad sy'n niweidio iechyd a hyrwyddo ymddygiad iach yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'n rhaid darparu cefnogaeth ar gyfer unigolion gyda ffyrdd o fyw nad ydynt yn iach, yn enwedig gordewdra a chamddefnyddio alcohol.
- 2.9.14 Amcangyfrifir mai cost anweithgarwch corfforol i Gymru yw £650 miliwn y flwyddyn⁵¹. Ynghyd â chynorthwyo i leihau lefelau gordewdra, mae cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol hefyd yn darparu buddion o ran cynyddu cyfnodau oes iach pobl. Mae'n cael ei gydnabod yn eang bod nifer o'r materion iechyd allweddol yng Nghymru (a gwledydd eraill) yn rhai sy'n cael eu hystyried fel rhai y gellir eu hatal (Adroddiad Blynnyddol 2013-14 a 2014-15 y Prif Swyddog Meddygol). Mae'r rhain yn cynnwys cyflyrau cronig y mae gweithgarwch corfforol annigonol yn cyfrannu atynt megis clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes math 2, clefyd cronig yn yr arennau, rhai mathau o gancr, osteoporosis ac arthritid.
- 2.9.15 Gall defnyddio'r amgylchedd naturiol i gynorthwyo i wella ffitrwydd corfforol a lleihau gordewdra gefnogi gwydnwch cymdeithasol drwy ddarparu cyfleoedd i ryngweithio ac ymgysylltu. Mae hyn yn gymorth i ddatblygu cydlyniant cymdeithasol, ynghyd â gwella lles meddyliol a chynyddu gweithgarwch corfforol. Mae'r ddau ohonynt o fudd penodol mewn ardaloedd o amddifadedd, lle bo gwydnwch cymdeithasol ar lefel is yn aml.
- 2.9.16 Yn y model ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau, a gyflwynir isod, mae pob agwedd yn bwysig. Er ein bod wedi llwyddo o ran triniaeth a chefnogaeth, mae angen cydnabyddedig i wella ymyrraeth gynnar, atal ac adfer.



- 2.9.17 Mae adferiad yn ymwneud â helpu pobl i fod yn hunan-ddibynnol ac nad ydynt yn dibynnu ar y gwasanaethau cyhoeddus mwyach. Mae cefnogaeth barhaus wrth wella a thu hwnt - efallai gan y sector gwirfoddol – yn hanfodol i gynorthwyo i osgoi syndrom drws troi o driniaeth-adfer-aidddechrau, ac i gynorthwyo pobl i fod yn aelodau gweithredol yn y gymuned.

2.10 Mynd i'r afael â gordewdra (gan gynnwys gordewdra mewn plant)

Iachach


Mwy cyfartal

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.10.1 Mae ymchwil wedi awgrymu bod cysylltiad rhwng bod dros bwysau neu'n ordew yn ystod plentyndod â risgiau iechyd corfforol ac iechyd meddwl hirdymor. Gall risgiau iechyd meddwl godi o ganlyniad i anfodlonrwydd â'r corff, gwahaniaethu cymdeithasol, hunan-barch isel ac ansawdd bywyd gwael⁵². Mae plant gordew yn nodi bod eu lles personol yn isel, oherwydd problemau megis bwlio yn yr ysgol, blinder ac anawsterau wrth wneud gweithgareddau corfforol⁵³.
- 2.10.2 Cymru sydd â'r lefel uchaf o ordewdra mewn plant yn y DU. Mae 34% o'r plant yn cael eu dosbarthu fel dros eu pwysau neu'n gordew, gan gynnwys 19% yn ordew. Mae'r dystiolaeth yn awr yn amlwg y bydd y broblem yn parhau ac yn cynyddu nes y cymerir camau i fynd i'r afael â'r duedd hon. Roedd Rhaglen Rhagofal Llywodraeth y DU yn awgrymu y gallai 25% o'r holl blant o dan 16 oed fod yn ordew erbyn 2050⁵⁴.

Siart 2.10.1: plant 4-5 oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew, 2014-15

Ffynhonnell: Rhaglen Mesur plentyndod, Iechyd Cyhoeddus Cymru



2.10.3 Nid oes gennym ddata ar lefel leol i weld sut rydym yn cymharu yn erbyn y mesur hwn. Serch hynny, yn 2014/15,

- canfuwyd bod 25.5% o blant 4-5 oed yn Sir y Fflint yn ordew neu dros bwysau – cyfanswm o tua 426 o blant. Mae hyn yn is na'r ganran ar gyfer Cymru gyfan o 26.2%. (Lloegr = 21.9%). O'r rhain, roedd 188 (11.3% o'r holl blant) yn ordew a 238 (14.3%) dros eu pwysau, ond nid yn ordew. (Cymru = 11.6% yn ordew, 14.5% dros eu pwysau ond nid yn ordew)⁵⁵.
- Mae merched 4-5 oed yn Sir y Fflint yn fwy tebygol o fod yn ordew neu dros eu pwysau na bechgyn o'r un oedran.

2.10.4 Mae gordewdra mewn oedolion hefyd yn broblem sy'n fwy a mwy cyffredin oherwydd ar gyfer nifer o bobl mae bywyd cyfoes yn cynnwys bwyta gormodedd o fwyd rhad, llawn calorïau, a threulio cyfnodau maith o amser yn eistedd, wrth ddesgiau, ar soffa neu mewn ceir.


- Mae 57.5% o oedolion yn ordew neu dros eu pwysau yn Sir y Fflint⁵⁶. Mae hyn yn cymharu â 57.8% sef cyfartaledd Cymru (Lloegr = 60.5%).
- O'r rhain, roedd 20.1% yn ordew a 37.4% dros eu pwysau, ond nid yn ordew. (Cymru = 22.3% yn ordew, 35.5% dros eu pwysau ond nid yn ordew).

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.10.5 Ers 2011-12, ni fu newid ystadegol sylweddol o ran lefelau gordewdra a lefelau'r rhai sydd dros eu pwysau ymysg plant 4-5 oed. Mae lefelau gordewdra wedi cynyddu ychydig, ond wedi gostwng ychydig ar gyfer y rhai sydd dros eu pwysau ond nad ydynt yn ordew – 15.0% o blant 4-5 oed dros eu pwysau yn 2011-12 a 10.9% yn ordew (cyfanswm o 25.9%).

Siart 2.10.2: oedolion a oedd dros eu pwysau neu'n ordew (oedran wedi'i safoni)

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru



- 2.10.6 Er bod ymgyrch gweithredol ar ffyrdd o fyw iach gan y sector cyhoeddus a'i bartneriaid yng Nghymru, mae cyfran yr oedolion sydd dros eu pwysau neu'n ordew wedi cynyddu dros y ddegawd ddiwethaf.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.10.7 Mae gordewdra yn gostwng disgwyliad oes o gyfartaledd o 3 i 10 mlynedd, yn dibynnu ar pa mor ddifrifol ydyw. Amcangyfrifir bod gordewdra a bod dros bwysau yn cyfrannu at o leiaf 1 ym mhob 13 marwolaeth yn Ewrop⁵⁷. Mae gordewdra yn tueddu i fod yn fater iechyd sy'n gymdeithasol anghybwys, gan effeithio'n anghymesur ar grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Os nad yw'n cael ei herio bydd yn cynyddu anghydraddoldebau iechyd.
- 2.10.8 Yn ogystal ag achosi newidiadau corfforol i'r corff sy'n effeithio ar ffitrwydd a symudedd cyffredinol, mae bod yn ordew neu dros bwysau yn cynyddu'r tebygolrwydd o ddioddef o salwch sy'n peryglu bywyd megis diabetes math 2, clefyd coronaidd y galon, rhai mathau o gancr (er enghraifft cancr y frest a chancr y coluddyn), asthma, pwysedd gwaed uchel, colesterol uchel a strôc. Gall gordewdra effeithio ar ansawdd bywyd ac arwain at broblemau seicolegol, megis iselder a hunan-barch isel. Mae hyn i gyd yn arwain at gynnydd o ran pwysau ar y gwasanaethau gofal ac iechyd.
- 2.10.9 Mae'r ffaith fod y duedd tuag at gynnydd mewn gordewdra er gwaethaf blynyddoedd o hyrwyddo ffyrdd o fyw iach yn peri pryderon mawr.

2.11 Cefnogi rhai gydag iechyd meddwl gwael

Healthier

More equal

Cohesive


Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.11.1 Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) wedi diffinio iechyd meddwl fel:
- ‘a state of well-being in which every individual realizes his or her own potential, can cope with the normal stresses of life, can work productively and fruitfully, and is able to make a contribution to her or his community’
- 2.11.2 Mae teimladau o les a boddhad gyda bywyd yn gysylltiedig ag iechyd da. Mae teimladau cadarnhaol am eich bywyd (hunan-barch, rheolaeth, gwydnwch ac ymdeimlad o bwrpas) yn dylanwadu ar lefelau lles meddyliol, sy'n ei dro yn effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol. Mae iechyd meddwl da (yn enwedig yn gynnar mewn bywyd) yn gallu lleihau anghydraddoldebau, gwella iechyd corfforol, lleihau ymddygiad sy'n peryglu iechyd a chynyddu disgwyliad oes (o 7.5 mlynedd yn ôl un astudiaeth⁵⁸), cynhyrchiant economaidd, gweithredu cymdeithasol ac ansawdd bywyd⁵⁹. Mae iechyd meddwl cadarnhaol yn lleihau achosion ac effaith salwch meddwl. Mae iechyd meddwl da a gwydnwch personol yn amddiffyn rhag hunan-niwed a hunanladdiad.
- 2.11.3 Mae problemau iechyd meddwl yn amrywio o'r pryderon yr ydym oll yn eu profi fel rhan o fywyd arferol i gyflyrau difrifol hirdymor. Gallant ddechrau yn gynnar mewn bywyd, yn aml o ganlyniad i amddifadedd gan gynnwys tlodi, ymlyniad anniogel, trawma, colled neu gam-drin. Mae ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael pan yn oedolyn yn cynnwys diweithdra; incwm isel; dyledion; trais; digwyddiadau bywyd anodd; a thai annigonol⁶⁰.

- 2.11.4 Mae ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael yn cael effaith anghymesur ar bobl o grwpiau risg uwch ac ymylol. Mae grwpiau risg uwch yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal; plant sy'n cael eu cam-drin; unigolion du a lleiafrifoedd ethnig; rhai ag anabledd deallusol; pobl ddigartref; mamau newydd; pobl lesbiaid, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol; ffoaduriaid a cheiswyr lloches a charcharorion⁶¹.

Ffigwr 2.11.1: model continwrm deuol ar gyfer iechyd meddwl

Ffynhonnell: addasiad o K.Tudor 'Mental Health Promotion: Paradigms and Practice', 1996



- 2.11.5 Gall pobl â phroblemau iechyd meddwl fwynhau lles meddyliol da, tra gall eraill gyda phroblem iechyd meddwl heb ddiagnosis gael lles meddyliol gwael. Gellir gwella iechyd meddwl a lles unigolion drwy gynyddu gwydnwch emosiynol drwy ymyraethau sydd wedi'u dylunio i hyrwyddo hunan-barch a sgiliau ymdopi â bywyd ar draws pob cyfnod o fywyd, o fabanod i'r henoed. Mae hyn wedi'i amlinellu yn ffigwr 2.11.1.
- 2.11.6 Gall iechyd meddwl unigolyn effeithio ar les corfforol. Er enghraifft, mae ymchwil presennol yn awgrymu y gall ysmegu 20 o sigarennau'r dydd ostwng disgwylid oes o gyfartaledd o ddeng mlynedd. Er bod nifer yr unigolion sy'n ymysgu yn y boblogaeth gyfan oddeutu 20 i 25 y cant, mae nifer yr achosion ymysg pobl sydd â sgitsoffrenia oddeutu teirgwaith yn uwch - neu bron yn 90%, ac oddeutu 60 i 70% ar gyfer pobl sydd ag anhwylder deubegwn. Mae cyfraddau marwolaeth ar gyfer pobl gyda Sgitsoffrenia ac anhwylder deubegwn yn dangos gostyngiad mewn disgwylid oes o 25 mlynedd, oherwydd problemau iechyd corfforol yn bennaf.⁶² Mae gordewdra, diet gwael a ffordd o fyw anweithgar hefyd yn ffactorau sy'n cyfrannu at salwch meddwl difrifol ac iechyd corfforol gwael.

- 2.11.7 Mae iechyd meddwl gwael wedi'i nodi fel ffactor sy'n dwysau mewn ystod o feysydd gwaith y sector cyhoeddus sydd wedi'u trafod wrth ymgynghori â darparwyr gwasanaeth ar draws Gogledd Cymru wrth baratoi'r asesiad o les hwn. Mae'n faes o bryder allweddol ar gyfer yr holl asiantaethau partner. Mae'r rhain yn cynnwys cynorthwyo teuluoedd mewn anawsterau, niferoedd sy'n ddigartref, digwyddiadau o gam-drin domestig, achosion o gamddefnyddio sylweddau (gan gynnwys alcohol), adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, delio â sgiliau rhianta gwael a chefnogi pobl i dderbyn gwaith. Gall diffyg cydlyniad rhwng darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a darparwyr lles eraill (e.e. tai cymdeithasol) achosi problemau cyfansawdd ar gyfer y dioddefwyr, eu teulu, ffrindiau a'r gymuned y maent yn byw ynddi, ac ar gyfer y darparwyr gwasanaeth.
- 2.11.8 Gall rhai mathau o ymddygiad sy'n deillio o iechyd meddwl gwael gynyddu'r perygl o digwyddiadau tân a lleihau gallu'r unigolyn i ddianc yn ddiogel. Mae ymddygiad obsesiynol megis cronni a /neu rwystro drysau a ffenestri yn achosi peryglon tân er enghraifft. Mae arwahanrwydd cymdeithasol y gellir ei gysylltu ag iechyd meddwl gwael yn cynyddu'r perygl y bydd tân yn cynnau neu'n lledaenu heb sylwi, ac yn lleihau siawns unigolyn o ddianc heb anaf.
- 2.11.9 Amcangyfrifir y bydd 1 o bob 4 person yn y DU yn profi problem iechyd meddwl bob blwyddyn⁶³. Y problemau iechyd meddwl mwyaf cyffredin yw gorbryder ac iselder.

Iselder	2.6 o bob 100 o bobl
Gorbryder	4.7 o bob 100 o bobl
Cymysgedd o orbryder ac iselder	9.7 o bob 100 o bobl
Ffobiâu	2.6 o bob 100 o bobl
OCD	1.3 o bob 100 o bobl
Anhwyllder panig	1.2 o bob 100 o bobl
Anhwyllder Straen Wedi Trawma	3.0 o bob 100 o bobl
Anhwyllderâu bwyta	1.6 o bob 100 o bobl


- 2.11.10 Mae sawl math o salwch meddwl ond y dull hawsaf o'u diffinio yw naill ai fel cyflwr seicotig neu niwrotig. Mae'r rhan fwyaf o gyflyrau yn perthyn i'r naill neu'r llall o'r categorïau hyn. Mae eu hamlder yn cael ei fesur fel tebygolrwydd oes.

Anhwyllder personoliaeth	3 i 5 o bobl ym mhob 100
Anhwyllder deubegwn	1 i 3 o bobl ym mhob 100
Sgitsoffrenia	1 i 3 o bobl ym mhob 100

- 2.11.11 Mae Arolwg Iechyd Cymru yn adrodd ar iechyd meddwl, ac ar gyfer 2013/14 sgôr cyfansawdd iechyd meddwl Sir y Fflint oedd 50.3 – ychydig yn well na chyfartaledd Cymru o 49.5. Mae sgôr uwch yn nodi gwell iechyd meddwl.

Siart 2.11.1: canran yr oedolion (16+ oed) sy'n adrodd eu bod yn cael eu trin ar gyfer salwch meddwl ar hyn o bryd

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru 2013-14, Llywodraeth Cymru



2.11.12 Mae oddeutu 10.3% o boblogaeth Sir y Fflint yn adrodd eu bod yn cael eu trin ar gyfer salwch meddwl. Cyfartaledd Cymru yw oddeutu 12.5%.

2.11.13 Mae pumed o wariant y GIG ar gyfer Cymru yn cael ei wario ar wasanaethau iechyd meddwl. Mae cyfran fawr o'r ymweliadau i'r Adrannau Argyfwng a derbyniadau cyffredinol i ysbytai yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl. Yn 2013/14, roedd bron i 10,300 o dderbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl gan BIPBC; roedd ychydig dros 8,600 yn dderbyniadau anffurfiol ac oddeutu 1,690 yn dderbyniadau ffurfiol (wedi'u cadw o dan adran o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu ddeddfwriaeth arall).

2.11.14 Fel arfer mae hunanladdiad a hunan-niweidio yn ymateb i gyfres gymhleth o ffactorau sy'n bersonol ac yn gysylltiedig â dylanwadau cymdeithasol a chymunedol ehangach. Mae'r tebygolrwydd o ddiodeff o'r math hwn o salwch meddwl yn cael ei fesur yn ôl tebygolrwydd oes.

Wedi meddwl am hunanladdiad	17 o bob 100 o bobl
Hunan-niweidio	3 o bob 100 o bobl

2.11.15 Felly nid oes un rheswm unigol pam y gall rhywun geisio lladd eu hunain. Y dull gorau o geisio deall hunanladdiad yw drwy ystyried pob unigolyn, eu bywyd a'u hamgylchiadau. Mae crynodeb o dystiolaeth ar atal hunanladdiad yn nodi sawl ffactor sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn perygl o hunanladdiad gan gynnwys rhyw (gwryw); oedran (15 i 44 oed); amddifadedd economaidd-gymdeithasol; salwch seiciatrig gan gynnwys iselder eithafol; anhwylder deubegwn;

anhwylderau gorbryder; salwch corfforol megis cancr; hanes o hunan-niweidio a hanes teuluol o hunanladdiad.⁶⁴

- 2.11.16 Mae gan Sir y Fflint gyfradd hunanladdiad o 9.9 fesul 100,000 o'r boblogaeth, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 9.2.
- 2.11.17 Hunan-niweidio yw pan fu rhywun yn anafu neu'n difrodi eu corff yn fwriadol. Fel arfer, mae'n ddull o ymdopi neu fynegi tralod emosiynol llethol. Mae'n faes sy'n peri pryder cynyddol, yn enwedig ymysg plant a phobl ifanc. Mae gwahanol ffyrdd y gall pobl niweidio eu hunain yn fwriadol gan gynnwys torri neu losgi eu croen; pwnio neu daro eu hunain; gwenwyno eu hunain gyda thabledi neu gemegau gwenwynig; camddefnyddio alcohol a chyffuriau; llwgu eu hunain yn fwriadol (anorecsia nerfosa) neu orfwyta mewn pyliau (bwlimia nerfosa); ymarfer corff yn ormodol.
- 2.11.18 Mae nifer yr asesiadau o hunan-niweidio ar gyfer plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru wedi dyblu a mwy rhwng 2012/13 a 2015/16⁶⁵. Mae gan dros hanner yr unigolion sy'n marw drwy hunanladdiad gefndir o hunan-niweidio.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.11.19 Ymddengys bod sgoriau elfen iechyd meddwl ar rywfaint o duedd ar i lawr, ond maent wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru'n gyson.

Tabl 2.11.2: crynodeb sgôr yr elfen feddyliol

Ffynhonnell: Arolwg Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru

	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13	2013/14
Sir y Fflint	51.3	50.6	50.4	50.7	50.3
Gogledd Cymru	50.8	50.7	50.6	50.4	50.5
Cymru	49.9	49.8	49.7	49.6	49.5

Mae sgoriau uwch yn nodi iechyd gwell

Mae'r niferoedd wedi'u talgrynnu felly efallai na fyddent yn llunio'r cyfanswm

- 2.11.20 Mae MIND yn amcangyfrif⁶⁶ nad yw cyfanswm yr unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ond bod pryderon megis arian, swyddi a budd-daliadau yn gallu ei gwneud yn anoddach i bobl ymdopi.


Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.11.21 Mae iechyd meddwl yn elfen allweddol o wydnwch, asedau iechyd, galluedd ac addasiad cadarnhaol er mwyn galluogi pobl i ymdopi, ffynnu a phrofi iechyd a chanlyniadau cymdeithasol da.
- 2.11.22 Mae iechyd meddwl gwell yn darparu buddion sylweddol ar gyfer iechyd ac ansawdd bywyd, ar gyfer unigolion a chymunedau: nid yw'r buddion hyn o ganlyniad i absenoldeb salwch meddwl yn unig neu o reidrwydd, ond o ganlyniad i agweddau o iechyd meddwl cadarnhaol.
- 2.11.23 Mae nifer yr unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl yn debygol o gynyddu ar draws Gogledd Cymru yn yr 20 mlynedd nesaf. Gellir defnyddio nifer yr achosion o Arolwg Iechyd Cymru i ragweld sut y bydd cyfanswm nifer yr

unigolion gyda phroblemau iechyd meddwl cyffredin yn newid. Rhagwelir y bydd y nifer yn cynyddu yn Sir y Fflint o 20,000 i 21,000 rhwng 2015 a 2035.

Siart 2.11.2: Nifer yr unigolion 16 oed a hŷn y rhagwelir y bydd ganddynt problem iechyd meddwl cyffredin, Gogledd Cymru, 2015 i 2035

Ffynhonnell: Amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2011, Llywodraeth Cymru, Cronfa Ddata Cennin Pedr, Sefydliad Gofal Cyhoeddus



- 2.11.24 Mae nifer yr achosion a amcangyfrifir o broblemau iechyd meddwl a gynhyrchwyd gan Arolwg Morbidrwydd Seiciatrig Oedolion ac Arolwg Iechyd Cymru dros ddwy waith yr amcanestyniad o bobl sy'n adrodd eu bod yn cael eu trin ar gyfer problem iechyd meddwl. Mae hyn yn awgrymu efallai bod llawer o bobl yr effeithir arnynt yn y boblogaeth nad ydynt yn ceisio cymorth am resymau amrywiol.
- 2.11.25 Mae'r gwasanaethau yn adrodd cynnydd mewn materion sy'n fwy cymhleth o ganlyniad i amddifadedd, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chamddefnyddio sylweddau. Maent hefyd yn adrodd cynnydd mewn unigolion â diagnosis o anhwylder personoliaeth ond nid yw'n eglur a yw hyn yn gynnydd oherwydd rhesymau cymdeithasol neu newid yn y modd y rhoddir diagnosis ar gyfer y cyflwr.
- 2.11.26 Oherwydd bod iechyd meddwl gwael yn effeithio ar ystod eang o ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, mae angen dulliau traws-asiantaethol i gynorthwyo'r rhai gydag iechyd meddwl gwael. Yn benodol byddai dull cydlynol yn gymorth i atal pobl rhag disgyn drwy'r bylchau cefnogi sy'n gallu bodoli rhwng y pwyntiau sbardun ar gyfer gwahanol lefelau neu fathau o gefnogaeth.

2.12 Pwysau cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol

Cydnerth

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.12.1 Mae nifer o'r materion sy'n cael eu trafod mewn mannau eraill yn yr asesiad, megis y boblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd yn nifer y gofalwyr, arwahanrwydd cymdeithasol a byw mewn amddifadedd, yn cynyddu'r pwysau ar y gwasanaethau cyhoeddus. Mae newidiadau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu cymell gan newid mewn demograffeg (cynnydd mewn galw am ofal), ffactorau cymdeithasol a gwleidyddol (gan gynnwys yr anogaeth ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon), technoleg ac arloesi (datblygiadau o ran triniaethau a chyfleoedd i gleifion reoli eu hiechyd eu hunain), a chynnydd o ran disgwyliadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cymhellion hyn yn cynhyrchu heriau o ran sgiliau a pherfformiad yn holl swyddi allweddol iechyd a gofal cymdeithasol, wrth i'r sector ymateb i'r newid mewn galw.
- 2.12.2 Mae Gogledd Cymru yn wynebu anawsterau recriwtio parhaus a sylweddol ar gyfer Meddygon Teulu a nyrsys. Mae'r problemau hyn yn dwysau oherwydd natur wledig yr ardal, ond maent hefyd yn amlwg yn y trefi arfordirol dinesig. Mae hyn wedi'i nodi fel risg sylweddol byrdymor a hirdymor i ddarpariaeth gwasanaethau gofal sylfaenol.

Tabl 2.12.1: meddygon a gyflogwyd mewn meddygfeydd cyffredinol yng Ngogledd Cymru, Mai 2016

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

	Yr holl feddygon teulu	Meddygon Teulu cyflogedig		56+ oed		51-55 oed	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Gorllewin	136	12	9%	25	18%	22	16%
Canolog	132	24	18%	22	17%	29	22%
Dwyrain	176	26	15%	39	22%	30	17%
Gogledd Cymru	444	62	14%	86	19%	81	18%

* Nid yw meddygon cyflogedig yn cynnwys Meddygon Teulu locwm, Meddygon Teulu ar y cynllun dychwelyd a Meddygon wrth gefn.

- 2.12.3 Mae problemau recriwtio yn peri mwy o bryder o ystyried proffil oedran y gweithlu presennol. Mae data a gasglwyd ym mis Mai 2016 yn dangos bod 19% o'r Meddygon Teulu yng Ngogledd Cymru a 22% yn Ardal Ddwyreiniol BIPBC (Wrecsam a Sir y Fflint) dros 55 oed. Mae'r posibilrwydd y bydd y meddygon teulu hyn yn ymddeol yn gynnwys wedi cynyddu yn dilyn y newidiadau i ddeddfwriaethau pensiwn, sy'n peri budd i unigolion ar gyflogau uchel i ymddeol yn gynnwys.
- 2.12.4 Mae manylion y galw ar yr Adran Argyfwng (a elwir yn Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yn flaenorol) yn y prif ysbytai, gan gynnwys Glan Clwyd, Gwynedd a Wrecsam Maelor wedi'u cynnwys oherwydd y diddordeb gan y cyhoedd o ran amseroedd aros a'r posibilrwydd y gall y sector cyhoeddus weithio gyda'i gilydd mewn modd gwahanol i leihau'r galw hwn.


- 2.12.5 Mae ymchwil a dadansoddiad yn parhau er mwyn deall y cynnydd hwn mewn galw, ond mae pryderon ynglŷn ag a ellir diwallu anghenion y cleifion hyn mewn dull gwahanol, gan leihau'r pwysau ar yr Adrannau Argyfwng.
- 2.12.6 Ar draws y tri phrif ysbyty yng Ngogledd Cymru, canfuwyd bod 248 o bobl wedi mynychu'r adrannau fwy na 10 gwaith mewn cyfnod o 12 mis, gyda rhai cleifion yn mynychu nifer fawr o weithiau. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a oedd yr holl achosion hyn angen gwasanaethau gan yr Adran Argyfwng.
- 2.12.7 Mae hyn yn cael ei gefnogi gan ddata a gynhyrchwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), sy'n edrych ar gyfran y derbyniadau i'r Adrannau Argyfwng mewn ysbytai lle y penderfynwyd bod angen triniaeth bellach neu ymchwiliad pellach ar y claf. Ar draws Gogledd Cymru, roedd nifer a dderbyniwyd i ysbyty o dan 30% rhwng mis Ebrill a Medi 2016. Er y derbynir y bydd cyfran o'r derbyniadau yn cael eu rhyddhau, mae cyfran mor isel yn cefnogi'r cysyniad efallai y gellir diwallu anghenion nifer o'r rhain mewn ffordd arall.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.12.8 Rhwng 2012 a 2015 collwyd oddeutu 400 o leoliadau net mewn cartrefi nyrsio yng Ngogledd Cymru (gan ystyried rhai o'r cartrefi newydd a gafodd eu hadeiladu, ond fe gaeodd sawl un). Dengys ymchwil bod oddeutu 94% o'r cartrefi gofal preswyl yn yr ardal yn rhai annibynnol yn y sector preifat ac mae mwyafrif y cartrefi hyn yn cael eu gweithredu fel busnesau sengl annibynnol gyda dim ond nifer fechan ohonynt yn cael eu gweithredu fel grŵp o gartrefi. Mae hyn yn golygu eu bod yn fwy agored i niwed gan gyflyrau newidiol y farchnad. Mewn sawl achos roeddent yn cau am ei bod yn rhy anodd recriwtio nyrsys neu ei bod yn anghynnaladwy yn ariannol cynnig gofal nyrsio am y ffioedd a delir gan gomisiynwyr statudol.

Siart 2.12.1: pobl sydd wedi mynychu'r adran argyfwng yn Ysbyty Wrecsam Maelor rhwng mis Hydref 2009 a Medi 2016 a'r nifer a gafodd eu gweld o fewn 4 awr


Ffynhonnell: perfformiad yn erbyn targed amseroedd amser o 4 awr gan ysbyty mawr, StatsCymru



2.12.9 Er bod nifer yr unigolion sy'n mynychu adran argyfwng Ysbyty Maelor Wrecsam wedi aros yn eithaf cyson, mae'r nifer a'r gyfran sydd wedi'u gweld o fewn 4 awr wedi gostwng yn sylweddol.

Siart 2.12.2: pobl sydd wedi mynychu'r adran argyfwng yn Ysbyty Glan Clwyd rhwng mis Hydref 2009 a Medi 2016 a'r nifer a gafodd eu gweld o fewn 4 awr

Ffynhonnell: perfformiad yn erbyn targed amseroedd amser o 4 awr gan ysbyty mawr, StatsCymru



2.12.10 Er bod tueddiadau tymhorol amlwg yn nifer yr unigolion sy'n mynychu adran argyfwng Ysbyty Glan Clwyd, mae cynnydd graddol yng nghyfanswm yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn. Gellir gweld effaith y cynnydd hwn mewn galw yn y niferoedd gostyngol a'r gyfran sydd wedi'u gweld o fewn 4 awr.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

Meddygon teulu a nyrsys

2.12.11 Nid yw nifer y lleoedd hyfforddiant ar gyfer Meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn ddigonol i ddiwallu'r gofynion ar draws y DU, ynghyd ag yng Ngogledd Cymru. Mae system meddygon teulu dan hyfforddiant Cymru sy'n ceisio meddygon dan hyfforddiant o Ysgol Feddygol Caerdydd yn cael anhawster diwallu gofynion gweithlu economi gweithlu Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru. Mae perthnasau da yn bodoli gyda'r Gogledd Orllewin, yn Ysgolion Meddygol Lerpwl a Manceinion, y gellir eu datblygu ymhellach. Gall datblygiad ysgol feddygol yng Nghaer fod yn fuddiol hefyd.


2.12.12 Yn ogystal â mentrau presennol i recriwtio a chadw Meddygon Teulu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'n ddiweddar y cyflwynir cymhelliant ariannol ar gyfer Meddygon Teulu dan hyfforddiant, sy'n cynnwys cymorth ariannol ar gyfer costau asesu penodol a chynllun bwrsariaeth ar gyfer meddygon dan

hyfforddiant sy'n cytuno i aros yn yr ardal yn ystod eu hyfforddiant ac am flwyddyn o weithio yn y maes wedi hynny.

Gofal preswyl neu nyrsio

Siart 2.12.3: nifer rhagfynegol o bobl 65+ oed sy'n derbyn gwasanaethau preswyl

Ffynhonnell: amcanestyniadau poblogaeth sail-2011, Llywodraeth Cymru, Cronfa Ddata Cennin Pedr, Sefydliad Gofal Cyhoeddus



2.12.13 Disgwylir i nifer yr unigolion 65 oed a hŷn sy'n derbyn gwasanaethau preswyl ddyblu erbyn 2035 fel y nodir isod. Mae hyn o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio a chynnydd yn nifer yr unigolion sydd ag anghenion gofal cymhleth megis dementia. Disgwylir i'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau gofal preswyl safonol ostwng neu aros yr un fath, ond disgwylir i'r nifer sydd angen gofal nyrsio arbenigol gynyddu'n sylweddol.

Tabl 2.12.2: diffyg a ddisgwylir mewn lleoedd preswyl a thai â chefnogaeth erbyn 2030

Ffynhonnell: Teclyn SHOP@

	Cartref Gofal Preswyl	Cartref gofal Nyrsio	Tai gwarchod	Tai gyda gofal
Sir y Fflint	326	686	-352	657
Gogledd Cymru	392	2,154	2,185	2,774

2.12.14 Mae Rhwydwaith Dysgu a Gwybodaeth Tai wedi datblygu teclyn i gefnogi comisiynwyr a chynllunwyr i ragweld y galw ar gyfer y gwahanol fathau o lety â

chefnogaeth. Mae teclyn SHOP@ yn rhagweld erbyn 2030, bydd gorgyflenwad o leoedd tai gwarchod yn Sir y Fflint a diffyg cyflenwad o ofal preswyl, cartrefi nyrsio a thai gyda gofal ar draws yr ardal. Mae hyn yn awgrymu bod posibilrwydd y bydd twf cyflogaeth yn y sector yn y dyfodol.

2.13 Bygythiadau i iechyd a lles sy'n dod i'r amlwg

Cydnherth

Iachach

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.13.1 Mae hwn yn faes asesu sydd angen gwaith pellach ac yn fwllch gwybodaeth ar hyn o bryd. Mae wedi'i nodi fel maes pryder drwy ymgynghoriad gyda'n partneriaid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 2.13.2 Y bygythiadau i iechyd a lles sy'n dod i'r amlwg ac yn peri pryder penodol yw:
- Datblygu ymwrthedd i wrthfotigau a chyffuriau a meddyginiaethau eraill.
 - Y posibilrwydd y bydd afiechydon heintus yn lledaenu'n gyflym mewn byd sy'n fwy cyd-ddibynnol a chyd-gysylltiedig (pandemigau).
 - Effaith posibl newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol ar iechyd cyhoeddus.
- 2.13.3 Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn nodi ⁶⁷:
- “Today’s highly mobile, interdependent and interconnected world provides myriad opportunities for the rapid spread of infectious diseases, and radio-nuclear and toxic threats ... Infectious diseases are now spreading geographically much faster than at any time in history. It is estimated that 2.1 billion airline passengers travelled in 2006; an outbreak or epidemic in any one part of the world is only a few hours away from becoming an imminent threat somewhere else ... Since the 1970s, newly emerging diseases have been identified at the unprecedented rate of one or more per year. There are now nearly 40 diseases that were unknown a generation ago.”
- 2.13.4 Mae rhai o'r afiechydon hyn yn tueddu i fod yn epidemig neu bandemig, a byddent yn peri risg ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mewn ymateb i'r afiechydon heintus, yr hen rai a'r rhai newydd sy'n dod i'r amlwg, un agwedd allweddol yw darparu triniaethau gwrth-ficrobaidd effeithiol, megis gwrthfotigau a meddyginiaethau gwrth-fiol. Mae Cynllun Cyflawni Ymwrthedd i Gyffuriau Cymru (Ebrill 2016) yn nodi⁶⁸: “Ymwrthedd i gyffuriau yw un o'r bygythiadau iechyd mwyaf i fodau dynol ac anifeiliaid. Mae'r broblem wedi bod yn datblygu dros ddegawdau fel bod nifer o heintiau cyffredin a rhai sy'n peryglu bywyd yn anodd - neu hyd yn oed yn amhosibl - eu trin erbyn heddiw.”
- 2.13.5 Er bod y bygythiadau hyn yn debygol o darddu o fannau eraill, mae'r ymateb i epidemig neu bandemig yn dibynnu ar asesiad cyflym ac ymateb i gyfyngu lledaeniad lleol. Mae sawl system ymateb i argyfwng aml-asiantaeth ar waith ac yn cael eu profi a'u diweddarau'n rheolaidd gan yr holl sefydliadau sy'n debygol o gyfranogi. Fodd bynnag, mewn sefyllfa epidemig neu bandemig difrifol, dylai bod gan yr holl sefydliadau gynlluniau ar waith ar gyfer parhad busnes pan fydd yn debygol o effeithio ar eu staff a'u defnyddwyr gwasanaeth. Gallai methu â

datblygu a phrofi cynlluniau arwain at fwy o farwolaeth a thrallod, a chael effaith eang ar nifer o wasanaethau hanfodol eraill y mae pobl yn dibynnu arnynt.

2.14 Mynd i'r afael â cham-drin domestig

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Beth sy'n digwydd yn awr

2.14.1 Diffiniad Llywodraeth y DU o drais a cham-drin domestig yw:

“Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, yn gymhellol neu'n fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng y rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn sydd yn neu wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig, i'r mathau canlynol o gam-drin:

- seicolegol
- corfforol
- rhywiol
- ariannol
- emosiynol

Ymddygiad sy'n rheoli yw: ystod o weithredoedd wedi'u dylunio i wneud unigolyn yn israddol a/neu'n ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau o gymorth, cam-fanteisio ar eu hadnoddau a'u capasiti er budd personol, gan eu hamddifadu o'r elfennau sy'n ofynnol ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad dyddiol.

Ymddygiad cymhellol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, codi cywilydd a brawychu neu gam-drin arall sy'n cael ei ddefnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr”.

2.14.2 Mae cam-drin domestig yn cael effaith sylweddol ar iechyd a lles y dioddefwyr ar unwaith ac yn hirdymor, gan barhau ar ôl i'r berthynas ddod i ben. Gall canlyniadau seicolegol trais fod mor ddifrifol â'r effeithiau corfforol. Mae amlygiad i drais yn arwain at iechyd corfforol gwaeth yn gyffredinol o gymharu â merched sydd heb brofi trais, ac mae'n cynyddu'r perygl y bydd merched yn datblygu ystod o broblemau iechyd.

2.14.3 Mae plant sy'n byw mewn cartrefi lle bo cam-drin domestig yn cael eu magu mewn amgylchedd sy'n anrhagweladwy, yn llawn tensiwn a phryder ac yn cael ei reoli gan ofn. Gall hyn arwain at drawma emosiynol a seicolegol sylweddol. Maent hefyd mewn perygl o niwed corfforol eu hunain, naill ai drwy gael eu dal yng nghanol ymosodiad neu fel dioddefwyr uniongyrchol eu hunain. Mae delio ag effaith amlygiad i gam-drin domestig yn elfen helaeth o waith i liniaru profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (gweler [adran 2.1 'Rhoi'r 'dechrau gorau' i bob plentyn'](#) i gael rhagor o wybodaeth).

2.14.4 Mae cam-drin domestig yn cael ei gydnabod fel mater amddiffyn plant. Mae'r diffiniad o 'niwed' yn Neddf Plant yn cynnwys gweld eraill yn cael eu cam-drin. Mae oddeutu 18% o blant 11 i 17 oed wedi gweld cam-drin domestig rhwng yr oedolion yn y cartref⁶⁹ a nodwyd cam-drin domestig fel ffactor risg mewn 54% o'r adolygiadau achos difrifol a gynhaliwyd rhwng 2011 a 2014 gan y gwasanaethau cymdeithasol yn Lloegr⁷⁰.


- 2.14.5 Mae cyfran sylweddol o waith diogelu plant ac oedolion yn ymwneud â cham-drin neu esgeuluso pobl gydag anghenion gofal a chefnogaeth sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Mae cam-drin domestig yn cael ei ystyried fel trais rhwng partneriaid agos gan amlaf, ond gall fod ar sawl ffurf arall a gall ystod o bobl ei gyflawni. Felly mae llawer o waith diogelu yn gysylltiedig â cham-drin domestig.
- 2.14.6 Mae oddeutu 1 o bob 4 o ferched yn profi trais yn ystod eu hoes ac 1 o bob 6 o ddynion. Mae oddeutu 8.5% o ferched a 4.5% o ddynion yn adrodd eu bod wedi profi cam-drin domestig yn y flwyddyn ddiwethaf⁷¹. Mae hyn yn gyfwerth ag amcanestyniad o 16,000 o ddiodefwyr benywaidd a 8,000 o ddiodefwyr gwrywaidd yng Ngogledd Cymru bob blwyddyn.
- 2.14.7 Nid yw pob achos o gam-drin domestig yn cael ei adrodd. Roedd nifer y troseddau trais domestig gydag anaf yng Ngogledd Cymru yn llawer is na'r nifer amcanestynedig o bobl sy'n debygol o fod wedi profi'r drosedd. Ar gyfer 2015/16 mae data gan Heddlu Gogledd Cymru yn dangos y bu 1,700 o droseddau domestig gyda thrais wedi'u cofnodi. Yn Sir y Fflint:
- cofnodwyd oddeutu 340 o droseddau domestig gyda thrais.
 - roedd dros 50% o'r achosion yn cynnwys pobl o dan 16 oed mewn rhyw fodd. Roedd oddeutu 30% yn cynnwys plant o dan 5 oed.
 - cofnodwyd 270 o droseddau rhyw yn yr un cyfnod.
 - mae merched yn fwy tebygol o brofi trais domestig neu ddiodef troseddau rhyw na dynion. Roedd tua 80% o ddiodefwyr y ddwy drosedd yn ferched.
- 2.14.8 Amcangyfrifir mai cyfanswm costau cam-drin domestig yng Ngogledd Cymru yw £66 miliwn⁷². Mae hyn yn cynnwys costau gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a lloches, costau cyfreithiol a chynnyrch economaidd a gollwyd. Yn ogystal â hyn, amcangyfrifir bod y costau dynol ac emosiynol yn £114 miliwn, yn seiliedig ar y syniad y byddai pobl yn talu rhywbeth i beidio â diodef costau dynol ac emosiynol o gael eu hanafu. Gostyngodd cost cyffredinol cam-drin domestig yn sylweddol rhwng 2001 a 2008, yn bennaf oherwydd gostyngiad yng nghost colli cynnyrch economaidd, a gostyngiad yn y gost ddynol ac emosiynol, o ganlyniad i gynnydd mewn defnydd o wasanaethau cyhoeddus. Gostyngodd cyfradd gyffredinol cam-drin domestig rhwng 2001 a 2008, gan ddod i'r casgliad bod buddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus yn gost-effeithlon ar gyfer y wlad gyfan, yn ystod y cyfnod hwnnw.
- 2.14.9 Mae nifer o ffactorau risg, nad ydynt yn achosi cam-drin domestig ar eu pennau eu hunain, ond gallant gynyddu'r siawns y bydd camdriniaeth yn dechrau, cynyddu lefel y risg i'r diodefwr, neu wneud diodefwr yn fwy agored i niwed camdriniaeth ac â llai o allu i geisio cymorth. Mae rhai ffactorau risg eraill megis cyffuriau ac alcohol sydd wedi dangos cynnydd yn amllder neu ddifrifoldeb yr ymosodiadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- beichiogrwydd
 - cyflyrau iechyd meddwl
 - cyffuriau ac alcohol
 - problemau ariannol
 - gwahanu a chyswllt â phlant

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.14.10 Ers peth amser mae cam-drin domestig wedi'i dan-adrodd ac mae cynnydd yn nifer y troseddau dros y tair blynedd diwethaf yn debyg o fod o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu hadrodd yn hytrach na nifer y digwyddiadau.

Siart 2.14.1: troseddau trais domestig gydag anaf Sir y Fflint

Ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru



- 2.14.11 Mae nifer y troseddau rhyw sydd wedi'u hadrodd hefyd wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.
- 2.14.12 Mae cyfran y dioddefwyr sy'n fenywod wedi parhau'n eithaf cyson ar oddeutu 80% ar gyfer y ddau gategori trosedd.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.14.13 Os yw tueddiadau diweddar o adrodd troseddau yn parhau, gall adrodd digwyddiadau o gam-drin domestig gynyddu, er nad yw'n amlwg a yw'r tueddiadau ar i fyny o ganlyniad i gynnydd yn nifer y digwyddiadau neu gynnydd mewn parodrwydd i adrodd am y troseddau.
- 2.14.14 Gall cyflwyno uchafswm budd-daliadau a diwygiadau lles eraill olygu bod dioddefwyr yn fwy tebygol o aros gyda'r troseddwr os nad ydynt yn gallu fforddio symud. Bydd credyd cynhwysol yn cael ei dalu i un partner a allai gynyddu dibyniaeth y dioddefwr ar y sawl sy'n cyflawni'r drosedd.
- 2.14.15 Gall newidiadau i reolau cymorth cyfreithiol olygu y gall mwy o ddioddefwyr aros gyda'r cyflawnwr oherwydd ni fydd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer achosion gwahanu, ysgaru a chyswllt plant fel mater o drefn, nac ar gyfer dioddefwyr nad ydynt yn Brydeinwyr heb deitheb briodasol.

2.14.16 Drwy strategaeth 'Hawl i fod yn ddiogel'⁷³, mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid weithio gyda'i gilydd i sicrhau, ymysg pethau eraill, o ran cam-drin domestig a thrais eraill yn erbyn merched, eu bod yn:

- darparu cymorth i ddioddefwyr ac yn amddiffyn plant
- darparu siopau un-stop i ddioddefwyr, fel bod ganddynt wasanaethau cefnogi hawdd i'w cyrraedd
- darparu cefnogaeth tai a llety
- parhau i weithredu Rhaglen y Gynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth
- nodi cysylltiadau â phroblemau camddefnyddio sylweddau
- nodi a chefnogi troseddwy
- darparu cyngor ariannol i ddioddefwyr
- gwella ymateb asiantaethau cyfiawnder troseddol
- gwella ymateb asiantaethau iechyd a gwasanaethau eraill

2.14.27 Y prif bryder wrth fynd i'r afael â cham-drin domestig yw lles a diogelwch y dioddefwyr ac unrhyw blant yr effeithir arnynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried darparu cymorth i'r rhai sy'n cam-drin ac yn ymddwyn yn dreisgar tuag at eu partneriaid, yn enwedig o ran rhaglenni atal sy'n delio â newid ymddygiad.

2.15 Cyfleoedd gwaith lleol

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus

Beth sy'n digwydd yn awr

2.15.1 Mae mwy a mwy o dystiolaeth i ddangos cysylltiadau rhwng amddifadedd sylweddol a lles cyffredinol gwael. Mae'r ystadegau ar gyfer rhai sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd yn dangos disgwyliad oes is ar gyfartaledd, mwy o achosion o iechyd meddwl gwael, mwy o ddiweithdra, mwy o achosion o droedd ac anrhefn a chyrhaeddiad addysgol is. Er bod y rhesymau dros y rhain yn gymhleth, mae tlodi ariannol, diweithdra a chyflogaeth â chyflog isel yn ffactorau cyffredin. Cyflogaeth dda yw'r un mwyaf cyffredin, ac yn aml dyma'r dull mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyllid sydd ei angen ar deulu er mwyn gwella sawl maes o les⁷⁴.

2.15.2 Nid nifer y swyddi sydd ar gael yw'r unig elfen, ond y mathau o gyfleoedd cyflogaeth y maent yn eu cynnig, a pha mor dda ydynt o ran cyfateb â'r newidiadau yn yr economi fyd-eang ynghyd â'r blaenoriaethau lleol. Mae cyflogaeth bendant gyda chyflog da yn effeithio ar les economaidd unigolion a chymunedau, ond gall gynorthwyo gyda lles meddyliol hefyd gan ei fod yn meithrin ymdeimlad o bwmpas ac ymdeimlad o berthyn o fewn cymdeithas.

2.15.1 Mae oddeutu 73,450 o swyddi Talu wrth Ennill⁷⁵ (PAYE) yn yr ardal a 75,800 o breswylwyr sy'n gweithio⁷⁶. Mae hyn yn anghydbwysedd o oddeutu -2,350 o swyddi. Mae rhywfaint o'r anghydbwysedd rhwng cyflenwad a galw am swyddi yn cael ei ddiwallu drwy allgymudo⁷⁷. Fodd bynnag, nid oes gan Sir y Fflint batrwm cymudo swyddi/preswylwyr hunangynhwysol - mae nifer y preswylwyr sy'n gweithio y tu hwnt i'w ardal breswyl yn uchel iawn, dros 31,000 neu 43% o'r

preswylwyr sy'n gweithio. Mae hyn yn cael ei gydbwysu gan lefelau mewn-gymudo, sydd hefyd yn uchel iawn. Mae bron yr holl gymudwyr yn teithio i neu o awdurdodau cyfagos yn Lloegr neu Ogledd Cymru, ac yn adlewyrchu rhyngberthynas marchnadoedd cyflogaeth partneriaid Sir y Fflint yng Nghynghrair Merswy Dyfrdwy (Wrecsam, Gorllewin Sir Gaer, Caer a Chilgwri)⁷⁸. Mewn gwirionedd, mae teithio cynaliadwy yn rhan allweddol o waith Cynghrair Merswy Dyfrdwy a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Er enghraifft, mae'r ddau bartneriaeth yn gweithio gyda'i gilydd – ynghyd ag asiantaethau eraill - i wella cysylltiadau rheilffordd rhanbarthol a thraws-ffiniol i gefnogi cyfleoedd busnes a chyflogaeth (rhan o ymgyrch Llwybr Twf 360). Mae Sir y Fflint yn lle deniadol i weithio ynddo, gan gynnig swyddi â chyflog a statws uwch na'r awdurdodau cyfagos eraill yng Nghymru. Mae gan yr ardal gyflogaeth wythnosol cyfartalog sy'n sylweddol uwch ar gyfer swyddi llawn amser na chyfartaledd Cymru - £552 o gymharu â £492 ar gyfer Cymru gyfan. Mae cyfartaledd cyflog Sir y Fflint yn gymharol â chyfartaledd y DU⁷⁹. Mae cyfrannau uwch o swyddi llawn amser ar gael yn yr ardal na'r cyfartaledd cenedlaethol – mae 72% o'r swyddi yn rhai llawn amser yn Sir y Fflint, o gymharu â 68% ar draws Prydain a 65% yng Nghymru⁸⁰.

2.15.3 Mae'r strwythur cyflogaeth yn yr ardal yn wahanol i un Prydain Fawr ar y cyfan.

- Mae cyflogaeth yn y sectorau sgiliau uchel, cyflog uchel ar gyfer gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi yn eithaf isel, gan gyfrif ar gyfer 19% o'r holl gyflogaeth o gymharu â 24% ar draws Prydain ar y cyfan. Fodd bynnag, mae hyn yn sylweddol uwch na ffigur Cymru o 15%.
- Mae dibyniaeth ar gyflogaeth y sector cyhoeddus yn eithaf isel yn 19% ar draws yr ardal gyfan o gymharu â 32% ar gyfer Cymru a 26% ar gyfer Prydain Fawr.
- Yn Sir y Fflint, mae cyflogaeth gweithgynhyrchu ymhell uwchlaw'r gyfradd genedlaethol yn 30% o gymharu â 8% ar gyfer Prydain Fawr a 11% ar gyfer Cymru ar y cyfan.
- Mae cyfran cyflogaeth yn y sectorau adwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, celfyddydau, adloniant a hamdden sy'n gysylltiedig â thwristiaeth yn is – cyfanswm o oddeutu 16% o'r holl swyddi o gymharu â 22% yn genedlaethol. Y sectorau hyn yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gynnwys cyflog isel, cyflogaeth ran-amser neu dymhorol.


2.15.4 Mae gan Sir y Fflint economi gref ar y cyfan gyda pherfformiad cymharol dda mewn twf swyddi, mae pocedi yn y sir lle bo lefelau cyflogaeth wedi aros yn is na'r ardaloedd mwyaf ffyniannus, ond gyda rhwystrau sylweddol rhag derbyn gwaith yn parhau i fod yn amlwg.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.15.5 Mae cyfanswm y swyddi'r cynllun Talu wrth Ennill Sir y Fflint wedi cynyddu o 7,800 (11.9%) rhwng 2009 a 2015. Ar draws Cymru mae nifer o swyddi'r Cynllun Talu wrth Ennill wedi cynyddu o 2.4% yn yr un cyfnod ac o 4.1% ar gyfer Prydain Fawr.

Siart 2.15.1: newid yn y sectorau cyflogaeth 2009-2015

Ffynhonnell: ymchwiliad busnes blynyddol ac arolwg cofrestrau busnes a chyflogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol, (NOMIS)

**Nodiadau**

Cysylltiedig â thwristiaeth = manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, a chelfyddydau, adloniant a hamdden
Sgiliau uchel = gwybodaeth a chyfathrebu, cyllid ac yswiriant, proffesiynol, gwyddonol a thechnegol, a gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi

- 2.15.6 Fodd bynnag, ni ddosbarthwyd y cynnydd yn gyfartal ar draws y sectorau cyflogaeth. Gostyngodd nifer y swyddi mewn rhai sectorau – mae'r gostyngiadau mwyaf ers 2009 yn sectorau adeiladu, (-900 o swyddi), adwerthu (-500) a mwynloddio/chwarella/gwasanaethau (-200).
- 2.15.7 Gwelwyd y twf mwyaf yn y sector gweithgynhyrchu (tua +3,450 o swyddi). Cafwyd y twf cyfrannol mwyaf yn y sector gweinyddu cyhoeddus ac amddiffyn sydd wedi cynyddu o 48% ers 2009 (tua 1,250 o swyddi). Y sectorau twf sylweddol eraill ers 2009 yw gweinyddu busnes a gwasanaethau cefnogi (+1,450), addysg (+800), proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (+750), cludiant a storio ac iechyd (+500 yr un).

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.15.8 Er mwyn sicrhau y gall Sir y Fflint ddenu buddsoddiad busnes o economïau uwch sy'n dod i'r amlwg gyda'r galw am weithlu medrus, mae cynlluniau yn ymroddedig ac ar y gweill i ddatblygu Sefydliad Gweithgynhyrchu Uwch, partneriaeth ar y cyd gyda busnes y sector preifat, Prifysgolion, Sector Addysg Bellach.
- 2.15.9 Mae Gogledd Cymru wedi datblygu gweledigaeth twf traws ffiniol ar gyfer yr economi sydd â chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd a thai. Mae'r cynllun wedi'i groesawu gan Lywodraeth Cymru a'r DU. Mae trefniadau llywodraethu a rhaglen o fuddsoddiadau wedi'u blaenoriaethu yn cael eu

datblygu. Bydd y cynllun yn cynnwys rhanbartholi rhai swyddogaethau, buddsoddiadau cyfalaf newydd (seilwaith yn bennaf) rhaglenni sgiliau a datganoli pwerau o'r llywodraeth leol a chenedlaethol.

- 2.15.10 Mae'r economi yn anodd iawn ei ragweld, ac yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan gyflyrau marchnad cenedlaethol a rhyngwladol sydd y tu hwnt i gwmpas dylanwad cenedlaethol a rhyngwladol yn fwy a mwy. Dros y blynyddoedd nesaf, mae'n debyg y bydd pleidlais Brexit yn cael dylanwad sylweddol gan gynnig bygythiadau a chyfleoedd ar gyfer yr economi leol a chenedlaethol.
- 2.15.11 Ceir pryderon ar hyn o bryd ynghylch y posibilrwydd o ddirywiadau economaidd cenedlaethol a byd-eang, oherwydd materion fel cynhyrchiant isel y DU o'i gymharu â chystadleuwyr, twf yn arafu mewn economïau sy'n datblygu megis Tsieina, a gostyngiad mewn prisiau olew byd-eang.

2.16 Cyraeddiadau addysgol a datblygiad cymdeithasol ehangach / sgiliau cyflogaeth / sgiliau byw

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus

Beth sy'n digwydd yn awr a sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.16.1 Y canlyniad pwysicaf oll ar gyfer unrhyw ysgol yw rhoi gwybodaeth a sgiliau i gynifer o ddisgyblion â phosibl er mwyn iddynt ffynnu yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys darparu cymwysterau ar gyfer addysg bellach a chyflogaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd angen iddynt ystyried dulliau eraill o addysgu a meithrin y plant sydd yn eu gofal, gan gynnwys drwy ddatblygiad personol, ac addysgu sgiliau byw.
- 2.16.2 Mae llwyddiant academaidd yn cael effaith gadarnhaol gref ar ymdeimlad goddrychol plant o pa mor dda yw eu bywydau (boddhad bywyd) ac yn gysylltiedig â lefelau lles uwch pan yn oedolion⁸¹.
- 2.16.3 Mae mesuryddion datblygiad personol a lles plant yn gyfyngedig ar hyn o bryd, yn enwedig ar ôl y cyfnod sylfaen mewn addysg (3-7 oed). Fodd bynnag, mae rhai o'r marcwyr ar gyfer datblygiad addysgol yn dangos gwahaniaethau nodedig rhwng cyrhaeddiad plant yn y teuluoedd mwyaf difreintiedig (a nodir gan y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim) a gweddill poblogaeth yr ysgol.


Cyfnod sylfaen (3-7 oed)

- 2.16.4 Mae asesiad cyfnod sylfaen gan athrawon ar gyfer yr holl blant 3-7 oed yn mesur datblygiad personol a chymdeithasol yr holl blant, ynghyd â sgiliau iaith a rhifedd, a datblygiad corfforol a chreadigol. Mae Dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn nodi trothwy cyrhaeddiad lefel 5 ar gyfer yr holl feysydd o ddatblygiad.
- Yn 2015 y gwahaniaeth rhwng plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim oedd oddeutu 19 pwynt canran (71% o gymharu â 90%). Y bwch cyrhaeddiad ar gyfer Cymru oedd pymtheg pwynt canran.
 - Er bod lefelau cyrhaeddiad ar gyfer plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn Sir y Fflint wedi gwella'n sylweddol ers 2012, mae'n parhau i fod yn llawer is na chyfartaledd Cymru. Mae gan Sir y Fflint lefelau

perfformiad sy'n debyg i gyfartaledd Cymru o ran plant sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim⁸².

Siart 2.16.1: canran y plant cyfnod sylfaen sy'n cyflawni canlyniadau lefel 5 o leiaf (dangosydd cyfnod sylfaen – 3-7 oed)

Ffynhonnell: casgliad data asesiad athrawon cenedlaethol, Llywodraeth Cymru



Diffiniad: Mae Dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni canlyniad 5 o leiaf mewn "Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol", "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu-Saesneg"/ "Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu- Cymraeg" a "Datblygiad Mathemategol" mewn cyfuniad.

Cyfnod allweddol 2 (blwyddyn 6)


2.16.5 Mae'r holl ddysgwyr sydd ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2- y cam lle bo disgyblion yn gadael ysgol gynradd ac yn symud ymlaen i addysg uwchradd- yn cael eu hasesu gan eu hathrawon. Y disgwyliad cyffredinol yw bod mwyafrif y plant 11 oed yn derbyn lefel 4 ym mhob pwnc. Mae dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 yn mesur canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad.

- Ar y cyfan yn 2015, roedd lefelau cyrhaeddiad yn agos at gyfartaledd Cymru, er bod disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oddeutu 3 pwynt canran islaw'r gyfartaledd cenedlaethol.
- Mae'r bwch mewn cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim oddeutu yr un fath yn 10-11 oed ag yn ystod y cyfnod sylfaen (3-7 oed) – oddeutu pedwar ar bymtheg o bwyntiau canran (72% o gymharu â 91%).

- Mae'r bwch rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi lleihau ers 2012 o oddeutu 4 pwynt canran (gostyngiad cyfartaledd Cymru oedd 4.3 pwynt canran).

Siart 2.16.2: canran y plant yng nghyfnod allweddol 2 sy'n cyrraedd o leiaf lefel 4 yn y pynciau craidd (10-11 oed).

Ffynhonnell: casgliad data asesiad athrawon cenedlaethol, Llywodraeth Cymru



Diffiniad: Mae dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 yn mesur canran y disgyblion sy'n cyflawni o leiaf lefel 4 mewn Cymraeg neu Saesneg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad.

Cyfnod allweddol 4 – rhai sy'n gadael ysgol (blwyddyn 11)


2.16.6 Mae canlyniadau arholiadau ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n gadael addysg orfodol ar ddiwedd blwyddyn 11 (15 neu 16 oed fel arfer) yn cael eu mesur yn erbyn safon cyrhaeddiad a elwir yn ddangosydd trothwy lefel 2 cyfnod allweddol 4 mewn pynciau craidd. Mae hyn yn gyfwerth â 5 TGAU gradd A* i C gan gynnwys un mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, un mewn mathemateg ac un mewn gwyddoniaeth. Mae'r mesur hwn wedi'i adolygu a bydd yn cael ei ddisodli o 2015/16 ymlaen.

- Ar y cyfan, mae gan Sir y Fflint lefelau cyrhaeddiad sydd bedwar pwynt canran yn uwch na lefel Cymru, ac wedi gweld gwelliant o un pwynt canran a hanner ers 2010/11.
- Mae'r bwch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu derbyn bron i 31% (33% o gymharu â 64%). Bwch cyrhaeddiad Cymru gyfan yw 32%.

- Mae hwn yn fwch llawer mwy na'r hyn a welir yn y cyfnod sylfaen neu gyfnod allweddol 2, gan awgrymu bod anghydraddoldebau yn ehangu wrth i blant symud drwy'r system addysg.
- Nid yw'r bwlch rhwng y rhai sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim wedi lleihau ers 2010/11.

Siart 2.16.3: canran y disgyblion ysgol sy'n cyflawni trothwy lefel 2 TGAU mewn Pynciau Craidd)

Ffynhonnell: casgliad data asesiad athrawon cenedlaethol, Llywodraeth Cymru



Diffiniad: Mae trothwy lefel 2 mewn pynciau craidd yn gyfwerth â 5 TGAU gradd A* i C gan gynnwys un mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, un mewn mathemateg ac un mewn gwyddoniaeth.

2.16.7 Mae data ar gyrhaeddiad trothwy lefel 3 (Lefel A neu gyfwerth) ar gael, ond maent yn cynnwys disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn unig ac mae'n eithrio myfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch. Gan nad yw hyn yn darparu darlun llawn o gymwysterau ar y lefel hon, nid yw'r data wedi'i gynnwys yn yr asesiad hwn.

Sylwebaeth yr awdurdod addysg lleol

2.16.8 O ran y blynyddoedd cynnar, mae addysg statudol a dilyniant ein canlyniadau yn yr holl Gyfnodau Allweddol wedi gwella yn ddiweddar. Bu gwelliannau cadarnhaol yn y categorïau ysgolion cynradd (o dan y model cenedlaethol) ac yng nghanlyniadau dysgwyr yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Mae canran y dysgwyr sy'n gadael ysgol heb gymhwyster a nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn isel. Yn 1.3% yn 2015 roedd cyfran yr unigolion 16+ nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

hyfforddiant yr isaf yng Nghymru a dyma ffigur isaf Sir y Fflint am yr ail flwyddyn yn olynol.

- 2.16.9 Mae canlyniadau arolygon ysgol drwy'r cylched arolwg chwe mlynedd presennol yn unol â'r disgwyliadau safleoedd ar gyfer Sir y Fflint. Mae hyder cyhoeddus mewn addysg leol yn uchel. Rhoddodd pobl Sir y Fflint yr ail sgôr uchaf ar gyfer addysg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2015 (7.1 Sir y Fflint, 7.2 Conwy). Mae cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol yn dda. Mae trefniadau diogelu yn gadarn ac yn cael eu monitro'n ofalus. Mae lefelau presenoldeb diawdurdod yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn parhau'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'r ysgolion uwchradd wedi cyflawni'r lefel cenedlaethol isaf o 0.4%.
- 2.16.10 Fodd bynnag, mae'n rhaid parhau i wella yn yr holl gyfnodau addysg er mwyn hyrwyddo gwydnwch unigol a chymunedol a lles, ynghyd â hyrwyddo mynediad i gyflogaeth gwerth uchel. Mae hyn yn cynnwys gwella canran y disgyblion sy'n cyflawni lefelau uwch mewn pynciau a Dangosydd Pwnc Craidd ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol. Mae arwyddion allweddol y mae'n rhaid i ni ganolbwyntio mwy o ymdrech i adnewyddu ymagweddau gwella ysgolion i sicrhau canlyniadau gwell i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4, gan gynnwys cynyddu lefel 2 cynhwysol mewn 6 ysgol drwy gynyddu canlyniadau mathemateg a/neu Saesneg. Mae angen parhau i wella meincnod perfformiad ysgolion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae angen hyrwyddo mwy o welliant ym mhresenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd drwy gefnogi gostwng lefelau absenoldebau awdurdodedig. Mae'n rhaid i ni barhau i weithio i leihau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a disgyblion sydd ddim yn derbyn prydau ysgol am ddim drwy wella canlyniadau ar gyfer disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Ar ôl addysg orfodol mae'n rhaid i ni barhau i wella mynediad at brentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd gwaith, gyda chefnogaeth benodol ar gyfer ein teuluoedd mwyaf diamddiffyn a chymunedau mwyaf difreintiedig.
- 2.16.11 Mae gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam fel Sefydliad Addysg Uwch rhanbarthol rôl sylweddol i ddelio gyda lles a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi yn rhanbarthol ac ymhellach. Fel prif gyflogwr ac arloeswr gyda phresenoldeb rhanbarthol esblygol mae'r Brifysgol yn mapio holl raglenni ar draws y sectorau twf a blaenoriaeth yn y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol a'r ffocws ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae yna brif ffocws ar gyflogadwyedd a sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad gwerthfawr fydd yn sicrhau fod ganddynt wytnwch personol. Gan fod nifer sylweddol o fyfyrwyr o'r ardal leol mae hyn yn arbennig o bwysig fel bod myfyrwyr lleol yn cael gyrfaoedd o ansawdd da ac yn datblygu mewn sectorau twf o fewn y rhanbarth.

Mae'r Brifysgol yn gweithio mewn partneriaeth gydweithredol gyda holl aelodau statudol y BGC o'r amgylchedd, iechyd, addysg a gwasanaethau brys ac mae'n cyfrannu at ac yn arwain prosiectau sylweddol gan gynnwys gweithio ar y mudiad 2025 i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd, gan ddod â thrylwyredd academiaidd a chymunedau'r sector busnes/cymuned a chyhoeddus ynghyd. Pan mae pobl yn dysgu gyda'i gilydd maent yn gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, yn gwella deilliannau i gymunedau ac aelodau bregus o'r gymdeithas.

Mae cydlyniant cymunedol a gweithgaredd/chwaraeon, iechyd meddwl yn feysydd allweddol a ddatblygir gan y Brifysgol gan ddod â sail tystiolaeth a gwerthusiad yn ogystal ag adnoddau prosiectau. Mae'r Brifysgol yn ymwneud â gweithio gyda grwpiau ac elusennau cymunedol i helpu i sicrhau bod asedau cymunedol a'r set

sgiliau angenrheidiol i gynnal y model cyflenwi hwn fel bod cymunedau yn ffynnu ac yn cysylltu gan fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysiad mewn ardaloedd gwledig a threfol.

Mae'r Brifysgol yn sefydliad addysg uwch hygyrch sy'n ymatebol i fusnesau lleol, addysg ac anghenion cymunedol a gall chwarae rôl allweddol mewn symud tuag at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Sir y Fflint.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.16.12 Mae ystod o ffactorau yn effeithio ar les plant ac mae'n cynnwys eu teimladau goddrychol ynghyd ag agweddau cymdeithasol, corfforol a seicolegol eu bywydau. O ganlyniad, ysgolion yw'r manau allweddol er mwyn llunio lles cyffredinol. Mae iechyd a lles plant a phobl ifanc yn cyfrannu at eu gallu i elwa o addysg o ansawdd da ac i gyflawni eu potensial academaidd llawn.
- 2.16.13 Dengys ymchwil bod gan addysg ac iechyd gysylltiad agos⁸³. Felly mae gan hyrwyddo iechyd a lles disgyblion a myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau'r potensial i wella eu canlyniadau addysgol a'u canlyniadau iechyd a lles.
- 2.16.14 Mae bylchau yn ein gwybodaeth am y materion hyn ar hyn o bryd, ynghyd â'r dystiolaeth sydd ar gael i fesur sgiliau disgyblion heblaw cyrhaeddiad addysgol. Mae hwn yn faes i'w ystyried ar gyfer gwaith yn y dyfodol.
- 2.16.15 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod angen hyrwyddo'r niferoedd a chyfranogiad mewn pynciau STEM ar gyfer yr holl fyfyrwyr ysgol yng Nghymru⁸⁴, ac mae gan y cyngor strwythurau ar waith i gefnogi'r gwaith hwn.
- 2.16.16 Mae tystiolaeth gan gymaryddion rhyngwladol yn awgrymu bod angen gwella'n sylweddol y tu hwnt i lefelau presennol Cymru ar gyfer perfformiad addysgol, er mwyn cystadlu'n fyd-eang. Er hynny, mae gwella cyrhaeddiad addysgol yn arwydd da ar gyfer datblygiad economi'r ardal yn y dyfodol⁸⁵.

2.17 Gwella sgiliau ar gyfer gwaith

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Beth sy'n digwydd yn awr

Tabl 2.17.1: Iefelau cymwysterau uchaf a gynhelir gan boblogaeth oedran gwaith 2015

Ffynhonnell: Arolwg poblogaeth blynyddol, ONS

	Sir y Fflint	Cymru	Y DU
Dim cymwysterau	6.8	9.5	7.9
Is na lefel 2	16.7	13.4	13.6
NQF lefel 2	21.3	19.6	18.8
NQF lefel 3	21.9	21.4	20.2
NQF lefel 4-6	27.6	27.4	-
NQF lefel 7-8	5.8	8.6	-
NQF lefel 4 neu uwch	33.3	36.1	39.5

Diffiniadau

Mae enghreifftiau o'r cymwysterau uchaf ar bob lefel yn cynnwys:
 Is na lefel 2: NQF Lefel 1, cymwysterau lefel mynediad, Sgiliau Sylfaenol
 Lefel 2: NQF lefel 2 neu gyfwerth, 5 TGAU neu fwy A* i C, 2 Lefel AS
 Lefel 3: 2 Lefel A, 4 Lefel AS, NQF lefel 3, Bagloriaeth Cymru Uwch
 Lefel 4-6 : Gradd gyntaf, graddau sylfaen, NQF lefel 4
 Lefel 7-8: cymwysterau ôl-radd, NQF lefel 5.

- 2.17.1 Mae cysylltiad sicr rhwng sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth, ar gyfer yr unigolyn a'r gweithlu ehangach. Mae gwella sgiliau yn gwella gallu'r rhai sy'n ddi-waith i ganfod gwaith. Ar yr un pryd mae gwella sgiliau yn cynorthwyo'r rhai mewn swyddi â chyflog is i symud ymlaen drwy'r farchnad lafur. Wrth i sylfaen sgiliau'r gweithlu gynyddu, mae'r ardal yn fwy deniadol i fuddsoddwyr posibl sy'n dymuno cyflwyno busnesau newydd⁸⁶.
- 2.17.2 Mae newid cyflym yn yr economi cenedlaethol ac economi'r byd, ochr yn ochr â thechnoleg sy'n datblygu'n gyflym, yn golygu bod yn rhaid i'r gweithlu cyfoes feddu ar fwy o sgiliau nag erioed o'r blaen. Mae'n rhaid i'r sgiliau hyn fod yn hyblyg, addasadwy ac y gellir eu trosglwyddo rhwng swyddi a rhwng sectorau cyflogaeth hefyd. Mae parhau i symud oddi wrth economi sy'n seiliedig ar gynhyrchiant i economi sy'n seiliedig ar wasanaeth yn golygu bod yn rhaid i'r gweithlu ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol fwy a mwy, wrth i gyflogaeth ganolbwyntio mwy ar y cwsmer.
- 2.17.3 Mae gan boblogaeth oedran gwaith Sir y Fflint lefelau cymhwyster sy'n is na chyfartaledd Cymru yn gyffredinol. Er bod y ffigurau ar gyfer y rhai heb unrhyw gymhwyster yn is na ffigur y DU, mae cyfran lai o'r boblogaeth wedi cymhwyso i lefel gradd neu uwch (NQF4+). Mae gan fenywod gymwysterau uwch na dynion yn gyffredinol.
- 2.17.4 Mae ystod o gymwysterau academaidd a chymwysterau sy'n gysylltiedig â gwaith wedi'u cynnwys yn yr ystod o sgiliau ar gyfer cyflogaeth. Nid yw'r llwybr ar gyfer addysg uwch a graddau prifysgol yn addas ar gyfer pawb sy'n gadael ysgol neu ddysgwyr sy'n oedolion, ac mae prentisiaethau a chyfleoedd dysgu yn y gwaith yn ffurfio rhan fawr o'r sylfaen sgiliau lleol. Ynghyd â graddedigion addysgedig, bydd economi gymysg wydn angen technegwyr, gweinyddwyr, gweithredwyr manwerthu medrus ac ati. Mae gan ddysgu wrth weithio, cynlluniau prentisiaeth ac addysg uwch ffurfiol rôl sylweddol o ran darparu sgiliau o fewn y farchnad gyflogaeth.

Tabl 2.17.2: rhaglenni dysgu yn seiliedig ar waith 2014/15

Ffynhonnell: Dadansoddiad Rhwydwaith Dysgu, Llywodraeth Cymru (StatsCymru)

	Sir y Fflint		Cymru
	Nifer	Cyfradd*	Cyfradd*
Prentisiaethau			
Pob un 16-64 oed	2,065	21.8	24.5
16-24 oed	1,185	76.0	69.2
Yr holl raglenni dysgu yn seiliedig ar waith			
Pob un 16-64 oed	2,440	25.8	33.2
16-24 oed	1,480	95.0	105.6


*Y gyfradd yw fesul 1,000 o bobl yn y grŵp oedran hwnnw

- 2.17.5 O gymharu â'r gyfradd genedlaethol, mae Sir y Fflint mewn gwell sefyllfa ar gyfer prentisiaethau na'r cyfartaleddau cenedlaethol yn y grŵp oedran 16-24, ond mae diffyg darpariaeth ar gyfer mesuryddion eraill o ddarpariaeth dysgu yn seiliedig ar waith.
- Mae gan yr ardal gyfran uwch na'r cyfartaledd o raglenni yn y sector peirianeg – 17% o brentisiaethau (8% ar gyfer Cymru) a 14% o'r holl raglenni (6% ar gyfer Cymru).
 - Mae gan y sector gweithgynhyrchu gyfran uwch o raglenni dysgu na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu strwythurau cyflogaeth yr ardal, ac yn cael ei ddylanwadu gan y cyrsiau sydd ar gael mewn sefydliadau addysg bellach lleol.
 - Mae rhaglenni dysgu yn y gwaith yn y sectorau rheoli a phroffesiynol a sectorau gofal iechyd a gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tangynrychioli o gymharu â ffigurau Cymru gyfan.
- 2.17.6 Mae ychydig mwy o ferched na dynion yn derbyn prentisiaethau a chynlluniau dysgu yn seiliedig ar waith – mae 52% o'r prentisiaethau yn cael eu llenwi gan ferched yn Sir y Fflint a 57% yng Nghymru.
- 2.17.7 Ynghyd â darparu sgiliau y mae pobl eu hangen ar gyfer cyflogaeth, gall prentisiaethau fod yn ddewis amgen atyniadol i addysg mewn prifysgol ar gyfer pobl ifanc sy'n methu â fforddio neu ddim yn dymuno derbyn y dyledion y gall addysg uwch ffurfiol ei roi i fyfyrwyr. Mae hyn wedi'i gydnabod gan y llywodraeth, a gyflwynodd deddfwriaeth fod yn rhaid i ysgolion hyrwyddo prentisiaethau cymaint ag y maent yn hyrwyddo'r llwybr addysg uwch.
- 2.17.8 Fel rhan o'i ymgais i gynyddu prentisiaethau cyhoeddodd y llywodraeth Ardoll Prentisiaeth newydd ar ddiwedd 2015, sy'n 'dreth cyflogau' newydd i gynorthwyo i ariannu cynnydd mewn prentisiaethau. Wedi'i osod yn 0.5% o fil cyflog y cyflogwyr ac i'w gasglu drwy'r cynllun Talu wrth Ennill, mae'r ardoll eisoes wedi cael effaith sylweddol ar y diwydiant, gyda nifer o gyflogwyr mwy yn creu rhaglenni prentisiaeth newydd o ganlyniad i hynny.
- 2.17.9 Ar gyfer pobl ifanc sydd â llai o ddi-ddordeb mewn mynd i'r brifysgol ac sy'n awyddus ennill wrth iddynt ddysgu, mae'r ardoll yn debygol o greu llwybr deniadol arall i gyflogaeth. Er bod yr ardoll yn cael ei groesawu'n gyffredinol gan gyflogwyr, mae rhannu'r wybodaeth gyda budd-ddeiliaid allweddol eraill yn anoddach. Mae stigma yn gysylltiedig â phrentisiaethau – mae rhieni a phobl ifanc yn gweld mynd i brifysgol fel mesur o lwyddiant.
- 2.17.10 Mae sgiliau y tu allan i'r system addysg ffurfiol hefyd yn bwysig er mwyn derbyn a chadw cyflogaeth. Mae hyn yn cynnwys sgiliau bywyd sylfaenol megis cadw at amser, magu hunanhyder, datblygu sgiliau rhyngpersonol a glendid personol. Mae'n rhaid i ysgolion dderbyn rôl allweddol i ddarparu'r sgiliau hyn i'w disgyblion, yn enwedig ar gyfer plant sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig sy'n methu â'u darparu â'r elfennau cymdeithasol sy'n ofynnol i weithredu'n llwyddiannus yn y gweithle ac yn y gymdeithas ehangach. Mae angen cefnogaeth hefyd ar gyfer pobl ar raglenni hyfforddiant i dderbyn gwaith. Nid yw cymhwyster neu leoliad gwaith ar ei ben ei hun yn ddigon i dderbyn cyflogaeth hir dymor a gwella hyder unigolyn yn eu gallu i ymdopi ym myd gwaith. Efallai y bydd pobl a'r sefydliadau sy'n eu cyflogi angen rhywun i 'ddal eu dwylo' am beth amser ar ôl i'r cynllun neu leoliad swyddogol ddod i ben er mwyn osgoi gadael.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.17.1: y boblogaeth oedran gwaith â chymwysterau NQF lefel 4 ac uwch*, a heb unrhyw gymwysterau



Ffynhonnell: arolwg poblogaeth blynyddol, ONS



* Cyfwerth â NQF 4 ac uwch = Diploma Cenedlaethol Uwch, Gradd a chymhwyster lefel Gradd Uwch
 2.17.11 Mae lefelau cymhwyster yn Sir y Fflint wedi bod yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau ar gyfer y rhai â chymwysterau lefel NQF4 neu uwch yn parhau i fod yn llawer is na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Mae'r ffigurau ar gyfer y rhai sydd heb unrhyw gymwysterau hefyd yn dangos tueddiad cadarnhaol. Mae'r data diweddaraf yn dangos lefelau'n is na chyfartaledd Cymru a'r DU⁸⁷.

Siart 2.17.2: rhaglenni dysgu yn seiliedig ar waith, cyfradd fesul 1,000 o'r boblogaeth*

Ffynhonnell: Dadansoddiad Rhwydwaith Dysgu, Llywodraeth Cymru (StatsCymru)



* Y gyfradd yw fesul 1,000 o bobl yn y grŵp oedran hwnnw

2.17.12 Mae hyfforddiant a phartneriaethau sgiliau hir-sefydlog yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy rhwng sefydliadau academiaidd lleol, y sector cyhoeddus a chwmnïau mawr gan gynnwys Airbus, Tata Steel, Toyota ac UPM. Mae Canolfan Ymchwil, Hyfforddiant a Datblygu Cyfansoddion Uwch yr Ardal, er enghraifft, yn cynorthwyo miloedd o weithwyr Airbus i ddatblygu eu sgiliau, ac roedd hyn o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Prifysgol Glyndŵr, Airbus, Coleg Cambria a Llywodraeth Cymru. Ynghyd â darparu cefnogaeth i filoedd o weithwyr Airbus i

ddatblygu sgiliau, mae hefyd yn gweithio gyda busnesau a'r byd academiaidd ynglŷn ag ymchwil a datblygu.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.17.13 Ar gyfer y sector cyhoeddus, ynghyd â chyfrannu at yr ardoll prentisiaeth, bydd hefyd yn ofynnol iddynt ddiwallu'r gofynion deddfwriaethol a nodwyd yn y Bil Menter. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn amodi ei bod yn ofynnol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus sicrhau bod 2.3% o'u gweithlu yn brentisiaid ar unrhyw adeg. Bydd hyn yn newid sylweddol o bosib i'r modd y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn recriwtio a hyfforddi staff.
- 2.17.14 Cynhyrchodd Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau gyfres o adroddiadau yn 2015 sy'n tynnu sylw at yr heriau y mae sectorau cyflogaeth allweddol yn eu hwynebu⁸⁸.
- **Gweithgynhyrchu uwch** – yn cael ei ddisgrifio'n eang fel gweithgynhyrchu sy'n gwneud defnydd mawr o gyfalaf a gwybodaeth ac angen defnydd lefel uchel o dechnoleg ac Ymchwil a Datblygu. Er y disgwylir i gyflogaeth gweithgynhyrchu ostwng ar y cyfan hyd at 2022, mae amcanestyniadau diweddar yn rhagweld y disgwylir i weithgynhyrchu uwch dyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Disgwylir i rôl y rheolwyr cynhyrchu weld cynnydd yn eu llwyth gwaith, a bydd angen sgiliau busnes uwch ynghyd â derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r technolegau cynhyrchu. Disgwylir cynnydd o ran rôl biocemegwyr a gwyddonwyr biolegol yn y diwydiant. Disgwylir i gynhyrchiant fod yn fwy cymhleth ac y bydd angen lefelau sgiliau uwch ar draws y cyfan. Bydd sgiliau meddalwedd yn ofynnol i gynnal peiriannau. Disgwylir i rolau llinell gydosod ostwng o ran nifer ond y bydd cynnydd o ran lefelau sgiliau – yn enwedig TG – sy'n ofynnol gan y gweithredwyr. Ar draws y DU disgwylir i'r sector fod angen 1.2 miliwn o weithwyr newydd rhwng 2012 a 2022, i gefnogi twf ac i ddisodli'r rhai sy'n gadael y sector.
 - **Sectorau digidol a chreadigol** – Yr heriau recriwtio mwyaf yw'r rhai sy'n ceisio gweithwyr gyda sgiliau digidol. Mae recriwtio graddedigion yn ffynhonnell bwysig o weithwyr ar gyfer y sector, ond mae pryderon bod nifer o raddedigion yn gadael y brifysgol heb y sgiliau technegol diweddaraf, neu'r sgiliau meddal sy'n ofynnol er mwyn bod yn effeithiol yn y gweithle. Mae datblygiadau technolegol cyflym yn arwain at fylchau sgiliau ymysg y gweithlu presennol. Ar yr un pryd, mae cyflogwyr yn wynebu llai o anawsterau recriwtio i rolau sy'n fwy creadigol sy'n atyniadol iawn i'r gweithwyr posibl. Fodd bynnag, byddai'n anghywir nodi gwahaniaeth syml rhwng yr is-sectorau digidol a chreadigol. Mae'r ffiniau rhwng digidol a chreadigol yn fwy a mwy amwys ac mae cyflogwyr yn ceisio cyfuniad o sgiliau technegol a chreadigol, wedi'u cyfuno gyda sgiliau busnes a sgiliau meddal. Bydd y tueddiadau technolegol sylweddol yn cynnwys: twf cryf mewn galw am dechnoleg ar draws yr economi; cynnydd mewn pwysigrwydd o ran diogelwch seibr; cydgyfeiriant cynnwys ar draws y llwyfannau; cyfrifiadura symudol ac ar gwmwl; data a dadansoddi ar lefel fawr, awtomatiaeth tasgau arferol; cymwysiadau newydd ar gyfryngau cymdeithasol; modelau busnes newydd a llwyfannau cyfunol. Gellir dylanwadu ar ddatblygiad y sector yn y dyfodol oherwydd newidiadau rheoleiddiol hefyd.

- **Sector manwerthu** – Mae technoleg newydd yn golygu bod yn rhaid i weithwyr ddiweddarau eu sgiliau TG, sy'n gallu bod yn her ar gyfer gweithwyr hŷn sy'n llai tebygol o feddu ar sgiliau TG da na'r gweithwyr iau. Mae gan y sector cyfanwerthu a manwerthu weithlu â chymwysterau cymharol is, gyda dim ond 22% yn meddu ar gymhwyster mwy na QCF Lefel 4. Mae'r amcanestyniadau yn awgrymu erbyn 2022 bydd meddu ar gymwysterau ar y lefel hon yn rhagofyniad ar gyfer 34% o'r swyddi cyfanwerthu a manwerthu a hanner y swyddi ar draws yr holl ddiwydiannau. Er mwyn diwallu'r sgiliau a ragwelir bydd angen i fanwerthwyr wella sgiliau gweithwyr presennol a denu gweithwyr newydd gyda sgiliau priodol. Mae Arolwg Comisiwn y DU ar gyfer Sgiliau Cyflogwyr 2013 yn dangos bod 55% o'r sefydliadau manwerthu gyda bylchau sgiliau yn nodi bylchau yn sgiliau trin cwsmeriaid eu staff presennol. Mae 60% o gyflogwyr y sector gyda swyddi gwag oherwydd bylchau sgiliau yn cael anhawster recriwtio gweithwyr gyda'r sgiliau hyn.
- **Sector ynni** – Mae polisi ynni sy'n datblygu, technolegau newydd a newid i economi rhad ar-garbon yn hyrwyddo newidiadau mawr o ran defnydd, rheolaeth a storio ynni. Disgwylir i'r cyfuniad o sgiliau y mae cyflogwyr y sector eu hangen ddatblygu yn y dyfodol, i gynnwys sgiliau meddal, sgiliau technegol megis dadansoddi data, ynghyd â gwybodaeth o dechnolegau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg. Mae hwn yn sector sgiliau uchel gyda chyflenwad cyfyngedig o weithwyr medrus a phrofiadol oherwydd bod cystadleuaeth gref ar gyfer sgiliau rhwng yr is-sectorau, sectorau a gwledydd eraill; nifer sy'n derbyn y cymwysterau STEM mwyaf perthnasol i'r sector heb ddiwallu galw'r cyflogwr; gwelededd gwael (a diddordeb o ganlyniad i hynny) yn y sector ynni fel gyrfa ymysg pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid o ddiwydiannau eraill.
- **Iechyd a gofal cymdeithasol** – mae cynnydd mewn galw am ofal, cynnydd o ran **disgwyliadau** cleifion/defnyddwyr gwasanaeth, gwelliannau o ran triniaethau a thechnolegau ac anogaeth wleidyddol a chymdeithasol ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon yn golygu bod disgwyl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol fod yn fwy hyblyg nag yn y gorffennol. Gellir gweld hyn, er enghraifft, yn rôl gynyddol y ffisiotherapydd i ddarparu cefnogaeth ailalluogi mewn lleoliadau cymunedol, a nyrsys cynorthwyol yn cynyddu eu harbenigaeth a thwf o ddarparu swyddogaeth gefnogaeth yn wreiddiol i dderbyn dyletswyddau clinigol ychwanegol. Mae pryderon recriwtio ar gyfer y dyfodol hefyd. Mae'r gweithlu presennol yn bennaf yn fenywod, gyda phroffil oedran hŷn, ac yn fwy cymwys na'r economi yn ei gyfanrwydd. (gweler [adran 2.12 'Pwysau cynyddol ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol'](#) i gael rhagor o wybodaeth)

2.18 Cefnogi busnesau bach

Llewyrchus

Mwy cyfartal

Cydlynus


Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.18.1 Mae cyfran uchel o'r busnesau sy'n hysbys yn yr ardal yn eithaf bach o ran maint⁸⁹. Mae 73% o'r busnesau (355) yn cyflogi llai na 4 o bobl ac mae 14% pellach (700) yn cyflogi rhwng pump a naw o bobl. Mae oddeutu 40% o'r busnesau bach yn gweithredu islaw'r trothwy TAW. Oddeutu 8,700 o bobl neu 7.4% o'r boblogaeth sy'n gweithio yn Sir y Fflint yn hunangyflogedig⁹⁰.
- 2.18.2 Er efallai nad yw busnesau bach yn cynhyrchu cymaint o incwm neu'n cyflogi cynifer o bobl â'r cwmnïau a sefydliadau mawr, yn aml maent yn ffurfio asgwrn cefn yr economi leol. Maent yn llenwi bylchau na all busnesau mawr weithredu oddi mewn iddynt neu nad oes ganddynt ddiddordeb ynddynt, a gallant ymateb i farchnadoedd cyfyngedig neu arbenigol (er enghraifft glanhawyr ffenestri lleol neu ddylunwyr gemwaith).
- 2.18.3 Mae busnesau bach hefyd yn fwy tebygol o ailgylchu eu hincwm o fewn yr economi leol na'r busnesau lleol mawr a'r cwmnïau a sefydliadau cenedlaethol/byd-eang. Mae ymchwil ar wariant awdurdod lleol a gynhaliwyd gan Ffederasiwn y Busnesau Bach⁹¹ yn dangos o bob £1 sy'n cael ei wario gyda busnesau bach neu ganolig, roedd 63c yn cael ei ail-wario yn yr ardal leol o gymharu â 40c ym mhob £1 sy'n cael ei wario gyda busnes mwy.
- 2.18.4 Mae cyflogwyr mwy eraill yn yr ardal yn elwa o bresenoldeb sector busnes bach cryf, gan eu bod yn aml yn darparu nwyddau, gwasanaethau a gwaith contract allanol ar gyfer cwmnïau a sefydliadau mawr.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.18.1: cyfraddau ansolfedd fesul 10,000 o boblogaeth oedolion (18+ oed)

Ffynhonnell: y gwasanaeth ansolfedd



- 2.18.5 Mae'r siart yn dangos cyfradd ansolfedd ar gyfer BSir y Fflint rhwng 2000 a 2015. Yn ystod y dirwasgiad diweddar mae cyfraddau ansolfedd wedi cynyddu'n fwy sylweddol yn yr ardal nag y gwnaethant yn genedlaethol. Mae tystiolaeth anecdotaidd o'r gymuned fusnes leol yn awgrymu bod hyn yn adlewyrchu natur ansicr cyllid busnes bach yn yr ardal, yn rhannol o leiaf.
- 2.18.6 Ers 2011, mae nifer y busnesau bach wedi cynyddu o oddeutu 15% – mae tua 450 yn fwy o fusnesau gyda llai na phedwar o weithwyr a 100 arall sy'n cyflogi rhwng pump a naw o bobl.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.18.7 Mae gan fusnesau bach y potensial i ymateb yn well ac addasu'n gyflym i newidiadau yn yr hinsawdd economaidd, gan fod eu cronïadau cyfalaf/refeniw llai yn gallu eu gwneud yn fwy hyblyg. Gall proses o wneud penderfyniadau sy'n cynnwys dim ond un person ymateb yn llawer cynt na sefydliadau mwy gyda strwythurau rheoli cymhleth. Maent hefyd yn canolbwyntio mwy ar y cwsmer sy'n gallu eu cynorthwyo i gadw sylfaen o gwsmeriaid ffyddlon ac i oroesi yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd.
- 2.18.8 Fodd bynnag, gall cronfeydd wrth gefn cyfalaf/refeniw gyfyngu'r gallu i addasu ac ehangu, a weithiau gall gweithrediadau bach fod â diffyg sgiliau y tu hwnt i'w meysydd busnes craidd. Mae cefnogaeth gan lywodraeth leol a chenedlaethol yn aml yn hanfodol er mwyn cynorthwyo gydag elfennau megis cynllunio busnes a chynllunio ariannol, gwella sgiliau ac ymateb i dechnoleg newydd. Mae gan sefydliadau ymbarél ar gyfer masnach rôl allweddol hefyd.
- 2.18.9 Nid yw busnesau bach yn aros yn fusnesau bach bob tro, ac mae busnesau bach sy'n tyfu i fod yn fusnesau mawr yn aml yn aros yn y gymuned lle y sefydlwyd y busnes. Gall cefnogaeth a buddsoddiad mewn busnesau bach fod yn fuddsoddiad yn nyfodol yr economi leol- a'r economi cenedlaethol neu fyd-eang hyd yn oed.
- 2.18.10** Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth ar gyfer busnesau bach yn faes a allai elwa o gefnogaeth a gwelliant. Efallai y gallai nifer o fusnesau bach llwyddiannus sydd wedi cau oherwydd ymddeoliad y perchennog / rheolwyr barhau pe bai modd canfod olynwyr. Yn aml mae'r rhain yn fusnesau teuluol a fyddent wedi'u pasio ymlaen i'r plant yn draddodiadol. Fodd bynnag, mae gwelliant o ran addysg a chyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y cenedlaethau iau wedi symud oddi wrth y traddodiad hwn, gyda phlant yn gwneud dewisiadau gyrfaol sy'n wahanol i'w rhieni.

2.19 Cefnogi twristiaeth

Llewyrchus

Cydnherth

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.19.1 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint⁹² yn nodi twristiaeth fel elfen allweddol o'r ymagwedd i adfywio'r ardal, mae rhan o hyn yn ymwneud â chreu lleoedd o ansawdd uchel y mae pobl eisiau ymweld â nhw a threulio eu hamser hamdden yno, ynghyd â byw a gweithio yno. Mae lleoedd o ansawdd uchel yn denu buddsoddiad, maent yn gynaliadwy ac yn cynhyrchu eu hynni a'u llwyddiant eu hunain.

- 2.19.2 Gyda bron i 5 miliwn o bobl yn byw o fewn 60 munud o amser gyrru, y dalgylch perffaith ar gyfer ymwelwyr dydd, mae gan Sir y Fflint farchnad enfawr wrth law sydd heb ei chyffwrdd gan fwyaf . Mae'r atyniadau a'r cyfleusterau hamdden allweddol yn yr ardal a allai dderbyn rôl bwysicach yn economi ymwelwyr yn y dyfodol yn cynnwys:
- AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a'r dirwedd wledig ansawdd uchel ehangach yn y Sir;
 - Yr ardal arfordirol a'r llwybrau ar ei hyd;
 - Castell y Fflint;
 - Ffynnon y Santes Gwenffrewi, Abaty Dinas Basing a Dyffryn Maes Glas a chanol tref Treffynnon.
 - Marchnadoedd, canol tref yr Wyddgrug, Theatr Clwyd a Bryn y Beili;
 - Canolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy; a
 - Llyfrgell Gladstone Penarlâg.
- 2.19.1 Mae twristiaeth yn cyffwrdd â sawl maes y mae'r sector cyhoeddus yn gyfrifol amdanynt ac â diddordeb ynddynt, gan gynnwys hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth, cynllunio, adfywio, treftadaeth a diwylliant; mae hefyd yn elwa nifer o sectorau eraill o'r economi gan gynnwys cludiant, manwerthu ac amaethyddiaeth⁹³.
- 2.19.2 Nid ar gyfer ymwelwyr yn unig y mae twristiaeth. Mae iechyd a lles ein preswylwyr yn elwa o fynediad at safleoedd treftadaeth a diwylliant sy'n ffynnu, amgylchedd naturiol wedi'i reoli'n dda, a mynediad at gyfleoedd antur a gweithgareddau ar eu stepen drws.
- 2.19.3 Mae'r ffigurau o adroddiad STEAM ar gyfer 2015⁹⁴ yn dangos:
- yr amcangyfrifir bod twristiaeth wedi denu oddeutu £238.7 miliwn i'r economi leol yn 2015.
 - amcangyfrifir bod Sir y Fflint wedi denu dros 3.6 miliwn o ymwelwyr yn 2015, yn cynnwys 2.8 miliwn o ymwelwyr am y dydd a 0.8 miliwn o bobl sy'n aros dros nos gydag un o'r 95 o ddarparwyr llety yn yr ardal.
 - mae'r arian y mae'r ymwelwyr hyn yn ei wario yn gymorth i gefnogi bron i 3,150 o swyddi i gyd, sef rhwng 4-5% o'r holl gyflogaeth yn yr ardal.
- 2.19.4 Mae mwyafrif y busnesau twristiaeth yn weithrediadau bach, nifer ohonynt yn fusnes teuluol, a'u gwreiddiau'n ddwfn yn y gymuned. Yn ogystal â hyn, mae cysylltiadau cadwyni cyflenwi twristiaeth yn darparu buddion i nifer o fusnesau lleol bach. Yr incwm o dwristiaeth yn aml yw'r gwahaniaeth rhwng llwyddiant a methiant ar gyfer sawl busnes bach. Mae sectorau cyflogaeth/ busnes a gefnogir gan y diwydiant twristiaeth yn Sir y Fflint yn cynnwys atyniadau i ymwelwyr, hamdden, llety, sectorau manwerthu a bwyd, ynghyd â nifer fawr o fusnesau bach lleol megis masnachwyr, cyfanwerthwyr a gwasanaethau cefnogi sy'n darparu gwasanaethau a nwyddau i'r rhai sy'n ymwneud â thwristiaeth yn uniongyrchol.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol


- 2.19.5 Yn y blynyddoedd diwethaf bu cynnydd graddol yn nifer yr ymwelwyr i'r ardal, yn enwedig ymwelwyr dydd. Mae nifer yr unigolion sy'n cael eu cyflogi naill ai'n

uniongyrchol neu'n anuniongyrchol hefyd wedi cynyddu (o 2,850 o swyddi cyfwerth â llawn amser yn 2004 i 3,150 yn 2015). Mae'r mewnbwn i'r economi leol wedi cynyddu o £144.7 miliwn i £238.7 miliwn yn ystod yr un cyfnod.

- 2.19.6 Mae newidiadau i'r economïau cenedlaethol a rhyngwladol wedi'i gyfuno gydag effeithiau ofn gweithgarwch terfysgaeth a gwrthdaro ar deithio rhyngwladol, wedi cael effaith gadarnhaol ar y farchnad dwristiaeth leol, wrth i 'wyliau gartref' ddod yn fwy poblogaidd.

Siart 2.19.1: nifer yr ymwelwyr twristiaeth i Sir y Fflint

Ffynhonnell: Adroddiad STEAM 2015, Global Tourism Solutions (UK) Ltd



Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.19.7 Er ei fod yn perfformio'n dda ar hyn o bryd, mae'r diwydiant twristiaeth lleol yn fregus. Mae rhan fwyaf o'r atyniadau yn dibynnu ar y tywydd ac mae'r diwydiant yn cynnwys nifer fawr o fusnesau bach yn bennaf, gyda gwydnwch cyfyngedig ar gyfer sioc economaidd. Gallai'r diwydiant ymdopi â thymor gwael dros yr haf os yw'n digwydd unwaith, ond gallai hafau gwael dilynol drechu'r sector pwysig hwn. Mae bygythiad difrod llifogydd ar seilwaith a'r amgylchedd naturiol hefyd yn peri pryder.
- 2.19.8 Mae twristiaeth yn ddiwydiant byd-eang ac yn hynod o gystadleuol. Mae strategaeth twristiaeth Cymru 'Partneriaeth ar gyfer Twf' 2013-20 gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod angen canolbwyntio gweithgarwch ar:
- fwy o westai moethus a brand
 - fwy o gyfleusterau lles megis sba
 - fwy o westai treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol ac unigryw

- fwy o atyniadau, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol ar gyfer y flwyddyn gyfan
- fwy o gynnyrch arloesol, anarferol ac unigryw.

2.19.9 Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint yn nodi'r amcanion i:

- wella argaeledd a chydlyniant gwybodaeth i ymwelwyr sy'n diwallu anghenion amrywiol y cwsmeriaid.
- cynnydd yn ansawdd ac ystod y llety i ymwelwyr a'r atyniadau.
- cynnydd ym maint ac amrywiaeth y sector gweithgarwch.
- cynyddu maint ac effaith economaidd digwyddiadau yn Sir y Fflint.

2.19.10 Mae gwaith y Bartneriaeth Rheoli Cyrchfan yn ceisio cyfrannu tuag at:

- yr holl fusnesau twristiaeth yn Sir y Fflint ac ar draws y rhanbarth yn cyflawni eu potensial a bod ymwelwyr yn adrodd profiad o ansawdd uchel yn gyson.
- cynnydd mewn cyflogaeth.
- cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.
- cynnydd yng ngwariant ymwelwyr.

2.20 Cefnogi'r economi weledig

Llewyrchus

Cydnherth

Mwy cyfartal

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

2.20.1 Yr economi amaethyddol yw congflaen cymunedau gwledig ac mae'n bwysig wrth geisio gwella cynaliadwyedd lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun newid hinsawdd, a pharhau i ddiogelu cefn gwlad agored er mwyn sicrhau diogelwch amgylcheddol, diogelwch bwyd, a mynediad at gefn gwlad agored er boddhad i bawb.

2.20.2 Mae dros 1,500 wedi'u cyflogi'n uniongyrchol ym myd amaeth yn yr ardal. Yn seiliedig ar ymchwil yn ardaloedd gwledig Lloegr, mae pob swydd ym myd ffermio yn creu swydd arall yn yr economi leol a allai awgrymu bod effaith ffermio ar yr economi wledig yn llawer uwch.

Tabl 2.20.1: pobl wedi'u cyflogi mewn gwaith amaethyddol, 2013

Ffynhonnell: ystadegau cyfrifiad amaethyddiaeth ardal fechan, Llywodraeth Cymru

	Sir y Fflint
Ffermwyr llawn amser	413
Ffermwyr rhan amser	732
Gweithwyr rheolaidd	229
Achlysurol	182
Yr holl weithwyr amaethyddol	1,556

- 2.20.3 Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn gyfwerth â 7.2% o'r holl fusnesau cofrestredig TAW a PAYE yn Sir y Fflint⁹⁵.
- 2.20.4 Mae ffermwyr yn tyfu'r cynhwysion crai sy'n tanategu cadwyn gyflenwi bwyd y DU, boed yn darparu cynnyrch ar gyfer y farchnad organig leol neu'r archfarchnadoedd mawr. Mae eu cynydau a'u da byw yn cyfrannu at ein diogelwch bwyd lleol a chenedlaethol, ynghyd â darparu nwyddau allforio. Mae cynnyrch sy'n cael ei ddarparu'n lleol yn cyflenwi nifer o'n cynhyrchwyr bwyd a bwytai sy'n bwysig ar gyfer yr economi ehangach. Mae economi fwyd leol sy'n ffynnu hefyd yn cynorthwyo i gefnogi a hyrwyddo mentrau bwytai'n iach.
- 2.20.5 Mae ffermwyr hefyd yn rheoli dros 75% o'r holl yn Sir y Fflint, gyda ffermwr cyfartalog yn treulio oddeutu pythefnos a hanner yn cynnal y gwrychoedd a'r waliau bob blwyddyn⁹⁶. Gall rheolaeth ffermwyr a gweithwyr amaethyddol o dir amaethyddol, tir cyffredin, coedwigoedd, cyrsiau dŵr a thirweddau eraill gyfrannu at nodau amgylcheddol, ac mae'n gymorth i gynnal cefn gwlad fel ysgyfaint y DU.
- 2.20.6 Mae'r cysylltiadau rhwng ffermio a thwristiaeth yn gryf iawn. Mae nifer o'n hardaloedd o harddwch naturiol eithriadol yn cael eu cynnal a'u rheoli gan ein ffermwyr, ac yn rhannol gyfrifol am ddenu dros 3.5 miliwn o ymwelwyr i Sir y Fflint bob blwyddyn⁹⁷.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.20.7 Ar y cyfan mae'r niferoedd sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth wedi gostwng o oddeutu 10% rhwng 2003 a 2013 (o 1,709 i 1,556), wedi'i gymhell yn bennaf gan y gostyngiad yn nifer y ffermwyr llawn amser a rhan-amser. Fodd bynnag, mae nifer y gweithwyr amaethyddol achlysurol wedi cynyddu, gan awgrymu newid sylweddol yn niogelwch cyflogaeth yn y sector amaethyddol, a newid posibl yn nhenantiaeth/perchnogaeth tir amaethyddol.
- 2.20.8 Mae cynllunio olyniaeth yn parhau i fod yn fater allweddol ar gyfer y sector. Yn draddodiadol, byddai ffermydd a chyflogaeth gysylltiedig yn y sector yn cael ei basio ymlaen o'r rhieni i'r plant, ond yn ddiweddar mae'r genhedlaeth iau wedi tueddu i ddewis gyrfaoedd gwahanol. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i newid mewn disgwyliadau, ond hefyd mewn ymateb i newid yn yr economi cenedlaethol, sy'n golygu bod ffermio yn llai proffidiol nag ydoedd ar gyfer y cenedlaethau blaenorol. Nid yw ffermydd teuluol yn sicr o ddarparu cyflogaeth ar gyfer holl blant y ffermwyr bellach, a hyd yn oed pan fo gwaith ar gael, nid yw'r incwm y mae'n ei ddarparu yn ddigonol er mwyn dal i fyny â'r costau byw presennol (gan gynnwys tai). Mae pwysau ariannol yn y sector amaethyddol hefyd yn golygu bod nifer o ffermwyr yn gorfod parhau i weithio'n hŷn, gan leihau cyfleoedd ar gyfer ffermwyr iau i ddechrau yn y diwydiant.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.20.9 Mae diboblogaeth wledig, yn enwedig ymysg pobl o oedran gwaith yn bryder, sy'n effeithio ar hyfywedd gwasanaethau'r sector cyhoeddus a phreifat megis ysgolion gwledig, cludiant cyhoeddus, siopau pentref a grwpiau cymunedol. Yn ei dro gall hyn arwain at ostyngiad mewn cyflogaeth a chyfleoedd cymdeithasol, sy'n cymhell diboblogaeth pellach.
- 2.20.10 Mae pobl ifanc yn gadael yr ardal ar gyfer addysg a chyflogaeth, ac nid ydynt yn derbyn swyddi ffermio. Mae hyn yn golygu bod y boblogaeth wledig yn ei chyfanrwydd ac yn enwedig y gweithlu amaethyddol, yn heneiddio.

- 2.20.11 Mae posibilrwydd y bydd effaith pleidlais Brexit ar yr economi wledig yn sylweddol iawn. Ar hyn o bryd mae sector amaethyddol Sir y Fflint yn derbyn miliynau o bunnoedd bob blwyddyn mewn taliadau uniongyrchol fel rhan o Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd, ac mae ardaloedd gwledig yn elwa o raglenni a mentrau cyllid amrywiol eraill yr UE. Nid yw'n hysbys sut y bydd y gefnogaeth yn cael ei disodli ar hyn o bryd.

2.21 Ased economaidd allweddol – Glannau Dyfrdwy

Llewyrchus

Cydnherth

Mwy cyfartal

Cydllynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.21.1 Mae Glannau Dyfrdwy yn gartref i weithgynhyrchu medrus, cyfoes ar draws amrywiaeth o sectorau – o awyrfod a moduron i electroneg a chynhyrchion fferyllol i adeiladu, bwyd ac ynni cynaliadwy. Mae Glannau Dyfrdwy yn cael ei gydnabod fel prif ganolfan economaidd ar gyfer Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr ac yn rhan o'r cynlluniau twf ar gyfer y ddwy ardal.
- 2.21.2 Mae'r asedau allweddol yn cynnwys:
- Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, sydd ag ardaloedd mawr sy'n gymwys ar gyfer cymorth buddsoddiad cyfalaf.
 - dros 2 filiwn o bobl yn byw o fewn 30 munud o daith mewn car.
 - treftadaeth gweithgynhyrchu cryf, sgiliau gweithgynhyrchu a thechnoleg arloesol.
 - datblygu sgiliau gweithgynhyrchu uwch o safon y byd ac ymchwil gan golegau a phrifysgolion lleol.
 - lleoliad ar lwybr TEN-22, 30-60 munud i sawl porthladd mawr a meysydd awyr a munudau o rwydwaith traffyrdd y DU.
- 2.21.3 Mae Porth y Gogledd o fewn Glannau Dyfrdwy yn safle datblygu parod strategol, 90 hectar (222 erw) y deallir i fod y datblygiad mwyaf a arweinir gan y sector preifat yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae ganddo'r potensial i greu hyd at 7,000 o swyddi newydd a hyd at 1,200 o gartrefi newydd.
- 2.21.4 Mae datblygiad safle Warren Hall ym Mrychdyn yn cynnig y potensial ar gyfer 3,000 o swyddi newydd a 300 o dai newydd.
- 2.21.5 Mae'r Ganolfan Amlen Adeiladu Cynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu datrysiadau carbon isel a di-garbon ar gyfer yr amgylchedd adeiledig, wedi'i ariannu ar y cyd gan Tata Steel, Sefydliad Ymchwil Carbon Isel a Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn gweithio'n agos gyda chwmnïau technoleg eraill yng Nghymru ac yn cynorthwyo i ddatblygu cadwyni cyflenwi i osod a chynnal unrhyw ddatrysiadau sy'n dod i'r amlwg.
- 2.21.6 Mae busnesau newydd yn cael eu cefnogi drwy brentisiaethau a hyfforddiant unigryw gan golegau partner a phrifysgolion. Mae Coleg Cambria eisoes yn darparu hyfforddiant ac yn datblygu'r gweithlu yn unigryw ar gyfer cwmnïau ar draws yr Ardal ac maent wedi datblygu Canolfan ymroddedig ar gyfer Hyfforddiant Awyrfod mewn ymateb i alw cyflogwr lleol.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.21.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datblygiad Canolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru yn ddiweddar i arwain ymchwil a datblygiad, sgiliau lefel uwch a thrawsnewid technolegau newydd yn gynnyrch masnachol.
- 2.21.8 Gyda Phorth y Gogledd a Warren Hall yn symud yn agosach at eu datblygu, bydd Glannau Dyfrdwy yn gallu darparu cyfleoedd twf sylweddol yn y dyfodol. Bydd y twf hwn, er hynny, yn cael ei gyfyngu gan sawl rhwystr yn hirdymor.
- Mae sawl busnes mawr yng Nglannau Dyfrdwy yn gangen o'r busnes yn unig gyda'r swyddogaethau ymchwil a'r pencadlys mewn mannau eraill yn y byd. Mae perygl, yn enwedig mewn cyfnod o ansicrwydd, y bydd canghennau Glannau Dyfrdwy yn methu â chystadlu am waith yn y dyfodol yn erbyn canghennau mewn gwledydd eraill.
 - Nid yw'r seilwaith ffyrdd a rheilffyrdd o amgylch Glannau Dyfrdwy a'r ardal ehangach wedi derbyn buddsoddiad sylweddol ers sawl blwyddyn ac mae eisoes yn llawn mewn rhai ardaloedd hanfodol. Nid yw'n caniatáu teithio effeithiol i'r gwaith o fewn Glannau Dyfrdwy nac yn hwyluso'r defnydd o opsiynau cludiant cynaliadwy. Mae ardaloedd o dagfeydd sylweddol o ganlyniad i hyn.
 - Mae diffyg cydweddiad rhwng dyheadau gyrrfaol pobl ifanc ac anghenion cyflogwyr. Mae hyn yn golygu bod cyflogwyr yn aml yn cael trafferth recriwtio gweithlu medrus.
 - Mae pocedi o bobl yn yr ardal nad ydynt yn rhannu'r ffyniant economaidd cyffredinol yn briodol. Mae angen gweithredu i fynd i'r afael â bod heb waith ac annog dilyniant yn y gweithle i fynd i'r afael â phroblem gynyddol tlodi mewn gwaith.
- 2.21.9 Mae goresgyn y rhwystrau hyn yn flaenoriaethau o fewn y gweledigaethau twf a fynegwyd gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynghrair Merswy a Dyfrdwy. Mae'r partneriaid o fewn y ddau gorff rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd a chyda Llywodraeth Cymru a'r DU i sicrhau buddsoddiad a'r pwerau datganoledig sy'n ofynnol i ddarparu twf economaidd yn y dyfodol.

2.22 Ased allweddol – diogelu'r amgylchedd naturiol a bioamrywiaeth

Llewyrchus

Cydnorth

Iachach

Cydlynus

Diwylliant

Byd-eang

- 2.22.1 Mae gan yr ardal dirwedd hynod o amrywiol yn amrywio o ddyffrynnoedd isel i lwyfandiroedd uchel agored sy'n cynnwys ardaloedd gwledig a diwydiannol. Mae Sir y Fflint yn cynnwys dynodiadau gwarchod natur rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.

Mae safleoedd wedi'u dynodi yn rhyngwladol yn y sir yn cynnwys:

- Aber Afon Dyfrdwy
- Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid
- Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle
- Mynydd Helygain
- Coed Dyffryn Alyn

- Mynyddoedd Berwyn a De Clwyd

Mae gan y sir gyfanswm o dros 23 o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a dros 300 o safleoedd bywyd gwyllt a ddynodwyd yn lleol. Mae'r rhain yn cynnwys cynefinoedd sensitif gan gynnwys cors bori arfordirol ac ar orlifdir (5% o adnodd Cymru), Glaswelltir Calchaid iseldir (17% o adnodd Cymru), Morfa Heli (12% o adnodd Cymru), rhostir, corsleoedd, glaswelltir metelaidd, pyllau a thwyni tywod arfordirol. *Mae'r cynefinoedd hyn yn darparu ar gyfer rhywogaethau prin megis Madfallod y Twyni, llyffantod Cefnfelyn, Ystlumod, Pathewod, Dyfrgwn, Madfallod Dŵr Cribog a miloedd o adar rhydiol ar aber Afon Dyfrdwy.

Mae Sir y Fflint yn gadarnle ar gyfer y fadfall ddŵr gribog. Mae pwysau datblygu cryf o amgylch safleoedd Madfall Ddŵr Gribog Ewropeaidd allweddol yn y Sir. Bydd dyfodol y rhywogaeth yn Sir y Fflint yn dibynnu ar gynnal cysylltiadau cynefinoedd drwy'r dirwedd sy'n datblygu, mae hyn hefyd yn hanfodol ar gyfer cynnal tirwedd ac ecosystemau a fydd yn gryf mewn hinsawdd sy'n newid.

Mae aber Afon Dyfrdwy a Bae Lerpwl yn ddynodiadau morol sy'n rhyngwladol bwysig. Mae gwaddodion morol cyfoethog y dyfroedd a'u hagwedd gysgodol yn darparu cynefinoedd niferus ar gyfer nifer helaeth o rywogaethau pwysig a rhywogaethau a warchodir, a gaiff ei adlewyrchu mewn sawl Ardal Gwarchoddedig Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n cynnwys amrywiaeth o adar dŵr.

Yn ogystal, mae nifer o safleoedd a chynefinoedd heb eu dynodi sydd â gwerth gwarchod natur ac sy'n elfennau allweddol o ran bioamrywiaeth y Sir. Mae'r rhain yn cynnwys nentydd a choetiroedd – yn arbennig y rhai o darddiad lled-naturiol hynafol.

Mae'r ardaloedd diwydiannol mawr yn Sir y Fflint yn amlygu angen busnesau i fod yn perfformio'n gynaliadwy ac i ymgysylltu'n llawn ag amcanion cadwraeth. Mae llawer o enghreifftiau da o gysylltiadau rhwng gwaith busnes a chadwraeth yn Sir y Fflint, mae angen adeiladu ar y partneriaethau hyn a'u hybu.

- 2.22.2 Mae'r ardal yn cynnig sawl cyfle i gysylltu cynefinoedd tameidiog drwy-er enghraifft- coetiroedd dyffrynnoedd. Yn debyg i sawl Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru, mae nifer ohonynt yn fach a thameidiog ac felly'n agored i niwed oherwydd newidiadau rheolaeth a dylanwad defnydd tir cyfagos. Mae gostyngiadau cyllid y sector cyhoeddus hefyd yn golygu gostyngiad o ran monitro Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn y dyfodol gall olygu gostyngiad mewn cyllid ar gyfer cytundebau Adran 15 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n talu perchnogion tir i gynnal y safleoedd. Mae materion eraill yn cynnwys perchnogion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn heneiddio ac yn ymddeol gan fynd â'r wybodaeth ynglŷn â sut i reoli'r safleoedd hyn gyda nhw.
- 2.22.2 Mae coetiroedd yn gorchuddio 8.8% o'r sir- ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 14%. Mae gan y sir ardaloedd dinesig/diwydiannol yn bennaf o gymharu â sawl ardal yng Nghymru. Mae'n cynnwys blociau bach o goetir fferm a rhai ystadau gwledig (megis Penarlâg) ynghyd ag ardaloedd mwy o goedwigoedd, megis Nercwys a Moel Famau yn ne'r sir. Mae coetir sylweddol mewn parciau gwledig fel Parc Gwepa yng Nghei Connah a Pharc Gwledig Maes Glas ger Treffynnon hefyd.

Mae coetiroedd llydanddail yn cynnwys coetiroedd dyffryn bach yn bennaf sy'n cynnwys coed onn yn bennaf.

Mae materion sy'n gysylltiedig â choed a choedwigoedd yn cynnwys pwysau cymdeithasol fel beicio modur oddi ar y ffordd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; tipio anghyfreithlon; pwysau o ddatblygu a diffyg tir sydd ar gael y mae perchnogion yn barod i blannu arno. Mae adfer, ymestyn a gwella cyflwr ein coetir yn allweddol i'w gwneud yn fwy cryf a gallu darparu amrywiaeth ehangach o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

- 2.22.3 Mae'r prif ardaloedd o fawn dwfn yn y sir ar Fynydd Helygain ac yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd. Gall cynefinoedd mawnog dderbyn rôl bwysig i reoli dŵr, arafu dyfroedd llifogydd a lleihau perygl llifogydd i lawr yr afon. Drwy ryddhau dŵr yn araf yn ystod y cyfnodau sych, mae mawn yn gymorth i leihau effaith sychder ar gyflenwadau dŵr ac ar lif afonydd a nentydd.
- 2.22.4 Mae'r prif ardaloedd o fawn dwfn yn y sir yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE). Gall cynefinoedd mawnog chwarae rôl bwysig o ran rheoli dŵr, gan arafu dŵr llifogydd a lleihau risg llifogydd yn naturiol i lawr yr afon. Drwy ryddhau dŵr yn araf yn ystod cyfnodau sych, mae tir mawnog yn helpu i leihau effaith sychder ar gyflenwadau dŵr ac ar lif afonydd a nentydd.
- 2.22.5 Mae ein profiadau a'n rhyngweithiad gyda thirweddau naturiol wedi dangos eu bod yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a'n lles. Mae tirweddau deniadol, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol a llonyddwch yn darparu cyfleoedd a buddion ar gyfer cymunedau iach, hamdden, twristiaeth a gweithgarwch economaidd.
- 2.22.6 Mae tirweddau naturiol yn darparu lleoliadau lle y gellir canfod cyfleoedd ar gyfer mynediad a mwynhad, gan ddenu pobl a chyfrannu at ffyrdd o fyw iach a lleihau pwysau yn yr holl grwpiau oedran. Mae chwarae naturiol yn gwella datblygiad plant ac mae cleifion mewn ysbytai gyda golygfa o fannau gwyrdd a natur yn gwella'n gyflymach. Mae tirweddau yn darparu lleoliadau a chyfleoedd ar gyfer mynediad a mwynhad, gan ddenu ffyrdd o fyw iach a lleihau pwysau yn yr holl grwpiau oedran. Mae astudiaethau wedi dangos bod cysylltiadau cadarnhaol sylweddol rhwng lles meddyliol a chorfforol a chynyddu coed a manau gwyrdd mewn ardaloedd trefol. Mae gan blant sy'n byw mewn ardaloedd gyda mwy o goed ar y stryd, er enghraifft, llai o achosion o asthma..
- 2.22.7 Mae gwerth economaidd mewn tirweddau naturiol fel cyrchfannau ar gyfer ymwelwyr, ond hefyd fel manau i gymunedau ffynnu. Mae tirweddau Cymru â gwerth o £8 biliwn y flwyddyn (gyda £4.2 biliwn o dwristiaeth), a gwerth diwydiannau sy'n seiliedig ar Goedwigaeth yw £400 miliwn y flwyddyn i economi Cymru.
- 2.22.8 Mae gwerth economaidd mewn tirweddau fel cyrchfannau i ymwelwyr, ond hefyd fel lleoedd i gymunedau ffynnu. Mae tirweddau Cymru werth £8 biliwn y flwyddyn (gyda £4.2 o dwristiaeth). Mae diwydiannau coedwigaeth werth mwy na £400 miliwn y flwyddyn i economi Cymru ac mae Peillio werth £430 miliwn i economi'r DU gyda gwerth cyfanwerthu mêl a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2011 fwy na £2 miliwn.

Mae Peillwyr yn rhan hanfodol o'r amgylchedd yn Sir y Fflint ac ar gyfer Cymru gyfan. Mae gwenyn a pheillwyr gwyllt gan gynnwys cacwn, gwenyn unig, gwenyn meirch parasitig, pryfed hofran, gloynnod byw a gwyfynod a rhai chwilod yn beillwyr pwysig ar draws amrywiaeth o gnydau a blodau gwyllt gan wella

cynhyrchiant tir pori ar gyfer pori da byw. Mae poblogaethau iechyd gwenyn a pheillwyr sy'n dirywio wedi eu hamlygu'n gynyddol fel achos pryder yn y DU. Ar hyn o bryd mae 43 rhywogaeth o loynnod byw yng Nghymru, mae 10 yn dirywio'n ddifrifol ac mae 17 yn dirywio. Ar y cyfan mae 63% o loynnod byw Cymru yn dirywio. Mae 337 o wyfynod macro (mwy) dros ardal eang wedi'u cofnodi yng Nghymru. Mae 93 o wyfynod macro dros ardal eang yng Nghymru yn cael eu cyfrif fel naill ai 'mewn perygl' neu 'diamddiffyn' dan feini prawf yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur. Mae 28% o wyfynod Cymru dros ardal eang yn dirywio'n ddifrifol ar y cyfan. (Llywodraeth Cymru, 2013).

Mae ymchwil yn dangos bod gostyngiad o 23% yn y gwenyn mêl yng Nghymru rhwng 1985 a 2015. Mae dolydd blodau gwyllt a chynefinoedd lled-naturiol eraill sy'n cefnogi peillwyr hefyd wedi gostwng o ran arwynebedd.

*ffigyrau o adroddiad CCGC Welsh habitat targets disaggregation 2007 a oedd yn seiliedig ar Priority Habitats of Wales a Technical Guide (PHW) (Jones et al, 2003)

2.23 Newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon

Llewyrchus

Cydnherth

Cydlynus

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

2.23.1 Cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar gyfer Newid Hinsawdd Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU 2017¹. Mae'n nodi bod

“[t]he global climate is changing, with greenhouse gas emissions from human activity the dominant cause... Global emissions will need to peak soon and then decline rapidly for the Paris Agreement goals to be feasible. Even in this scenario the uncertain sensitivity of the climate to greenhouse gases means there would remain at least a small chance of 4°C or more of warming by 2100. It is therefore prudent to prepare for further warming whilst pursuing more stringent emission reductions as part of the global effort.”

A bod

“[c]hanges to the UK climate are likely to include periods of too much or too little water, increasing average and extreme temperatures, and sea level rise.””

2.23.2 Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad mai'r peryglon mwyaf brys ar gyfer y DU o ganlyniad i'r newidiadau hyn yw:

- **peryglon llifogydd a newid arfordirol** i gymunedau, busnesau a seilwaith.
- peryglon i **iechyd, lles a chynhyrchiant** oherwydd tymereddau uchel
- peryglon o ran **diffyg yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus** a dŵr ar gyfer amaethyddiaeth, cynhyrchu ynni a diwydiant, gydag effaith ar ecoleg dŵr croyw.
- peryglon i **gyfalaf naturiol**, gan gynnwys ecosystemau, priddoedd a bioamrywiaeth ddaearol, arfordirol, morol a dŵr croyw
- peryglon i **gynhyrchiad a masnach bwyd rhyngwladol a domestig**.
- peryglon o ran **plâu ac afiechydon newydd sy'n dod i'r amlwg**, a rhywogaethau estron goresgynnol, sy'n effeithio ar bobl, planhigion ac anifeiliaid.

2.23.3 Yn ogystal â hyn mae Strategaeth Hinsawdd Cymru 2010 yn dod i'r casgliad bod

“heb ostyngiadau radical ar unwaith ac y gellir eu cynnal i'r allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws y byd, bydd canlyniadau difrifol ar gyfer y gymdeithas ddynol, ynghyd ag ar gyfer bioamrywiaeth a'r ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau hanfodol ar gyfer bywoliaeth ddynol. At

¹ Mae Deddf Newid Hinsawdd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU lunio asesiad o beryglon a chyfluoedd sy'n codi ar gyfer y DU oherwydd newid hinsawdd, bob pum mlynedd, a elwir yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd. Mae Adroddiad Tystiolaeth ASC a gyhoeddwyd heddiw yn hysbysu ail Asesiad Risg Newid Hinsawdd y Llywodraeth a fydd yn cael ei gyflwyno i Senedd y DU ym mis Ionawr 2017. Mae'r adroddiad o ganlyniad i dros dair blynedd o waith yn cynnwys cannoedd o wyddonwyr arweiniol ac arbenigwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a chymdeithas sifil. Mae'r asesiad risg wedi derbyn adolygiad cyfoedion gan arbenigwyr y DU ac arbenigwyr rhyngwladol.

hynny, mae dadansoddiad economaidd yn awgrymu y bydd gweithredu yn awr yn lleihau costau torri allyriadau yn y dyfodol. O ran addasu i effeithiau'r hinsawdd yn y dyfodol hefyd, y cynharaf y byddwn yn dechrau paratoi, drwy ddeall ein diamddiffynedd a datblygu capasiti i ymdopi, byddwn mewn sefyllfa well i ymateb yn briodol."


- 2.23.4 Gosododd Llywodraeth y Deyrnas Unedig dargedau i leihau allyriadau carbon o 34% erbyn 2020 ac o 80% erbyn 2050 (yn erbyn gwaelodlin 1990) fel rhan o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Mae'r rhain yn dargedau heriol iawn er mwyn lleihau allyriadau carbon a'u cymhwyso i gyrrff domestig, masnachol a sector cyhoeddus. O'r herwydd mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i leihau 3% flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae disgwyl i'r sector cyhoeddus arwain trwy esiampl⁹⁸.
- 2.23.5 Er bod gan y sector cyhoeddus ei hunan allyriadau CO2 cymharol isel (dim ond oddeutu 2% o gyfanswm y DU), nid lleihau ôl-troed carbon ei sefydliadau yw'r unig rôl sydd gan y sector cyhoeddus, ond i arwain a chynorthwyo'r gymuned ehangach i newid ei ymddygiad.
- Mae'r sectorau cynhyrchu ynni a chludiant yn gyfrifol am oddeutu traean o allyriadau CO2 (neu chwarter o'r holl nwyon tŷ gwydr).
 - Er nad yw'r sector cynhyrchu ynni (ynghyd â'r diwydiant trwm) yn ffurfio rhan o darged 3% Llywodraeth Cymru, mae gweithredu yn y maes hwn yn bwysig a gall y sector cyhoeddus weithio gyda busnesau cynhyrchu ynni a busnesau sy'n defnyddio llawer o ynni i'w cefnogi i leihau allyriadau drwy gefnogi datblygiad sy'n effeithlon o ran ynni a gwella cadwyni cyflenwi drwy'r broses gynllunio. Gellir rhoi cefnogaeth i gynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy hefyd megis ynni morol ac ynni gwynt.
 - Mae potensial sylweddol ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus i gynorthwyo i leihau allyriadau cludiant drwy systemau a seilwaith cludiant wedi'i ariannu gan lywodraeth leol, a chynllunio teithio y gellir ei gyflawni gan yr holl sefydliadu sector cyhoeddus.
 - Mae'r sector busnes (heb gynnwys allyriadau uniongyrchol o gynhyrchu ynni) yn gyfrifol am oddeutu 17% o'r allyriadau CO2 (neu 14% o'r holl nwyon tŷ gwydr). Ymysg pethau eraill gall y sector cyhoeddus ddylanwadu ar arloesi carbon isel drwy ymgorffori gweithred carbon isel mewn fframweithiau caffael a sicrhau bod eu contractau gyda chyflenwyr a darparwyr gwasanaeth yn cynnwys amodau penodol ar garbon isel, effeithlonrwydd ynni a chynaliadwyedd.
 - Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr o gartrefi ar draws Cymru yn gyfrifol am oddeutu 16% o'r holl allyriadau CO2 (neu 13% o'r holl nwyon tŷ gwydr). Drwy hyrwyddo effeithlonrwydd ynni yn y stoc tai newydd a phresennol a thrwy ei waith ar ddiwallu targedau gwastraff ac ailgylchu, mae gan y sector cyhoeddus sawl cyfle i ymgysylltu â sefydliadau yn y sector preswyl i annog gostyngiad mewn allyriadau.
- 2.23.6 Fel rhan o'r ymgyrch i leihau allyriadau carbon mae llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyflwyno Ymrwymiad i Leihau Carbon. Tra mai'r bwriad yn wreiddiol oedd sefydlu cynllun masnachu carbon, mae wedi datblygu yn fath o dreth carbon sydd i'w thalu gan bob sefydliad dros faint penodol. Wrth i gost yr ardoll carbon gynyddu bob blwyddyn, bydd y pwysau i leihau allyriadau carbon yn cynyddu.

- 2.23.7 Am ddeuddeg mis hyd at Ch1 2016 amcangyfrifwyd cyfanswm allyriadau nwyon tŷ gwydr ar draws y DU fel 483.0 miliwn o dunelli cyfwerth â charbon deuocsid (MtCO₂e)⁹⁹.
- 2.23.8 Mae ynni adnewyddadwy yn unrhyw ffynhonnell ynni sy'n digwydd yn naturiol ac nad yw'n dod i ben, megis gwynt, ynni'r haul, ynni tonnau ac ynni dŵr. Mae rhai diffiniadau hefyd yn cynnwys nwyon tirlenwi a charthion. Ynghyd â lleihau dibyniaeth ar danwyddau ffosil a darparu ynni glanach, mae datblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan yn hanfodol er mwyn diwallu targedau Llywodraeth y DU a'r UE ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau diogelwch tanwydd. Yn ei Ddatganiad Polisi Ynni 2010, 'Chwyldro carbon isel', nododd Llywodraeth Cymru ddyheadau â chyfanswm o 22.5 gigawat o gapasiti wedi'i osod o dechnolegau ynni adnewyddadwy gwahanol yng Nghymru erbyn 2020/25. Y capasiti ar hyn o bryd yw dim ond 2.2 gigawat yng Nghymru, felly mae'n bell o'r targed hwnnw¹⁰⁰.
- 2.23.9 Mae cynhyrchu ynni yn gyfrifol am oddeutu 30% o allyriadau carbon y DU¹⁰¹.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.23.1: Cyfansymiau blynyddol allyriadau nwyon tŷ gwydr chwarterol y DU, y flwyddyn hyd at Ch1 2009 tan y flwyddyn hyd at Ch1 2016

Ffynhonnell: ystadegau swyddogol allyriadau chwarterol dros dro'r DU Ch1 2016, Adran Ynni a Newid Hinsawdd



- 2.23.10 Mae Adroddiad Tystiolaeth Asesu Risg Newid Hinsawdd y DU 2017 yn dangos bod cynnydd byd-eang o ran tymheredd o 0.85°C ers 1880 yn cael ei adlewyrchu yn hinsawdd y DU, gyda thymhereddau cyfartalog uwch a rhywfaint o dystiolaeth o ddigwyddiadau tywydd sy'n fwy eithafol. Mae tymhereddau cyfartalog blynyddol y DU dros dir a'r moroedd amgylchynol wedi cynyddu yn unol ag arsylwadau byd-eang, gyda thuedd tuag at aeafau mwynach a hafau poethach yn y degawdau diweddaraf. Mae lefelau'r môr yn fyd-eang ac ar draws y DU wedi

cynyddu o 15-20 centimetr ers 1900. Tra y bydd amrywiadau naturiol yn yr hinsawdd yn parhau i gael cryn ddylanwad ar ddigwyddiadau tywydd unigol, mae cyfnodau diweddar o law trwm a pharhaus yn cyd-fynd â amcanestyniadau newid hinsawdd".

- 2.23.11 Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ers 2009. Am y deuddeg mis hyd at Ch1 2016, cafwyd gostyngiad o -32.1 MtCO₂e (-6%) o gymharu â'r un cyfnod yn 2015. Dros y cyfnod o saith mlynedd ers 2009, cyfanswm gostyngiad Ch1 mewn allyriadau blynyddol yw -153.7 MtCO₂e neu -24%.
- 2.23.12 Mae'r holl sectorau wedi gweld gostyngiad mewn allyriadau CO₂ ers 2009. Cafwyd y gostyngiad mwyaf yn y sector cynhyrchu ynni a ostyngodd o oddeutu -40% neu -86 MtCO₂e yn y cyfnod o saith mlynedd ers Ch1 2009. Cafwyd y gostyngiad lleiaf yn y sector cludiant gyda dim ond -2% neu -2.4 MtCO₂e. Gostyngodd y sector cyhoeddus eu hallyriadau o -21% neu -2.1 MtCO₂e.
- 2.23.13 Mae'r DU yn defnyddio 17% yn llai o ynni nag ydoedd yn 1998, ac mae mwy o'r ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Ar yr un pryd, mae canran yr ynni sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy a gwastraff (megis gwynt, ynni dŵr a biomas) wedi cynyddu o 1% o gyfanswm defnydd ynni'r DU i 9%. Fodd bynnag, mae gostyngiad o ran cynhyrchiad nwy ac olew Môr y Gogledd wedi golygu bod y DU yn fwy a mwy dibynnol ar fewnforio ynni. Mae holl wledydd y DU yn fewnforwyr net ynni ar hyn o bryd).

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.23.14 Mae'r gyfres ddiweddaraf o newidiadau a ragwelir o ran newidiadau i'r hinsawdd yng Nghymru yn deillio o Ragolygon Hinsawdd y DU 2009. Mewn sefyllfa allyriadau canolig (A1B), rhagwelir y bydd cymedr tymereddau rhanbarthol yr haf yn cynyddu rhwng 0.9-4.5°C erbyn 2050au o gymharu â gwaelodlin 1961-1990¹⁰².
- 2.23.15 Disgwylir i gyfansymiau dyddodiad rhanbarthol y gaeaf amrywio rhwng -2 i +31% ar gyfer yr un sefyllfa¹⁰³.
- 2.23.16 Yn ogystal â'r heriau allweddol o ran newid hinsawdd a amlinellwyd ym mhwynt 2.23.2 uchod mae Adroddiad Tystiolaeth Asesu Risg Newid Hinsawdd y DU 2017 yn darparu amcanestyniadau penodol o effaith newid hinsawdd ar seilwaith yng Nghymru o fewn y ddwy genhedlaeth nesaf. Mae rhai o'r amcanestyniadau hyn yn dod i'r casgliad, heb unrhyw addasiad y tu hwnt i'r cynlluniau presennol, mae:
- mwy o berygl i seilwaith o ganlyniad i lifogydd o afonydd, dŵr wyneb a'r môr (gan gynnwys erydu arfordirol) – byddai hyn yn effeithio ar gludiant ffyrdd a rheilffyrdd, trawsyriant a dosbarthiad trydan, mastiau ffôn symudol, safleoedd dŵr glân a dŵr gwastraff, safleoedd tirlenwi).
 - perygl i seilwaith cludiant, digidol ac ynni o ganlyniad i wres llethol.
 - perygl i seilwaith cludiant, digidol ac ynni o ganlyniad i wyntoedd cryf.
 - peryglon i gynefinoedd a threftadaeth ar hyd y parth arfordirol oherwydd cynnydd yn lefelau'r môr.
 - peryglon o reoli tir yn lleihau storfeydd carbon ac yn gwaethygu perygl llifogydd.

2.24 Amddiffyn rhag llifogydd (gan gynnwys amddiffyn yr arfordir)

Llewyrchus

Cydnherth

Cydllynus

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.24.1 Mae Sir y Fflint yn agored i risg gyfun bosibl o lifogydd afon, llifogydd llanw a llifogydd arfordirol. Mae problemau draenio trefol a phroblemau dŵr wyneb hefyd wedi cyfrannu at hanes y sir o ddioddef llifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli perygl llifogydd o'r môr a'r prif afonydd.
- 2.24.2 Yn Sir y Fflint, mae 8,387 eiddo mewn perygl o lifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwasanaeth rhybudd uniongyrchol i 7,541 eiddo o fewn 14 ardal yn yr amlinelliad llifogydd eithafol. Felly, nid yw'r holl eiddo yn yr ardaloedd hyn wedi cofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Rhybudd Rhag Llifogydd.
- 2.24.3 Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru 7 ased sy'n methu yn Sir y Fflint sydd angen buddsoddiad sylweddol. Cymerwyd ymagwedd yn seiliedig ar berygl llifogydd, gan flaenoriaethu pobl ac eiddo, i reoli atgyweiriadau a gwelliannau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio cyfleoedd gwella llifogydd o fewn tair ardal sy'n uchel ar ein cofrestr o gymunedau mewn perygl.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.24.4 Mae Sir y Fflint wedi profi llifogydd helaeth yn y gorffennol mewn sawl lleoliad gan gynnwys yr Wyddgrug, y Fflint, Rhydymwyn, Hendre, Pontblyddyn, a Bagillt yn 2000, lle y dioddefodd 150 eiddo preswyl lifogydd gan gynnwys sawl eiddo masnachol. Yn y digwyddiad hwn, roedd yn amlwg nad oedd y Sir wedi profi digwyddiad llifogydd unigol ond bod sawl ardal o'r sir wedi'u heffeithio ar yr un pryd. O ganlyniad i'r digwyddiad llifogydd hwn, cynhaliwyd gwaith brys sylweddol a nifer o gynlluniau gwaith cyfalaf ar draws y sir.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.24.5 Disgwylir i newid hinsawdd gynyddu llifogydd afonydd, achosi i lefelau'r môr gynyddu a chynyddu perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Roedd adroddiad Rhagweld Llifogydd y Dyfodol 2004 yn awgrymu y bydd difrod economaidd blynyddol yng Nghymru yn cynyddu o £70 miliwn yn 2004 i £1,235 miliwn yn 2080au o dan y sefyllfa fwyaf tebygol.

2.25 Hyrwyddo ailgylchu a lleihau gwastraff

Llewyrchus

Cydnherth

Cydllynus

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr


- 2.25.1 Mae rheoli gwastraff yn elfen bwysig wrth geisio lleihau ein hól-troed ecolegol. Er mwyn byw mewn Cymru gynhaliol lle mae digon o adnoddau, am bris fforddiadwy, i gynnal ein heconomi a ffordd o fyw mae'n rhaid i ni leihau faint o adnoddau'r byd yr ydym yn eu defnyddio. Amcangyfrifir bod gwastraff yn gyfrifol am oddeutu 15% o ôl-troed ecolegol y wlad¹⁰⁴.

- 2.25.2 Ynghyd â chynorthwyo i gadw adnoddau gwerthfawr, mae ailgylchu, ac ailddefnyddio a chompostio ein gwastraff yn gymorth i leihau cynhyrchiant methan ac allyriadau eraill sy'n deillio o sbwriel bioddiraddiadwy sy'n pydru. Mae gwastraff yn cyfrannu oddeutu 4.7% o allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol yng Nghymru, sy'n cael effaith fawr ar newid hinsawdd.
- 2.25.3 Mae oddeutu 85,000 tonnell o wastraff trefol yn cael ei gynhyrchu yn Sir y Fflint bob blwyddyn a roedd 55.0% yn cael ei ailddefnyddio, ei gompostio neu ei ailgylchu yn 2014/15. Mae'r gyfradd hon ychydig yn is na ffigur Cymru gyfan o 56.2%. Mae Sir y Fflint yn safle rhif pedwar ar ddeg ar gyfer cyfraddau ailgylchu ymysg y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.
- 2.25.4 Mae Sir y Fflint yn darparu gwasanaeth ailgylchu ymyl palmant ar gyfer yr holl aelwydydd ac yn casglu gwastraff bwyd, plastig cymysg, cartonau cwrog, cardfwrdd, papur, caniau a gwydr bob wythnos. Mae gwastraff yr ardd yn cael ei gasglu bob pythefnos heblaw ym mis Rhagfyr, Ionawr a Chwefror. Mae gwastraff gweddilliol yn cael ei gasglu bob 2 wythnos. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref sy'n darparu cyfleusterau ailgylchu ar gyfer ystod o eitemau eraill gan gynnwys dodrefn, tecstilau, matresi, pren, gwastraff yr ardd, gwastraff peryglus gan gynnwys olew a phaent, teclynnau trydanol a rwbel.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.26.1: Canran y gwastraff trefol sy'n cael ei ailddefnyddio / ailgylchu / compostio (diffiniad LART)

Ffynhonnell cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio gwastraff trefol awdurdodau lleol a blwyddyn, StatsCymru



- 2.25.5 Mae cyfraddau ailddefnyddio/ailgylchu/compostio wedi gwella ers 2004/05, pan yr oeddent yn 22% yn Sir y Fflint. Mae angen buddsoddiad sylweddol i ddiwallu'r targed Ewropeaidd o 70% erbyn 2025.

- 2.25.6 Rhwng 2004/05 a 2014/15 gostyngwyd cyfaint blynyddol y gwastraff trefol o oddeutu 5,000 tonnall yn Sir y Fflint (-6%). Y cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan oedd -20% ar gyfer yr un cyfnod.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

2.25.7 Mae'r elusen amgylcheddol, WRAP (Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau) wedi nodi pedwar prif rwystr sydd angen eu goresgyn er mwyn gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau gwastraff gweddilliol¹⁰⁵. Er bod rhywfaint o hyn yn ymwneud â gwella'r gwasanaethau y mae'r sector cyhoeddus yn eu darparu, mae'r prif heriau yn ymwneud â newid ymddygiad ac ymagwedd yn ein cymunedau.

- Rhwystrau sefyllfa, gan gynnwys cynwysyddion annigonol, diffyg lle, casgliadau annibynadwy, dim mynediad i safleoedd dod â gwastraff.
- Rhwystrau ymddygiad, gan gynnwys anhrefn aelwydydd, rhy brysur gyda phethau eraill, dim trefn aelwyd wedi'i sefydlu ac anghofio didoli'r gwastraff neu ei roi allan i'w gasglu.
- Rhwystrau gwybodaeth, megis ddim yn gwybod beth i'w roi ym mhob cynhwysydd, a deall mecanwaith sylfaenol sut y mae'r cynllun yn gweithio.
- Rhwystrau agwedd, megis peidio credu bod budd amgylcheddol, ei weld fel swydd i'r cyngor nid iddyn nhw, a pheidio derbyn gwobr neu gydnabyddiaeth bersonol am eu hymdrechion.

2.25.8 Mae lleihau gwastraff yn gymhelliant gwleidyddol allweddol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddodd eu strategaeth 'Dim Gwastraff' ym mis Mehefin 2010 gyda'r nod o gynyddu ailgylchu i 70% erbyn 2025, ac yn gosod nod uchelgeisiol y bydd Cymru yn genedl 'dim gwastraff' erbyn 2050. Bydd 'dim gwastraff' yn cael ei gyflawni drwy waredu'r holl wastraff gweddilliol ac aildefnyddio neu ailgylchu'r holl wastraff sy'n cael ei gynhyrchu.

2.26 Darparu tai, gan gynnwys tai fforddiadwy

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus

Beth sy'n digwydd yn awr

2.26.1 Mae tai da yn darparu lloches, diogelwch, gofod ar gyfer bywyd teuluol a gweithgareddau, preifatrwydd, hunaniaeth bersonol a datblygiad. Mae'n gonglfaen lles unigol a chymunedol. Yn yr adroddiad 'A Future for Scotland' yn 2015 cydnabu'r Comisiwn Tai a Lles bod tai da yn:

- elfen allweddol o gymdogaeth a chymuned leol lwyddiannus. Gall dyluniad da gynorthwyo i greu edrychiad da a darparu neu gynorthwyo i sicrhau - cysylltiadau hygyrch i siopau, ysgolion, cyfleusterau lleol eraill, manau agored a chefn gwlad a chyfleoedd cyflogaeth.
- hanfodol er mwyn caniatáu i weithwyr symud i ardaloedd lle bo swyddi ar gael. Mae buddsoddi mewn tai hefyd yn cynhyrchu cyflogaeth sylweddol.

- allweddol ar gyfer incwm aelwyd; tai sy'n fforddiadwy – nad ydynt yn rhoi pwysau gormodol ar incwm yr aelwyd – lleihau'r perygl o dlodi a chaledi ariannol.

2.26.2 Mae hefyd yn nodi bod

“Housing which is secure, adequately heated and free of serious condensation and dampness and which provides adequate space and supports independent living is important for good physical and psychological health and positive educational outcomes.”

A bod

“Housing with a high standard of insulation and efficient heating systems will reduce energy use and result in lower greenhouse gas emissions. New building on brownfield sites and on sites close to centres of employment will reduce land take and will help to minimise car-based commuting. New building and some major renovation projects may provide opportunities for using natural processes for drainage, the use of sustainable building materials, improved waste management, improved biodiversity and maximising the use of passive energy.”

- 2.26.3 Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 'Mesur Lles Cenedlaethol: Lle'r ydym yn byw' yn nodi cysylltiad cryf rhwng boddhad mewn bywyd a boddhad â thai ar draws y DU. O'r rhai sy'n adrodd boddhad isel gyda'u llety roedd bron i hanner y rhain yn adrodd boddhad isel gyda'u bywyd.
- 2.26.4 Mae Sir y Fflint yn cynnwys oddeutu 67,550 o anheddau i gefnogi poblogaeth o 154,100¹⁰⁶.
- 2.26.5 Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016, adeiladwyd 662 o gartrefi newydd yn yr ardal¹⁰⁷, o gymharu â rhagolygon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 sy'n rhagweld gofyniad anheddau newydd o oddeutu 350 y flwyddyn er mwyn cyd-fynd â'r twf mewn poblogaeth. (Gweler yr adran 'Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol' i weld trafodaeth fanylach o hyn).
- 2.26.6 Fel rhan o'u dyletswyddau cynllunio, mae gan Awdurdodau Lleol ofyniad penodol i ddarparu tai fforddiadwy, ac mae cyfanswm darpariaeth anheddau newydd mor isel nes bod perygl difrifol nad yw'r ddyletswydd hon yn cael ei diwallu. Nododd Asesiad Marchnad Dai Lleol 2014¹⁰⁸ Sir y Fflint ffigur blynyddol o 246 o aelwydydd ychwanegol ag anghenion tai fforddiadwy. Mae'r amcanestyniad hwn – er nad yw'n ymwneud â'r gofyniad adeiladau newydd yn unig² – yn gyfwerth ag oddeutu dau bumed o gyfanswm darpariaeth yr holl anheddau newydd yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn ddelfrydol, o ystyried y trothwyon a amlinellwyd yn y Cynlluniau Datblygu Lleol gan awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, byddai'r gofyniad fforddiadwy oddeutu 20-30% o gyfanswm yr adeiladau newydd. Nid oes modd darparu lefel cyn uchred â hyn ar gyfer Sir y Fflint (40% ar gyfer 2015/16).
- 2.26.7 Ym mis Ebrill 2016 pris cyfartalog ar gyfer eiddo Sir y Fflint oedd £152,250¹⁰⁹. Mae pris cyfartalog tŷ ar hyn o bryd 5.6 gwaith incwm cyfartalog aelwydydd o £27,300 a 10.1 gwaith incwm aelwydydd y chwarterl isaf o £15,000¹¹⁰. Mae hyn yn awgrymu bod mentro i'r farchnad dai fel perchennog tŷ ymhell y tu hwnt i gyrraedd yr aelwyd gyfartalog.


² Er enghraifft, drwy leoli o fewn y stoc tai cymdeithasol cyfredol; darparu cynlluniau cymorth i brynu megis menter Home Buy; a thrwy gymorth ariannol i rentu yn y sector preifat (budd-dal tai).

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.26.8 Rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2016, cyfradd gyfartalog yr anheddau newydd ac addasiadau newydd a gwblhawyd oedd tua 405 uned y flwyddyn. Arweiniodd y dirwasgiad economaidd yn 2007/08 at ddirwasgiad yn y diwydiant adeiladu, gan leihau cyfraddau adeiladu tai.

Siart 2.26.1: adeiladu cartrefi newydd yn Sir y Fflint

Ffynhonnell: tydstudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai, Cyngor Sir y Fflint/LIC/Arolygiaeth Gynllunio



2.26.9 Mae'r gostyngiad hwn mewn cwblhau tai yn parhau ar draws y rhan fwyaf o'r wlad, ond yn Sir y Fflint yn y blynyddoedd diwethaf mae'r cyfraddau cwblhau eithriadol wedi'u cymell gan ddatblygu safleoedd y Cynllun Datblygu Unedol mawr a nodwyd yn wreiddiol yn 1990au. Maent yn cyflwyno adnodd tir cyfyngedig ar gyfer adeiladu tai newydd, ac unwaith yr adeiledir ar y dyraniadau, maent wedi mynd. Gallai'r safleoedd hyn gollu eu statws datblygiad tai wrth i gynhyrchiad diweddar Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint adolygu dyraniadau tai, ac felly mae cymhelliant i ddatblygu'n gynharach yn hytrach nag yn hwyrach.

2.26.10 Ond, gallai'r cyfraddau adeiladu uchel diweddar fod o ganlyniad i ddatblygwyr yn 'rheoli'r farchnad a'r cyflenwad lleol, yn enwedig o ystyried sefyllfa bresennol Sir y Fflint sydd 'rhwyng cynlluniau' ac analluedd i arddangos cyflenwad tir pum mlynedd, sy'n agor y posibilrwydd o hyrwyddo safleoedd tai hapfasnachol. Mae agosrwydd Sir y Fflint at ardaloedd ar ffin Lloegr sydd â galw uchel am dai ond â chyfyngiad o ran cyflenwad tir hefyd yn gwneud yr ardal yn ddeniadol i ddatblygwyr tai mawr, yn enwedig gan nad oes Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r awdurdod lleol cyfagos nesaf yn Wrecsam hefyd â chyfyngiad o ran argaeledd tir ar gyfer tai, sy'n ychwanegu at y pwysau ar Sir y Fflint. Unwaith y bydd Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir y Fflint wedi'i gynhyrchu bydd hyn yn cael ei gwtogi.

2.26.11 Ni chredir y gellir cynnal cyfradd y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu yn dros y dair o'r pedair blynedd diwethaf gan fod amheuaeth ynglŷn â chapasiti hirdymor y datblygwyr, yn enwedig pan fo awdurdodau lleol cyfagos yn cynhyrchu eu Cynlluniau Datblygu Lleol eu hunain (gan gynnwys Caer a Wrecsam) ac yn rhyddhau'r tir ar gyfer hyd ar 40,000 o dai o fewn cyfnodau tebyg dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Yn seiliedig ar ddull y cyfraddau adeiladu yn y gorffennol dros gyfnod o 5 mlynedd a 10 mlynedd, y cyflenwadau tir yw 6.6 a 8.1 mlynedd yn y drefn honno. Mae'r Cyngor yn credu bod dull cyfraddau adeiladu'r gorffennol yn dangos lefel gwirioneddol y cyflenwad, o gymharu â'r hyn y mae'r diwydiant datblygu yn ei gyflawni ar lawr gwlad, ac yn adlewyrchiad gwell o'r cyflwr economaidd diweddar a'r lefelau is o adeiladu tai.

Tabl 2.26.1: mynegai prisiau tai, Ebrill 2016

Ffynhonnell: Mynegai prisiau tai'r Gofrestrfa Tir

	Sir y Fflint	Cymru	Cymru a Lloegr
Pris ar gyfartaledd (£)	152,250	139,400	219,650
Newid misol (%)	0.7	-2.0	0.6
Newid blynyddol (%)	3.9	1.7	8.8
Mynegai*			
Ebrill 2000=100	264.1	260.7	281.1
Ebrill 2006=100	130.5	129.8	151.5

* Mae mynegai yn ffordd o fesur y newid cymharol dros amser. Os yw'r pris tai cyfartalog yn Ebrill 2000 yn 100, mae'r mynegai yn dangos sut y mae'r prisiau wedi newid ers y dyddiad hwnnw. Er enghraifft, mae mynegai o 150 yn nodi bod y pris presennol un a hanner gwaith yn fwy nag ydoedd ar ddechrau'r cyfnod mynegai..

2.26.13 Mae prisiau tai wedi cynyddu'n sylweddol ers 2000, hyd yn oed wedi ystyried yr arafu a fu yn y farchnad dai ar ôl dirwasgiad 2007/08. Ym mis Ebrill 2016 roedd prisiau tai tua tair gwaith yn uwch nag oeddent yn 2006 (mae cyflogau wedi cynyddu o oddeutu pumed neu 22% yn yr un cyfnod). Roedd prisiau mis Ebrill 2016 dros ddwywaith a hanner yn uwch nag oeddent yn 2000 (oddeutu 264% yn uwch) ond dim ond oddeutu 50% o gynydd a fu mewn cyflogau.

2.26.14 Yn 2000 y gymhareb o gyflog cyfartalog i brisiau tai yn yr ardal oedd oddeutu 3.0. Mae hyn yn cymharu â 5.2 yn 2016.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

2.26.15 Wrth i'r boblogaeth gynyddu o ran maint ac wrth i faint aelwyd cyfartalog barhau i ostwng, disgwylir i'r galw am dai gynyddu. Y ffactor fwyaf o bell ffordd sy'n effeithio ar nifer yr aelwydydd a maint cyfartalog aelwydydd yn y dyfodol yw'r twf a ddisgwylir yn y nifer o aelwydydd un unigolyn.

- Pensiynwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain yw'r rhan fwyaf o aelwydydd un unigolyn. Yn 2014, amcangyfrifwyd bod 8,950 o aelwydydd pensiynwr sengl³ yn Sir y Fflint, sef 16.8% o'r holl aelwydydd a 49% o'r holl aelwydydd un unigolyn. Wrth i ddisgwyliad oes gynyddu ac wrth i do twf ar

³ Pobl dros 65 oed sy'n byw ar eu pennau eu hunain

ôl yr Ail Ryfel Byd gyrraedd oedran pensiwn, gellir disgwyl cynnydd yn nifer yr aelwydydd pensiynwr sengl.

- Ffactorau eraill sydd wedi arwain at feintiau aelwydydd cyfartalog llai dros y degawdau diwethaf yw'r tueddiadau o gael teulu llai, a'r cynnydd o ran faint o deuluoedd sy'n chwalu. Disgwylir y bydd y tueddiadau hyn yn parhau.

- 2.26.16 Gall y tuedd tuag at aelwydydd llai fod yn ddangosydd o'r math o dŷ sydd angen ei adeiladu. Yn benodol, mae angen ystyried darparu tai fydd yn addas i ddiwallu anghenion grwpiau oedran hŷn.
- 2.26.17 Os yw'r galw am dai ychwanegol yn parhau i fod yn fwy na'r gyfradd y darperir tai newydd, yna bydd cynnydd parhaus o ran ôl-groniad o angen nas diwallwyd y bydd angen ei ddarparu rywbryd, ynghyd â'r holl angen newydd sy'n codi. Mae hyn yn debygol o roi pwysau ychwanegol ar farchnad dai sydd eisoes yn ddud.
- 2.26.18 Gellir mynd i'r afael â materion fforddiadwyedd yn rhannol drwy economeg syml cyflenwad-galw. Os oes mwy o dai, o'r mathau cywir, yn cael eu hadeiladu yna bydd y pwysau cynyddol ar brisiau tai sy'n cael ei greu gan alw sy'n fwy na'r cyflenwad yn cael ei ddatrys.

2.27 Gallu i gefnogi'r rhai ag anghenion tai

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Cydlynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.27.1 Mae gan dai cymdeithasol rôl allweddol o ran darparu tai fforddiadwy ar gyfer aelwydydd diamddiffyn ac incwm isel. Mae mwyafrif yr eiddo tai cymdeithasol yn cael eu gosod ar denantiaethau hyd oes a chyda lefelau rhent sy'n is na lefelau rhent y farchnad (rhent y mae landlordiaid preifat yn ei godi). Mae'r tai yn cael eu dyrannu drwy system rhestr aros, ac ar gael i'r rhai sydd â'r angen mwyaf – fel arfer y rhai sy'n ddigartref, mewn aelwydydd gorlawn neu sydd â chartref presennol sy'n anaddas oherwydd rhesymau iechyd.
- 2.27.2 Yn fwy a mwy, wrth i bwysau ar argaeledd cyffredinol tai fforddiadwy yn y farchnad dai gynyddu, mae unrhyw dai cymdeithasol sydd ar gael yn tueddu i gael eu dyrannu i'r rhai mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas- pobl â phroblemau iechyd, anghenion cymdeithasol cymhleth ac ar incwm isel. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, nid yw methu â fforddio prynu neu rentu tŷ mewn marchnad breifat, ar ei ben ei hun, yn ddangosydd digonol o anghenion tai ac nid yw yn golygu y bydd tai cymdeithasol ar gael.
- 2.27.3 Mae diwygiadau lles yn golygu bod mynediad i fudd-daliadau gwladol wedi'i ostwng neu ei dynnu'n gyfan gwbl ar gyfer nifer o deuluoedd di-waith neu ag incwm isel, yn y sector tai cymdeithasol a phreifat. Lle byddant yn parhau i'w derbyn, mae'r lefelau budd-daliadau wedi'u rhewi, tra bo costau tai yn y cynyddu. Ynghyd â phwysau cyffredinol ar gyllid aelwydydd, mae Diwygiadau Lles a symud tuag at Gredyd Cynhwysol yn golygu bod elfen tai'r budd-daliadau yn cael eu talu'n uniongyrchol i'r hawlydd, lle'r oeddent yn cael eu talu i'r landlord yn flaenorol. Gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sydd ag ôl-ddyledion rhent, a chynnydd mewn digartrefedd yn y pen draw.

- 2.27.4 Mae pobl ifanc, sengl o dan 35 oed sy'n ddi-waith neu mewn cyflogaeth ag incwm isel yn teimlo effaith y Diwygiadau Lles a Deddf Tai (Cymru) 2014 yn fwy na neb. Mae budd-dal tai wedi'i gyfyngu i'r gyfradd ystafell unigol nad yw'n ddigonol ar gyfer rhentu tai eu hunain a'r unig ddewis fforddiadwy yw tai a rennir. Fodd bynnag, nid oes argaeledd o ran tai a rennir yn y sector tai cymdeithasol, ac mae gwaith i wella safon tai amlfeddiannaeth ar draws yr ardal wedi lleihau argaeledd tai a rennir yn y sector preifat. Mae gwelliannau i'r stoc tai preifat yn aml yn achosi cynnydd mewn rhenti marchnad.
- 2.27.5 Ym mis Chwefror 2016, gostyngodd cymhorthdal ystafell sbâr / treth ystafelloedd gwely'r taliadau budd-dal tai ar gyfartaledd o £13.50 yr wythnos ar gyfer 1,135 o dderbynwyr yn Sir y Fflint. Roedd hyn yn 18.2% o'r holl dderbynwyr budd-dal tai yn y sector rhentu cymdeithasol. Nid yw'r gostyngiad yn berthnasol i denantiaid yn y sector rhentu preifat.
- 2.27.6 Ar 31 Mawrth 2015, roedd 10,279 annedd yn y sector tai cymdeithasol yn yr ardal. Roedd hyn yn 158 am bob 1,000 o aelwydydd, a oedd yn is na lefel Cymru Gyfan o 175 am bob 1,000 o aelwydydd.
- 2.27.7 Mae gan fwyafrif stoc tai cymdeithasol anghenion cyffredinol⁴ yr ardal o leiaf tair ystafell wely (65%). Mae hyn yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan (48%). Mae llai na 8% o'r stoc yn llety un ystafell wely, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i denantiaid chwilio am lety llai os yw'r capiau ar fudd-daliadau tai yn eu heffeithio oherwydd tan-feddiannaeth yn eu llety presennol (yr hyn a elwir yn 'dreth ystafell wely')

Tabl 2.28.1: stoc tai cymdeithasol yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely, Mawrth 2015

Ffynhonnell: casglu data stoc a rhenti landlordiaid cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

	Sir y Fflint		Cymru
	Nifer	%	%
Pob eiddo anghenion cyffredinol	6,696		
Un ystafell wely	529	7.9%	17.1%
Dwy ystafell wely	1,818	27.2%	35.2%
Tair ystafell wely	4,172	62.3%	45.2%
Pedair ystafell wely	167	2.5%	2.3%
Pum ystafell wely neu fwy	10	0.1%	0.2%

- 2.27.8 Mae tan-gyflenwad o lety un ystafell wely yn y stoc tai yn ei gwneud yn anodd canfod tai cymdeithasol digonol ar gyfer rhai o'r bobl mwyaf diamddiffyn ag anghenion tai, gan gynnwys rhai â materion iechyd meddwl, pobl a oedd yn gaeth i gyffuriau/alcohol, cyn-filwyr a chyn-droseddwyr. Mae dynion sengl yn wynebu anfantais penodol oherwydd y diffyg eiddo un ystafell wely.
- 2.27.9 Y prif ddarparwyr tai cymdeithasol yn yr ardal yw Cyngor Sir y Fflint, sy'n darparu 72% o'r holl dai cymdeithasol. Y prif ddarparwyr eraill yw Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (18%) a Wales and West Housing (8%).

⁴ Nid yw'n cynnwys tai lloches, hosteli na darpariaeth Gofal Ychwanegol

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.27.10 Mae stoc tai cymdeithasol wedi cynyddu o ddim ond 3% – llai na 300 annedd – yn y 25 mlynedd ers 1991. Cynyddodd y stoc tai yn y sector preifat (rhentu a pherchen-feddianwyr) oddeutu 32% neu oddeutu 13,700 annedd yn ystod yr un cyfnod. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad cymesurol yn nifer y tai cymdeithasol sydd ar gael o fewn y stoc tai cyffredinol, ac wedi golygu bod yn rhaid i ddarpariaeth gymdeithasol ganolbwyntio ar y rhai â'r anghenion mwyaf, ac nid yw fforddiadwyedd ar ei ben ei hun yn faen prawf i dderbyn pobl ar restrau aros am dai lleol. Gan fod y llwybr i dai cymdeithasol wedi cau i lawr ar gyfer rhai a fyddai'n gymwys am dai cyngor genhedlaeth yn ôl, mae canfod cartref addas y mae pobl yn gallu ei fforddio yn fwy a mwy anodd i nifer cynyddol o bobl.
- 2.27.11 Mae achosion o ddigartrefedd yn fwy cymhleth gan fod gwasanaethau eraill a oedd yn cynorthwyo i gefnogi preswylwyr diamddiffyn yn flaenorol wedi lleihau o ran maint a chwmpas. Bu cynnydd yng nghyfran yr aelwydydd sydd angen cymorth gan yr awdurdodau lleol sy'n cynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl neu broblemau iechyd eraill; pobl gyda phroblemau dibyniaeth alcohol neu gyffuriau; rhai gyda ffyrdd o fyw anhrefnus.
- 2.27.12 Ers 1996 mae dros 1,600 o eiddo tai cymdeithasol wedi'u gwerthu yn Sir y Fflint o dan y cynlluniau hawl i brynu. Er bod rhywfaint o'r stoc wedi'i ddisodli mae hyn yn llai na'r disodliad o un am un yn uniongyrchol. Ar y cyfan mae hyn wedi lleihau'r stoc sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion tai cymdeithasol.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.27.13 Yn Neddf Tai (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cyfrifoldebau newydd ynglŷn ag atal digartrefedd i awdurdodau lleol a'u partneriaid. Mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithio â phobl sydd mewn perygl o golli eu cartref o fewn 56 diwrnod i'w cynorthwyo i ganfod datrysiad i'w problemau ac yn gobeithio atal 3 o bob 4 person sydd mewn perygl o ddigartrefedd rhag colli eu cartref. Mae hon yn ddyletswydd ar gyfer pawb sy'n ceisio cymorth, nid rhai â chysylltiad lleol yn unig.
- 2.27.14 Mae'r galw am gymorth gyda digartrefedd o dan delerau'r Ddeddf newydd wedi cynyddu ychydig tra bo cyfanswm yr holl waith achos sy'n gysylltiedig â gwaith ataliol wedi cynyddu'n sylweddol.
- 2.27.15 Oherwydd bod darpariaeth tai cymdeithasol yn awr yn canolbwyntio ar yr unigolion a'r teuluoedd mwyaf diamddiffyn, gall leoli'r grwpiau hyn yn yr un ardal yn aml. Gall hyn greu cymdogaethau sydd wedi'u gwahanu o'r gymuned yn ei chyfanrwydd, gan gynyddu lefelau arwahanrwydd cymdeithasol a'r perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymchwil gan Shelter yn nodi cysylltiad rhwng cymdogaethau difreintiedig a gostyngiad mewn cyfleoedd bywyd, gan olygu bod plant sy'n cael eu magu mewn ardaloedd o'r fath yn wynebu diffyg o ran adnoddau, rhesymau, sgiliau a hyder i symud ymlaen¹¹¹.

2.28 Cynyddu dibyniaeth ar rentu yn y sector preifat

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus


Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.28.1 Mae gan y sector rhentu preifat ystod amrywiol o aelwydydd, gydag ystod eang o anghenion o ran tai. Gall ddarparu hyblygrwydd ar gyfer pobl sydd ag anghenion llety newidiol neu sydd angen symud tŷ yn aml am resymau gwaith neu debyg. Fodd bynnag, gall hefyd arwain at ansicrwydd deiliadaeth ac mae ganddo gostau uniongyrchol ychwanegol yn ogystal â rhenti, a all fod yn problem i denantiaid ar ben isaf y farchnad (er enghraifft, dod o hyd i arian ar gyfer blaendal/bondiau, darparu rhent ar gyfer sawl wythnos ymlaen llaw i sicrhau tenantiaeth, neu dalu ffioedd asiantaeth sydd angen eu talu bob tro mae tenantiaeth yn cael ei hadnewyddu).
- 2.28.2 Y sector rhentu preifat yw'r sector sy'n tyfu gyflymaf yn y farchnad dai. Ynghyd â bod yr unig ddewis tai ar gyfer y rhai sy'n methu â fforddio prynu eu cartref eu hunain ond nad ydynt angen cymorth tai cymdeithasol, mae'n awr yn bosibl i awdurdodau lleol yng Nghymru gyflawni eu dyletswyddau digartrefedd yn y sector preifat.
- 2.28.3 Mae'r sector rhentu preifat yn cynrychioli oddeutu 12% o'r stoc tai yn ar draws Sir y Fflint – oddeutu 7,300 o anheddau i gyd¹¹². Mae hyn islaw cyfartaledd Cymru o 15%.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

Siart 2.29.1: twf yn y sector rhentu preifat, 1991-2011

Ffynhonnell: cyfrifiad poblogaeth, ONS



- 2.28.4 Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol dros y 25 mlynedd diwethaf, gan gynyddu o oddeutu 2,900 annedd yn 1991 i oddeutu 7,300 erbyn 2015 – cynnydd o 175%.
- 2.28.5 Bu twf llawer arafach yn y sector tai perchen-feddianwyr (21%) yn ystod yr un cyfnod. Roedd twf tai cymdeithasol fwy neu lai'n llonydd yn yr ardal, ac mae wedi gostwng yn genedlaethol. Nododd adroddiadau yn y newyddion ym mis Awst 2016 fod perchnogaeth tai ar ei lefel isaf ers 30 mlynedd yn genedlaethol.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.28.6 Mae gan y sector rhentu preifat ystod amrywiol o aelwydydd, gydag ystod eang o anghenion o ran tai. Gall ddarparu hyblygrwydd ar gyfer pobl sydd ag anghenion llety newidiol neu sydd angen symud tŷ yn aml am resymau gwaith neu debyg. Fodd bynnag, gall hefyd arwain at ansicrwydd deiliadaeth ac mae ganddo gostau uniongyrchol ychwanegol yn ogystal â rhenti, a all fod yn broblem i denantiaid ar ben isaf y farchnad (er enghraifft, dod o hyd i arian ar gyfer blaendal/bond, darparu rhent ar gyfer sawl wythnos ymlaen llaw i sicrhau tenantiaeth, neu dalu ffioedd asiantaeth sydd angen eu talu bob tro mae tenantiaeth yn cael ei hadnewyddu).
- 2.28.7 Mae nifer o resymau dros y twf cyflym yn yr adran rhentu preifat, ac mae nifer o resymau dros ddisgryl iddo barhau: newid cymdeithasol wrth i bobl gyd-fyw yn hwyrach mewn bywyd ac wrth i rentu a rhannu tŷ fod yn fwy derbyniol yn gymdeithasol; prisiau tai uchel a diffyg argaeledd credyd morgais; hyrwyddo a'r defnydd o'r sector gan yr awdurdodau lleol ar gyfer y rhai sydd ag anghenion tai neu sy'n ddigartref; a, mynediad cyfyngedig a rhestrau aros hir ar gyfer tai cymdeithasol. Mae pwysau ar y sector rhentu preifat, wrth i'r farchnad dai arafu a chyfraddau adeiladu tai yn gostwng, wedi bod yn amlwg iawn.
- 2.28.8 Ochr yn ochr â hyn, mae'r cyflenwad o gartrefi rhent preifat wedi cael ei hybu gan dwf y landlord prynu-i-osod ar raddfa fach, gyda llawer yn defnyddio eiddo ar rent fel dewis amgen i gronfa bensiw.
- 2.28.9 Gall rheoleiddio'r tai rhentu preifat fod yn anodd, o ran cydymffurfiaeth gyda safonau tai ac iechyd a diogelwch, ac o ran diogelwch deiliadaeth a rheoli lefelau rhent. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gobeithio gwella'r sefyllfa hon drwy ei gwneud yn ofynnol i'r holl landlordiaid gydag eiddo yng Nghymru gofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru ac i gael trwydded eu hunain os ydynt yn 'hunan-reoli' neu fod yn rhaid iddynt ddefnyddio asiant trwyddedig.

2.29 Mynd i'r afael â thlodi tanwydd

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.29.1 Mae graddiant cymdeithasol o ran tlodi tanwydd: po isaf eich incwm y mwyaf tebygol y byddwch mewn perygl o dlodi tanwydd ac mae'n cael effaith sylweddol ar iechyd, lles cymdeithasol ac economaidd pobl sy'n byw mewn cartrefi oer. Y rhai sydd fwyaf diamddiffyn i dlodi tanwydd a chartrefi oer yw pobl hŷn, rhieni sengl gyda phlant dibynnol, teuluoedd sy'n ddi-waith neu ar incwm isel, plant a phobl ifanc, pobl anabl, pobl â salwch a chyflyrau hirdymor, a phobl sengl sy'n ddi-waith¹¹³. Mae clefydau anadlol yn waeth ar gyfer pobl sy'n byw mewn cartrefi

oer, ac mae'n gwaethygu cyflyrau iechyd cronig, ochr yn ochr â risg uwch o strôc a thrawiad ar y galon. Mae tai oer hefyd yn cael effaith negyddol ar les emosiynol a meddyliol holl aelodau'r aelwyd (gan gynnwys pryderu am filiau ac iechyd) a gall gael effaith ar berfformiad plant yn yr ysgol.

- 2.29.2 Mae anghydraddoldebau iechyd a lles a achosir oherwydd bod pobl yn byw mewn tlodi tanwydd yn gallu arwain at fwy o ddibyniaeth ar wasanaethau cyhoeddus ar gyfer cefnogaeth iechyd a lles arall. Drwy leihau'r risg bod pobl yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru gallwn gynorthwyo i leihau'r effaith negyddol ar fywydau pobl a'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.
- 2.29.3 Ystyrir bod aelwydydd yn dioddef o dlodi tanwydd os ydynt yn gorfod gwario mwy na 10% o incwm yr aelwyd ar danwydd i gadw eu cartref mewn cyflwr 'boddhaol'⁵. Amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru bod 364,000 o aelwydydd yng Nghymru yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2012, sef 29% o'r holl aelwydydd ¹¹⁴. Er bod costau tanwydd wedi parhau i gynyddu ac ymhell uwchlaw lefelau 2012, disgwylir i nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd fod wedi gostwng oherwydd y cynlluniau effeithlonrwydd ynni cenedlaethol a lleol, megis NEST ac ARBED, sydd wedi targedu aelwydydd mewn tlodi tanwydd yn y blynyddoedd diwethaf – yr amcangyfrif o'r gostyngiad ar draws Cymru yw oddeutu -80,000 o aelwydydd ¹¹⁵.
- 2.29.4 Mae ymchwil cenedlaethol gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd wedi dangos mai'r rhai y mae tlodi tanwydd yn effeithio arnynt fwyaf yw pensiynwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain a rhieni sengl¹¹⁶. Mae pensiynwyr sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn ffurfio 13.8% o aelwydydd yn Sir y Fflint. Mae aelwydydd rhiant sengl yn ffurfio 6.3% o'r holl aelwydydd yn Sir y Fflint¹¹⁷.
- 2.29.5 Gall tlodi tanwydd fod yn broblem benodol mewn ardaloedd gwledig, nad ydynt wedi'u cysylltu â'r brif rwydwaith nwy ac yn gorfod dibynnu ar danwydd solet neu gyflenwadau nwy/olew sy'n aml yn costio mwy na thrydan a nwy a dim ond mewn cyfansymiau mawr y gellir eu prynu, gan arwain at gostau mawr a delir ymlaen llaw.
- 2.29.6 Gall tai hŷn fod yn anoddach eu gwneud yn effeithlon o ran ynni hefyd gan y cawsant eu hadeiladu gan ddefnyddio dulliau a deunyddiau adeiladu nad ydynt yn hawdd eu haddasu ar gyfer safonau'r 21ain ganrif ar gyfer insiwleiddio a gosodiad gwres canolog. Mae eiddo wedi'i adeiladu â cherrig yn broblem penodol.
- 2.29.7 Mae'r bil trydan cyfartalog ar draws yr holl fathau o daliadau wedi gostwng o £8 (1.4 y cant) rhwng 2015 a 2014, gan roi cyfanswm cyfartalog bil o £584. Gostyngodd y bil nwy cyfartalog o £38 (5.1 y cant) yn 2015 i £714¹¹⁸.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol


- 2.29.8 Er bod prisiau wedi dechrau gostwng yn 2015 ar ôl cyfnod hir o chwyddiant ym mhris tanwydd, ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o danwydd nid ydynt wedi gostwng cymaint ag y gellid ei ddisgwyl o'r gostyngiad parhaus yn y pris olew yn rhyngwladol. Erbyn diwedd 2015, roedd prisiau cyfartalog trydan wedi cynyddu o

⁵ Diffiniad 'cynllun gwresogi boddhaol' a argymhellir gan Sefydliad Iechyd y Byd yw 23°C yn yr ystafell fyw a 18°C yn yr ystafelloedd eraill, i'w gyflawni am 16 o bob 24 awr ar gyfer aelwydydd gyda phobl hŷn neu bobl ag anabledau neu salwch cronig a 21°C yn yr ystafell fyw a 18°C yn yr ystafelloedd eraill am gyfnod o naw awr o bob 24 awr (neu 16 o bob 24 awr dros y penwythnos) ar gyfer aelwydydd eraill.

65%, a phrisiau cyfartalog nwy dros 98% o'u cymharu â 2005. Dim ond 28% oedd chwyddiant MPD yn gyffredinol yn yr un cyfnod.

Siart 2.30.1: Indecsau prisiau tanwydd yn y sector domestig mewn gwirionedd (gan ystyried chwyddiant)

Ffynhonnell: Bwletin prisiau ynni chwarterol DECC



Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

2.29.9 Mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn flaenoriaeth datblygu gynaliadwy allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru gan ei bod yn canolbwyntio ar fater cymdeithasol allweddol drwy dargedu'r rhai sydd â'r anghenion mwyaf; yn ysgogi gweithgarwch economaidd drwy gynhyrchu cyfleoedd ar gyfer busnesau lleol ynghyd â chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant; ac yn gwneud tai yn fwy effeithlon o ran ynni a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn cyfrannu at leihau ôl-troed ecolegol Cymru.

2.30 Cludiant a diogelwch ar y ffyrdd

Llewyrchus

Cydnherth

Mwy cyfartal

Cydlynus

Byd-eang

2.30.1 Mae hwn yn faes asesu sydd angen gwaith pellach ac yn fwllch gwybodaeth ar hyn o bryd. Mae wedi'i nodi fel maes pryder drwy ymgynghoriad, ond ychydig iawn o ymchwil a thystiolaeth leol sydd ar gael ar y testun ar hyn o bryd.

2.30.2 Mae mynediad i ddewisiadau cludiant effeithlon a fforddiadwy yn fater allweddol sy'n tanegu lles ac yn gwella cynhwysiant cymdeithasol a chysylltedd. Mae cysylltiadau cludiant da yn hwyluso perthnasau presennol ac yn gallu datblygu rhai newydd – mewn cyd-destun economaidd ar gyfer busnesau, darparwyr gwasanaeth a'u gweithlu, ond hefyd ar gyfer pobl a chymunedau, gan fod

cysylltedd cludiant yn effeithio ar ryngweithio cymdeithasol, mynediad at fanwerthu a gwasanaethau hanfodol, a'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden.

- 2.30.3 Yn benodol mae pobl mewn perygl o gael eu heithrio'n gymdeithasol yn profi gwir anawsterau cyrraedd gwahanol leoedd. Nid yw gwasanaethau cludiant cyhoeddus rheolaidd a dibynadwy ar gael ym mhob cymuned bob amser, ac weithiau nid ydynt yn fforddiadwy i bobl ar incwm isel neu efallai nad ydynt yn mynd â phobl i'r man y maent eisiau ei gyrraedd. Efallai na fydd beicio a cherdded yn ddewisiadau addas i gael mynediad at wasanaethau sy'n bell neu mewn amgylcheddau lle bo lefelau traffig a chyfraddau damweiniau yn uchel.
- 2.30.4 O fewn yr economi, mae cludiant yn effeithio ar allu busnesau i gyflawni masnach gyda chwsmeriaid a chyflenwyr ac i recriwtio gweithlu. Gall argaeledd llwybrau cludiant da mewn ardal ddylanwadu ar leoliad busnes ac annog buddsoddiad newydd. Mae newid yn economi ehangach y DU o ddiwydiannau sy'n seiliedig ar gludo sectorau cynradd/eilaidd i'r sector gwasanaeth yn golygu efallai na fydd nifer o'n llwybrau cludiant presennol yn addas ar gyfer y ffyrdd newydd o weithio.
- 2.30.5 Er gwaethaf cynnydd mewn traffig mae ffigurau cyffredinol yn awgrymu bod damweiniau traffig ffyrdd ac anafiadau yn lleihau dros amser. Mae'r cynnydd mewn damweiniau sy'n digwydd gan nad yw'r gyrrwr yn canolbwyntio oherwydd y defnydd o ffonau symudol yn bryder fodd bynnag.
- 2.30.6 Mae cludiant yn gyfrifol am oddeutu 30% o holl allyriadau carbon y DU¹¹⁹. Mae potensial sylweddol ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus i gynorthwyo i leihau allyriadau cludiant drwy systemau a seilwaith cludiant wedi'i ariannu gan lywodraeth leol, a chynllunio teithio y gellir ei gyflawni gan yr holl sefydliadu sector cyhoeddus. Mae hyrwyddo cerbydau glanach yn ein fflydoedd cludiant ein hunain a hwyluso darparu pwyntiau tanwydd amgen (er enghraifft pwyntiau gwefru ceir trydan) hefyd o fewn cylch gwaith sefydliadau'r sector cyhoeddus.
- 2.30.7 Y prif ddulliau ar gyfer cyrraedd, gadael a theithio o fewn yr ardal yw
- ffyrdd - A55 T (Llwybr Ewro 22), A494(T) a A548, sy'n darparu mynediad i'r M53 a'r M56, ac ymlaen i'r M6 a'r M62. Mae ymgynghoriad mawr gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â gwelliannau i goridor yr A494T/A55T/A548.
 - rheilffyrdd – Prif reilffordd Manceinion a Llundain i Gaerdybi, ac i Wrecsam, y gororau a de Cymru drwy Gaer. Mae llinell gangen rhwng Bidston ar Lannau Merswy a Wrecsam sy'n teithio drwy Shotton.

Ffyrdd A a B Sir y Fflint yw'r ffyrdd a gynhelir orau yng Nghymru (ers y 3 blynedd diwethaf). Mae hyn yn allweddol er mwyn lleihau tagfeydd ac ymyrraeth oherwydd atgyweiriadau ffordd parhaus ac yn darparu seilwaith ddibynadwy i gefnogi twf a ffyniant.

- 2.30.8 Rhai o'r materion sy'n ymwneud â chludiant y mae'n rhaid i ni eu deall yn well yw:
- capasiti ffyrdd – gan gynnwys llif traffig, cyfyngiadau ehangu, a chynnydd mewn traffig yn dilyn gwelliannau i'r ffyrdd.
 - effaith ddiffyg darpariaeth cludiant cyhoeddus integredig yn enwedig ar gyfer cymunedau ymylol. Codwyd pryderon penodol am deithio yn ystod y gyda'r nos (boed i gymryd rhan mewn digwyddiad cymdeithasol neu ar gyfer cyflogaeth sy'n cynnwys gwaith sifftiau neu oriau anghymdeithasol)

ac anawsterau teithio sy'n gysylltiedig â mynychu apwyntiadau'r Ganolfan Waith.

- hyrwyddo teithio llesol (llwybrau cerdded a beicio diogel).
- darparu llwybrau cludiant ysgol diogel – gan gynnwys gwasanaethau bws â chymhorthdal (yn enwedig mewn ardaloedd lle bo'r boblogaeth ar wasgar) ond hefyd llif traffig o amgylch ysgolion, cerdded i'r ysgol a pharthau gollwng plant.
- effeithiau amgylcheddol cludiant, gan gynnwys ansawdd aer, effaith digwyddiadau llifogydd ar seilwaith cludiant ac allyriadau carbon.
- effaith twristiaeth ar gludiant lleol.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.30.9 Mae risgiau cyllid posibl yn y dyfodol pe bai Llywodraeth Cymru'n tynnu cefnogaeth gyfalaf yn ôl ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd ar draws Cymru gan arwain at orfod canfod cyllid cyfalaf o gronfeydd y Cyngor. Os nad yw'r rhwydwaith yn cael ei gynnal i safon uchel, bydd nifer yr hawliadau yn cynyddu a bydd yn amharu ar y rhwydwaith.
- 2.30.10 I gefnogi a chynnal argaeledd cludiant cyhoeddus, mae Sir y Fflint yn datblygu gwasanaeth cludiant cymunedol lleol. Bydd lansio 4 canolfan gludiant cyhoeddus newydd yn gwella a rhoi dewis lleol a sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.
- 2.30.11 Mae'r dull strategol ar gyfer y dyfodol ar gyfer cludiant yn cael ei ddatblygu i integreiddio gyda gofynion seilwaith y cynllun datblygu lleol (CDLI) a cheisiadau twf rhanbarthol. Mae cynllun cludiant cynaliadwy ac integredig ar gyfer ardal Glannau Dyfrdwy i gyd yn hanfodol ar gyfer twf yn yr ardal yn y dyfodol.
- 2.30.12 Yn 2017 bydd penderfyniad allweddol yn cael ei lunio ynglŷn â llwybr yr A55 i Gymru o Loegr. Bydd hyn yn effeithio ar dwf ar draws y rhanbarth a bydd angen iddo weithio ar gyfer rhwydweithiau ac uchelgeisiau cludiant lleol a rhanbarthol.
- 2.30.13 Wrth ddatblygu datrysiad cludiant integredig rhwng rhwydwaith y rheilffyrdd, ffyrdd a bysiau, mae angen gwneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd yn y flwyddyn bresennol ar welliannau etholfraint a chyfalaf yn y dyfodol a fydd yn dylanwadu ar gyfleoedd yn y dyfodol.
- 2.30.14 Mae rhwydwaith teithio llesol yn cael ei ddatblygu i sicrhau cysylltiadau da ar gyfer beicwyr a cherddwyr i gyrchfannau allweddol.

2.31 Twf technoleg newydd (gan gynnwys mynediad i'r rhyngwrwd a heriau cymdeithasol megis seibrfwlio)

Llewyrchus

Cydnherth

Mwy cyfartal

Cydllynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.31.1 Mae pwysigrwydd cael mynediad i'r rhyngwrwd a'r we wedi cynyddu'n sylweddol yn y ddegawd ddiwethaf. Yn y dechrau roedd y rhyngwrwd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyfnwid gwybodaeth neu gyfathrebu ar-lein, nawr mae cyfrifiaduron, ffonau symudol, setiau teledu clyfar ac offer digidol eraill yn gallu

cael mynediad i'r rhyngwrwd, apiau sydd wedi'u cysylltu â'r rhyngwrwd, cyfryngau ffrydio a storfa ar gwmwl yn rhan o'r holl weithgareddau dyddiol.

- 2.31.2 Ar gyfer sawl unigolyn, mae'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter, Whatsapp a Snapchat wedi dod yn hanfodion dyddiol. Ynghyd â darparu dull o ryngweithio cymdeithasol mae hefyd yn cael ei ddefnyddio fel modd o dderbyn newyddion a gwybodaeth, ac fel cymorth i wneud penderfyniadau.
- 2.31.3 Mae gan dechnolegau newydd rôl ehangach o ran gweithgareddau hamdden a diwylliannol. Yn fwy a mwy mae cyfryngau sy'n cael eu darlledu'n cael ei gyrchu drwy deledu sy'n cysylltu â'r rhyngwrwd a blychau digidol, ac mae cyfryngau ffrydio yn caniatáu mynediad uniongyrchol i gerddoriaeth a theledu/ffilmiau, gemau rhyngweithiol, chwaraeon sy'n cael eu darlledu'n fyw ac yn hwyluso cyfranogiad mewn digwyddiadau diwylliannol rhyngwladol o'ch ystafell fyw eich hunan.
- 2.31.4 Mae mynediad masnachol a busnes i'r rhyngwrwd hefyd yn hanfodol. Yn ogystal â darparu cyfleoedd marchnata a gwerthu ar-lein mae'r rhyngwrwd yn cynnig dull o weithio o bell, cydweithrediad o bell, mynediad i offer gwaith a storfa ddata ar-lein, mynediad i rannu gwybodaeth a gwaith ymchwil, a chysylltedd rhyngwladol drwy dechnoleg cyfathrebu ar unwaith - a gall y cyfan fod yn fwy cynhyrchiol a chost effeithlon na'r elfennau cyfwerth all-lein.
- 2.31.5 Mae'r byd seibr a thechnolegau cyfathrebu hefyd yn cynnig y posibilrwydd o gyflogaeth a thwf economaidd, gan ei fod yn sector cyflog uchel sy'n ehangu. Gall olygu buddsoddiad cyfyngedig mewn seilwaith traddodiadol, darpariaeth adeiladau a thir na llawer o'r diwydiannau eraill, gan ei fod yn symudol, hyblyg, ac yn cynnwys agweddau sy'n cefnogi gweithio hyblyg/gweithio gartref a busnesau bychain newydd ynghyd â datblygiadau busnes mawr.
- 2.31.6 Mae'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn dibynnu fwy a mwy ar dechnoleg i gynorthwyo i ddarparu eu gwasanaethau, naill ai drwy drafodion ar-lein neu fel offeryn gwybodaeth. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys gwefan Galw Iechyd Cymru, ceisiadau ar-lein am fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, gwneud cais i gael biniau ailgylchu newydd, dosbarthu newyddlenni ysgolion, neu roi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau bach.
- 2.31.7 O gymharu â'r ffigurau cenedlaethol mae gan ardal Sir y Fflint a Wrecsam NUTS⁶ gyfradd is o bobl yn derbyn cysylltiad i'r rhyngwrwd na'r cyfartaledd cenedlaethol. Erbyn dechrau 2016, mae bron i 16% o'r holl breswylwyr 16+ oed naill ai erioed wedi defnyddio'r rhyngwrwd neu heb ei ddefnyddio ers dros tri mis. Ar gyfer Cymru gyfan y ffigur oedd 14%, a dim ond 12% oedd y cyfartaledd ar draws y DU¹²⁰.
- 2.31.8 Mae ardaloedd daearyddol 'cysylltiad gwael' ar draws yr ardal (lleoedd lle bo mynediad i'r rhyngwrwd yn gyfyngedig, araf neu ddim yn bodoli o gwbl). Yn draddodiadol disgwylir i ardaloedd gwledig ddiodef o wasanaeth band eang gwael a signal 3G/4G gwael o gymharu â'r ardaloedd trefol, ond dylid nodi nad yw'r ardaloedd cysylltiad gwael hyn wedi'u cyfyngu i'r ardaloedd mwyaf pellennig neu anhygyrch. Mae nifer o deuluoedd incwm isel sy'n methu â fforddio tanysgrifio i wasanaethau band eang. Gall data symudol fod yn ddewis mwy fforddiadwy a hyblyg o gymharu â pheynnau band eang sefydlog gan y gellir ei gael heb gostau gosod, rhent llinell neu gcontractau hir dymor. Heb fynediad i


⁶ Mae dosbarthiad NUTS (cyfundrefn enwau unedau tiriogaethol ar gyfer ystadegau) yn system hierarchaeth ar gyfer rhannu tiriogaeth economaidd yr UE.

holl ddarparwyr data symudol 4G, ni fydd sawl cwsmer yn elwa o'r un cynigion y mae eraill yn eu derbyn ar draws y DU.

- 2.31.9 87% o eiddo yn Sir y Fflint sy'n gallu derbyn 3G dibynadwy gan y 4 prif weithredwyr ffonau symudol⁷ (88% yn y DU yn gyffredinol). Dim ond 3% eiddo o fewn Sir y Fflint sy'n derbyn signal 4G dibynadwy ar gyfer yr holl weithredwyr (lefel y DU yw 46%).
- 2.31.10 Rhagwelir nad yw 5% o aelwydydd yn Sir y Fflint yn derbyn cyflymder band eang o 10 megabeit yr eiliad o leiaf (Mbps). Mae'r llywodraeth yn credu y dylai pawb gael hawl cyfreithiol i ofyn am gysylltiad 10Mbps. Mae band eang cyflym iawn ar gael i 78% o'r eiddo yn Sir y Fflint (lefel y DU yw 83%)¹²¹.
- 2.31.11 Mae mynd i'r afael â chynhwysiant digidol yn golygu edrych ar yr amrywiaeth o rwystrau eraill i gael mynediad i'r rhyngrwyd. Mae'r rhai sydd wedi'u hallgau'n gymdeithasol ac economaidd – aelwydydd tlotach, pobl anabl a'r henoed, er enghraifft – yn llai tebygol o lawer o ddefnyddio'r rhyngrwyd na'r boblogaeth fel cyfanrwydd.
- 2.31.12 Ar y cyfan, mae adroddiad 'Connected Nation 2015' OfCom yn rhagweld tebygolrwydd allgau digidol Sir y Fflint fel 'uchel iawn' ar gyfer y dangosyddion digidol a 'uchel ar gyfer y dangosyddion chymdeithasol.

Siart 2.32.1: defnydd o'r rhyngrwyd yng Nghymru 2015

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru



- 2.31.13 Ynghyd â'r cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd a gynigir gan dechnolegau digidol, mae rhai agweddau negyddol o ran diogelwch ar-lein sy'n peri mwy a mwy o bryder, ac y mae awdurdodau cyhoeddus, darparwyr technoleg a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd yn parhau i ddatblygu dulliau i fynd i'r afael â'r agweddau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli mynediad i gynnwys amhriodol ar

⁷ EE, O2, Three, Vodafone

gyfer plant a phobl ifanc, meithrin perthnasau amhriodol ar-lein (gan gynnwys radicaleiddio), seibrfwlio a thwyll/dwyn hunaniaeth ar-lein.

2.31.14 Seibrfwlio yw pan fydd rhywun yn bwlio eraill dros y rhynggrwyd neu ar ffôn symudol drwy anfon e-byst neu negeseuon testun camdriniol yn uniongyrchol i'r dioddefwr, neu drwy roi neu rannu sylwadau cas neu luniau sy'n codi cywilydd lle y gall pobl eraill eu gweld. Gall seibrfwlio gael effaith negyddol ar les meddyliol, ac mae'n broblem benodol ar gyfer pobl ifanc.

- Un o'r gwahaniaethau mwyaf rhwng seibrfwlio a bwlio wyneb yn wyneb yw y gall fod yn anodd dianc oddi wrtho. Gall dioddefwyr gael eu bwlio yn unrhyw le, ar unrhyw adeg- hyd yn oed pan fyddant yn eu cartref.
- Gall seibrfwlio gael cynulleidfa fawr hefyd. Gall nifer o bobl weld pethau ar gyfryngau cymdeithasol, e-byst neu sgysiau grŵp yn gyflym iawn.
- Gall rhai sy'n cyflawni seibrfwlio aros yn anhysbys, drwy ddefnyddio proffiliau ffug ar rwydweithiau cymdeithasol neu flocio eu rhifau ffôn. Gall hyn ei gwneud yn anoddach canfod pwy sy'n bwlio.
- Negeseuon testun anwedus – math o seibrfwlio sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth a delweddau personol – gall achosi pryderon mawr, ac mae'n cynnwys delweddau digymell a anfonir i ddiodefwyr ynghyd â'r defnydd o'u lluniau /sylwadau eu hunain i flacmelio, bwlio neu niweidio'r dioddefwyr.

2.31.15 Mae twyll ar-lein a dwyn hunaniaeth yn feysydd pryder penodol. Er bod y rhain yn fathau newydd o weithgarwch cymunedol hirsefydlog, fel seibrfwlio mae'r twf o ran technoleg newydd yn golygu bod y mathau hyn o gam-drin ym mhobman, drwy'r amser. Mae bygythiadau yn cynnwys firysau, sy'n gallu heintio eich cyfrifiadur a'i ddifrodi, a thwyll ar-lein. Twyll ar-lein yw pan fydd troseddwr yn defnyddio'r rhynggrwyd i geisio twyllo pobl i roi arian neu gwybodaeth bersonol iddynt, ac maent yn cynnwys gwefannau ffug, e-byst wedi'u targedu a hyd yn oed meithrin perthynas amhriodol gyda dioddefwyr drwy fforymau ar-lein. Gall unrhyw un ddiodeff twyll fel hyn ond efallai y bydd pobl hyn yn cael eu targedu'n benodol, yn aml oherwydd y tybir fod ganddynt fwy o arian na phobl iau. Mae Age UK yn pryderu'n benodol oherwydd y newidiadau diweddar i bensiynau preifat sy'n caniatáu pobl 55+ oed i dderbyn eu holl gynilion pensiwn mewn arian parod ac y bydd hyn yn annog twyllwyr i dargedu'r grŵp oedran hwn fwy nag o'r blaen¹²².

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.31.16 Mae'r modd y mae pobl yn derbyn mynediad at wybodaeth wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r defnydd o'r rhynggrwyd yng Nghymru wedi cynyddu o 42% o aelwydydd yn 2004 i 78% o aelwydydd yn 2015. Amcangyfrifir bod gan 99% o gartrefi yng Nghymru fynediad i'r rhynggrwyd sydd wedi cynyddu o ddim ond 12% yn 2004. Mae hyn, ynghyd â'r cynnydd cyflym yn y defnydd o ffonau clyfar a'r apiau cysylltiedig, wedi galluogi mynediad haws at ystod eang o wybodaeth a gwasanaethau digidol nag unrhyw gyfnod arall mewn hanes¹²³.

2.31.17 Mae defnydd rhynggrwyd unigol ar gyfer rhai 16+ oed yn Sir y Fflint ac Ardal NUTS 3 Sir y Fflint wedi cynyddu o 82% yn 2011 i 84% erbyn 2016.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.31.18 Os yw'r gyfradd hon o dwf yn parhau, rhagwelir y bydd gan bron i bob aelwyd yng Nghymru fynediad at y rhyngwrwyd o fewn y 10 mlynedd nesaf.
- 2.31.19 Ym mis Rhagfyr 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Cyflawni Cymru Ddigidol", strategaeth ar gyfer yr holl fudd-ddeiliaid a'r partneriaid yng Nghymru i wireddu manteision cyfathrebu digidol, a chydabod fod gan gyfathrebu digidol le canolog bellach yn nhwf ein heconomi ac yn ansawdd ein bywydau. Yn benodol ar gyfer y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru am weld rhagor o wasanaethau cyhoeddus ac o wasanaethau'r llywodraeth yn cael eu darparu'n ddigidol er mwyn iddynt fod yn haws cael mynediad atynt ac er mwyn iddynt ddod yn fwy effeithlon ac yn fwy cyfleus.

2.32 Cydraddoldeb ac amrywiaeth / cydlyniant cymunedol

Mwy cyfartal

Cydlynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.32.1 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru¹²⁴ yn darparu'r mesuryddion canlynol o gydlyniant cymunedol ar gyfer Sir y Fflint. Mae cydlyniant cymunedol yn yr ardal yn wanaf yn gyffredinol na chyfartaledd Cymru yn Sir y Fflint.
- Mae canran yr unigolion sy'n cytuno fod ganddynt 'ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol' yn 82% o gymharu â ffigur Cymru gyfan o 82%.
 - Mae canran yr unigolion sy'n cytuno fod 'pobl yn yr ardal leol sydd o gefndiroedd gwahanol yn dod ymlaen yn dda gyda'i gilydd' yn 71% o gymharu â ffigur Cymru gyfan o 79%.
 - Mae canran yr unigolion sy'n cytuno fod 'pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth' yn 71% o gymharu â ffigur Cymru gyfan o 79%.
- 2.32.2 Mae gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddyletswydd statudol i ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd drwy roi sylw dyledus i waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, datblygu cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da.
- 2.32.3 Gall amlygiad i anghydraddoldeb ddigwydd yn gynnar iawn mewn bywyd a gall fod yn rhwystr sy'n atal plant rhag cyflawni eu potensial o'r cychwyn cyntaf, a pharhau i fod yn bresenoldeb parhaus sy'n llechu drostynt wrth iddynt symud ymlaen drwy eu bywydau.
- 2.32.4 Mae'r holl ffigurau yn pwyntio tuag at gynnydd mewn amrywiaeth yn ein poblogaeth. Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cydnabod nodweddion amrywiol ein poblogaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfleoedd i bawb. Mae'n rhaid i ni gydnabod yr amrywiaeth hwn wrth gynnwys pobl yn ein prosesau o wneud penderfyniadau ar gyfer ein cymunedau a'n gwasanaethau cyhoeddus, a sicrhau cynrychiolaeth gan ein holl bobl.

Tabl 2.32.1: nodweddion poblogaeth yn Sir y Fflint

Grŵp cydraddoldeb	Disgrifiad	Sir y Fflint		Cymru	Cyfeiriad poblogaeth	Ffynhonnell a dyddiad
		Nifer	%			
Ethnigrwydd	Gwyn Prydeinig	146,185	95.9%	93.2%	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Gwyn arall	3,976	2.6%	2.4%		
	Grŵp ethnig cymysg	851	0.6%	1.0%		
	Grŵp ethnig arall	1,494	1.0%	3.4%		
Hunaniaeth genedlaethol	Wedi'u geni yng Nghymru	76,243	50.0%	72.7%	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Wedi'u geni yng ngweddill y DU	69,835	45.8%	21.9%		
	Wedi'u geni y tu allan i'r DU	6,428	4.2%	5.5%		
	Cymro / Cymraes / Sais / Saesnes / Albanwr / Albanes / Gwyddel neu Wyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeiniwr / Prydeinwraig	148,027	97.1%	96.1%		
	Hunaniaeth Cymysg - Cymro / Cymraes / Sais / Saesnes / Albanwr / Albanes / Gwyddel neu Wyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeiniwr / Prydeinwraig ac arall	383	0.3%	0.4%		
	Hunaniaethau cenedlaethol eraill yn unig	4,096	2.7%	3.4%		
	Cyfanswm gyda hunaniaeth Gymraeg	65,129	42.7%	65.9%		
Oed	0-15	28,351	18.4%	17.9%	Yr holl bobl	Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2015
	16-24	15,585	10.1%	11.8%		
	25-44	36,973	24.0%	23.8%		
	45-64	42,170	27.4%	26.3%		
	65+	30,995	20.1%	20.2%		
	85+	3,421	2.2%	2.6%		

Tabl 2.32.1: nodweddion poblogaeth yn Sir y Fflint (parhad)

Grŵp cydraddoldeb	Disgrifiad	Sir y Fflint		Cymru	Cyfeiriad poblogaeth	Ffynhonnell a dyddiad
		Nifer	%			
Rhyw	Gwrywod	75,926	49.3%	49.2%	Yr holl bobl	
	Benywod	78,148	50.7%	50.8%		
Anabledd	Salwch hir dymor cyfyngedig	29,663	19.5%	23.7%	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Anabledd sy'n cyfyngu'r gallu i weithio	17,800	18.7%	22.8%	Working age	Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2015
Crefydd / cred	Cristion	101,298	66.4%	57.6%	Yr holl bobl	Cyfrifiad 2011
	Dim crefydd	38,726	25.4%	32.1%		
	Crefydd arall	1,445	0.9%	2.7%		
	Dim ymateb.	11,037	7.2%	7.6%		
Tueddfryd rhywiol	Heterorywiol			95.0%	Yr holl bobl 16 oed neu hŷn	Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2015
	Hoyw neu lesbiaid			1.0%		
	Deurywiol			0.6%		
	Arall			0.5%		
Y Gymraeg	Siaradwyr Cymraeg:	19,343	13.2%	19.0%	Yr holl bobl 3 oed neu hŷn	Cyfrifiad 2011
	Dim gwybodaeth o'r iaith Gymraeg	116,736	79.4%	73.3%		
	Siaradwyr Cymraeg	32,600	21.7%	27.3%		Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2015

2.32.5 Ethnigrwydd

- Roedd y grŵp ethnig Prydeinig Gwyn yn ffurfio 95.9% o'r boblogaeth yn Sir y Fflint yn ôl Cyfrifiad 2011 (Cymru=93.2%, Cymru a Lloegr = 80.5%). Yn 2001 roedd y grŵp yn ffurfio 97.7% o'r boblogaeth.
- Roedd y grŵp ethnig 'gwyn arall' – gan gynnwys Gwyddelod, Ewropeaid gwyn eraill, Awstraliaid gwyn a phobl wyn o America – yn 2.6% o'r boblogaeth neu 4,000 o bobl yn 2011. Y ffigur yn 2011 ar gyfer Cymru oedd 2.4% a 5.5% ar gyfer Cymru a Lloegr.
- Roedd pobl ag ethnigrwydd cymysg yn ffurfio 0.6% o'r boblogaeth yn 2011. Mae hyn yn cymharu â 0.4% yn 2001. Mae hyn oddeutu 850 o bobl yn 2011. Mae'n cymharu â chanrannau o 1.0% yng Nghymru a 2.2% yng Nghymru a Lloegr.
- Roedd pob ethnigrwydd arall wedi'u cyfuno yn 1.0% o'r boblogaeth neu oddeutu 1,500 o bobl. Mae hyn wedi cynyddu o 0.4% o'r boblogaeth neu 650 o bobl yn 2001. Mae hyn yn cymharu â chanlyniadau Cyfrifiad 2011 o 3.4% ar draws Cymru a 11.8% yng Nghymru a Lloegr. Y grŵp ethnig mwyaf o fewn y cyfanswm hwn yw Tsieiniaid gyda 0.2% o'r boblogaeth neu oddeutu 300 o bobl.

2.32.6 Hunaniaeth genedlaethol

- Yn ôl Cyfrifiad 2011 mae oddeutu 97.1% o bobl yn Sir y Fflint wedi nodi fod ganddynt hunaniaeth genedlaethol sy'n gysylltiedig â chenedloedd y DU yn unig (Cymro/Cymraes, Sais/Saesnes, Albanwr/Albanes, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon, Prydeiniwr/Prydeinwraig).
- Mae gan 2.7% o boblogaeth hunaniaeth(au) genedlaethol heblaw Cymro/Cymraes/ Sais/Saesnes / Albanwr/Albanes / Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon / Prydeiniwr / Prydeinwraig. Roedd gan 0.3% arall hunaniaethau cymysg y DU a hunaniaethau cenedlaethol eraill.
- Nid oes data hanesyddol i gymharu sut y mae hyn wedi newid dros amser. Fodd bynnag yn 2001, roedd 2.6% o boblogaeth preswylwyr Sir y Fflint wedi'u geni y tu allan i'r DU, o gymharu â 4.2% yn 2011 (Ffigur Cymru gyfan yn 2011=5.5%, Cymru a Lloegr=13.4%).

2.32.7 Oed

- Mae strwythur oedran Sir y Fflint yn debyg i gyfartaledd y DU.
- Mae mwy o wybodaeth am boblogaeth pobl ifanc yn [adran 2.2 'Cadw pobl ifanc yn y boblogaeth'](#).
- Mae mwy o wybodaeth am bobl hŷn yn [adran 2.3 'Heneiddio'n dda'](#).

2.32.8 Rhyw

- Mae mwy o fenywod na gwrywod yn y boblogaeth, yn bennaf oherwydd y ffaith bod merched yn byw'n hirach na dynion. Cymhareb gwrywod:benywod yn 2015 oedd 100:103 (Cymru a Lloegr=100:103)
- Cymhareb gwrywod:benywod ar gyfer plant yn Sir y Fflint yw 100:97. Mae hyn yn gymharol â'r cymarebau ar gyfer Cymru a'r DU (100:95). Nid yw'r gymhareb yn gyfartal, gan fod mwy o fechgyn yn cael eu geni na merched.

- Cymhareb gwrywod:benywod ar gyfer y grŵp oedran gwaith yw 100:101, sydd yr un fath â'r ffigurau ar gyfer Cymru gyfan a'r DU (100:101).
- Mae cymhareb gwrywod:benywod ar gyfer y grŵp oedran 65+ yn 100:115. Mae hwn yn ffigur is na ffigur Cymru gyfan, sef 100:119 (cymhareb y DU yw 100:121).

2.32.9 Anabledd

- Mae nifer yr unigolion gyda salwch hirdymor cyfyngol yn Sir y Fflint wedi cynyddu o 28,500 yn 2001 i 29,650 yn 2011. Mae'r rhai gyda salwch hirdymor cyfyngol yn ffurfio 19.5% o'r boblogaeth, o gymharu â ffigur Cymru o 23.7%.
- Rhagwelir y bydd nifer yr unigolion gyda salwch hirdymor cyfyngol yn Sir y Fflint yn cynyddu o oddeutu 4,450 rhwng 2015 a 2035.
- Nid oes data dibynadwy ar nifer yr unigolion sy'n byw gydag anabledd, felly mae hwn yn fesur procsi.

2.32.10 Crefydd

- Er bod y niferoedd wedi gostwng ers 2001, Cristnogaeth oedd y grefydd fwyaf gyda 66.4% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn Gristnogion. Rhwng 2001 a 2011 bu gostyngiad yng nghyfran y bobl sy'n nodi eu bod yn Gristnogion a chynnydd yn y rhai sy'n adrodd nad oes ganddynt unrhyw grefydd.
- Ar y cyfan, mae nifer yr unigolion gyda chrefydd heblaw Cristnogaeth bron wedi dyblu rhwng 2001 a 2011 o 800 i 1,450 neu 0.9% o'r boblogaeth. O fewn y niferoedd hyn, Mwslimiaid oedd y grŵp crefyddol mwyaf gyda 0.3% o'r boblogaeth yn yr ardal.
- Y cwestiwn am grefydd yw'r unig gwestiwn gwirfoddol ar y cyfrifiad ac roedd oddeutu 7.2% o'r boblogaeth heb ateb y cwestiwn yn 2011 (yn debyg i gyfraddau peidio ag ymateb yn 2001).

2.32.11 Tueddfryd rhywiol

- Nid oes data dibynadwy am faint y boblogaeth hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol yn y DU. Mae amcangyfrifon o amrywiol ffynonellau yn amrywio o 0.3% i 10%, ond nid ydynt yn caniatáu ar gyfer pobl nad ydynt yn adrodd neu'n cam-adrodd ac felly mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn credu nad yw'r un o'r rhain yn darparu sylfaen ddigonol ar gyfer rhagamcan. Yr unig ystadegau sydd gennym ar lefel Cymru gyfan yw Arolwg Poblogaeth Blynnyddol / Arolwg Integredig o Gartrefi sy'n rhoi amcanestyniad o ddim ond oddeutu 2% o'r boblogaeth yn hoyw/lesbiaid/deurywiol neu arall.
- Mae hwn yn faes sensitif. Ni fydd rhai unigolion yn fodlon rhannu gwybodaeth am eu hunaniaeth rywiol a gall cynnwys cwestiynau am hyn atal pobl rhag ateb arolygon neu gymryd rhan mewn ymgynghoriad, felly mae'n anodd ei fesur.
- Mae'r Adran Masnach a Diwydiant yn rhoi amcangyfrif swyddogol bod 5-7% o boblogaeth Prydain yn hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol.

2.32.12 Y Gymraeg

- Mae Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif bod 19,343 o bobl 3 oed neu hŷn yn Sir y Fflint sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Mae hyn yn 13.2% o'r boblogaeth. Ar gyfer Cymru gyfan, mae 19% o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Mae mwy o wybodaeth yn [adran 2.33 'Hybu'r iaith Gymraeg'](#).

2.32.13 Bylchau data

- Nid oes data ar gael am bobl sy'n drawsryweddol ar lefel awdurdodau unedol nac ar lefel genedlaethol.
- Nid oes ffynhonnell gynhwysfawr o ddata ynglŷn ag anabledd. Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth ynglŷn â salwch cyfyngol tymor hir a gofalwyr di-dâl ar lefel awdurdod unedol. Mae cofrestr o bobl â nam corfforol a / neu nam ar y synhwyrâu a phobl ag anableddau dysgu sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol, ond dim ond gwybodaeth am y bobl hynny sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor yw hynny.
- Yr unig ffynhonnell ddata am ymlyniad crefyddol ar lefel awdurdod unedol yw Cyfrifiad 2011.
- Y data mwyaf dibynadwy ar gyfer ffigurau ethnigrwydd ar gyfer poblogaeth ar lefel awdurdod unedol yw Cyfrifiad 2011. Mae ffigurau sy'n fwy cyfredol ar gael ar lefel Cymru gyfan. Mae Cyfrifiad Ysgolion yn darparu data ethnigrwydd diweddar ar gyfer disgyblion ysgol yn unig.
- Mae ffigurau hunaniaeth genedlaethol ar gael ar gyfer awdurdodau unedol o Gyfrifiad 2011 yn unig.
- Mae gan Gyfrifiad 2011 ddata manwl am yr iaith Gymraeg. Mae'n darparu data am sgiliau iaith Gymraeg, a dadansoddiad o siaradwyr Cymraeg yn ôl oedran, cenedligrwydd a daearyddiaeth. Mae'r Cyfrifiad Ysgolion hefyd yn darparu data am ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac am ddisgyblion yn yr holl ysgolion sy'n gallu siarad Cymraeg.
- Mae'r Arolwg Poblogaeth Blyneddol yn cynhyrchu ffigurau ar gyfer awdurdodau unedol, ond oherwydd y cyfyngiad o ran maint y sampl, nid ydynt yn cael eu hystyried fel ffynhonnell ddata gadarn ar y lefel hon. Felly nid ydynt yn cael eu hargymell i'w defnyddio ar lefel Awdurdod Unedol ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl uchod. Mae ffigurau Cymru wedi'u cynnwys gan eu bod yn cael eu hystyried fel data cadarn.

2.33 Hybu'r iaith Gymraeg

Mwy cyfartal

Cydlynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.33.1 Yr iaith Gymraeg yw un o ieithoedd lleiafrifol mwyaf cadarn Ewrop, wedi goroesi er gwaethaf ei hagosrwydd at iaith gryfaf y byd yn y ddwy ganrif ddiwethaf

(Saesneg). Mae'r iaith Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant a hunaniaeth yr ardal, ac yn brif iaith a siaradir yn rhai o'n cymunedau, ynghyd â chael presenoldeb sylweddol mewn sawl gweithle, sefydliadau dysgu, ac ar strydoedd ein trefi a'n pentrefi. Mae sgiliau Gymraeg yn cael eu hystyried fel sgiliau cyflogaeth allweddol mewn nifer o'r sectorau sy'n dod i'r amlwg, megis y cyfryngau, sectorau bwyd a thwristiaeth, a chynhyrchu cynnwys digidol.

2.33.2 The 2011 Census estimates that there are people aged 3 or over who are able to speak Welsh in Flintshire. This is 13.2% of the population. For Wales as a whole 19% of the population are able to speak Welsh. Mae Cyfrifiad 2011 yn amcangyfrif bod 19,343 o bobl 3 oed neu hŷn yn Sir y Fflint yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn 13.2% o'r boblogaeth. Ar gyfer Cymru gyfan, dim ond 19% o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg.

2.33.3 Mae'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y sir yn d etholiadol (ward) De'r Wyddgrug, gyda 30.6%. Saltney Stonebridge, sy'n ffinio â Lloegr, yw'r ward â'r gyfran leiaf o siaradwyr Cymraeg gyda dim ond 6.1%. Yn gyffredinol, mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn uwch mewn ardaloedd gwledig.¹²⁵

2.33.4 Mae data o arolwg defnydd yr iaith Gymraeg 2013-15¹²⁶ yn dangos bod:

- lefelau rhuglder ymysg siaradwyr Cymraeg 3 oed a hŷn yn agos at gyfartaledd Cymru yn 25% yn Sir y Fflint (Cymru = 47%). Mae lefelau rhuglder siarad yn llunio cysylltiad cryf gyda sgiliau eraill y Gymraeg.
- mae'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol (71%) a 23% wedi dysgu yn y cartref yn blentyn bychan. Roedd oddeutu 5% wedi dysgu drwy gyrsiau Cymraeg i Oedolion. (Cymru=43% yn y cartref, 50% yn yr ysgol, 5% cyrsiau Cymraeg i Oedolion).
- dim ond 6% o siaradwyr Cymraeg Sir y Fflint sydd bob amser neu fel arfer yn defnyddio Cymraeg wrth ddelio â sefydliad cyhoeddus (Cymru=29%). Nododd 69% nad oeddent byth yn defnyddio Cymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus, a oedd yn sylweddol uwch na ffigur Cymru gyfan o 49%.
- Ni nododd unrhyw siaradwyr Cymraeg y gallant siarad Cymraeg yn y gweithle bob tro neu fel arfer yn Sir y Fflint – cyfartaledd Cymru yw 32%. Nododd 61% nad oeddent byth yn defnyddio Cymraeg yn y gwaith, a oedd yn sylweddol uwch na ffigur Cymru gyfan o 42%.
- Ar draws Cymru, mae gweithwyr y sector cyhoeddus sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser/fel arfer yn y gweithle (35%) nag yn y sector preifat (30%) neu'r trydydd sector/gwirfoddol (24%).

2.33.5 Ym mlwyddyn ysgol 2015/16, roedd 5 o'r 67 o ysgolion cynradd yn yr ardal yn ysgolion Cymraeg iaith gyntaf neu ysgolion dwyieithog. Roedd 900 o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn, a oedd yn 6% o'r holl ddisgyblion ysgol gynradd (; Cymru=26%).

2.33.6 Mae dim ond un o'r 9 o ysgolion uwchradd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Roedd 500 o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn, sef 5% o'r holl ddisgyblion uwchradd. (Cymru=33%)¹²⁷.

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

2.33.7 Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal wedi cynyddu rhwng 1981 a 1991 maent wedi gostwng mewn nifer yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran y

siaradwyr Cymraeg yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng yn raddol ers sawl cenhedlaeth yn Sir y Fflint.

Tabl 2.34.1: Siaradwyr Cymraeg

Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth, ONS

	Sir y Fflint		Cymru
	Nifer.	%	%
2011	19,343	13.2%	19.0%
2001	20,227	14.1%	20.5%
1991	18,399	13.5%	18.7%
1981	16,632	12.7%	19.0%

Canran y rhai sy'n 3 oed neu'n hŷn

- 2.33.8 Mae'n rhaid trin y cynnydd calonogol o ran nifer y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg ar ôl i Ddeddf yr Iaith Gymraeg gyflwyno Cymraeg fel pwnc gorfodol mewn ysgolion â gofal. Roedd mwyafrif y bobl ifanc hyn yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, a'u hamlygiad i'r iaith a'u lefel o ruglder yn debygol o fod yn gyfyngedig o gymharu â phlant sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ffigurau diweddaraf o'r Cyfrifiad yn awgrymu nad yw gallu Cymraeg y mae plant yn ei ddysgu fel plant yn cael ei gynnal pan yn oedolyn o reidrwydd.
- 2.33.9 Yn genedlaethol, gostyngodd y lefelau rhuglder rhwng arolygon defnydd y Gymraeg 2004-6 a 2013-15.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.33.10 Er mwyn goroesi, mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn iaith ar gyfer cyfathrebu. Mae cyflwyno'r Gymraeg fel pwnc gorfodol mewn ysgolion wedi atal neu o leiaf arafu tuedd 1901-1981 a fyddai wedi arwain at 'ddim siaradwyr Cymraeg' a ragwelwyd erbyn 2041, ond mae'n rhaid gwneud mwy.
- 2.33.11 Mae tystiolaeth a gasglwyd ar gyfer Strategaeth y Gymraeg¹²⁸ gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod
- amlygiad parhaus drwy gyfnod oes i unrhyw iaith yn ofynnol er mwyn i'r unigolyn gynnal yr iaith honno.
 - y boblogaeth sydd â'r perygl mwyaf o beidio â defnyddio'r iaith Gymraeg yw teuluoedd lle bo un rhiant/gofalwr yn siarad Cymraeg a bod statws yr iaith yn y gymuned yn effeithio ar agwedd y rhieni/gofalwyr tuag at ddefnyddio'r iaith.
 - mae iaith 'cymuned' siaradwyr y plentyn sy'n cynnwys rhieni/gofalwyr, neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, athrawon ac ysgol, yn dylanwadu ar yr iaith y mae'r plentyn yn ei siarad. Mae'r iaith ar gyfer cyfathrebu gyda chyfeillion yn cyfateb yn gryf â'r iaith y mae'r plentyn yn ei siarad, ac mae'n dylanwadu ar agweddau'r plant tuag at y naill iaith neu'r ddwy iaith.
 - mae llenyddiaeth yn awgrymu y gallai rôl darparwyr addysg Blynnyddoedd Cynnar ddatblygu o ran darparu mwy o gefnogaeth ymarferol a dwys i rieni

/ gofalwyr er mwyn creu amgylchedd dysgu yn y cartref sy'n hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

- mae'r blynyddoedd cynnar a'r ardegau yn cael eu hystyried yn gyfnod hanfodol i ddatblygu ymddygiad cadarnhaol tuag at iaith leiafrifol ac i benderfynu a yw'r iaith yn cael ei chynnal a'i throsglwyddo.
- fodd bynnag, nid yw dysgu a siarad Cymraeg yn yr ysgol yn ddigon ar ei ben ei hun; mae'n rhaid defnyddio iaith a'i gefnogi yn y cartref (os yn bosibl) a thrwy weithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach.
- diffyg hyder oedd un o'r prif rwystrau oedd yn atal staff rhag defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gwaith. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ymddangos i fod yn ddull llwyddiannus o gynyddu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ymysg staff.
- ychydig o dystiolaeth eglur sy'n bodoli i ddangos bod darpariaeth gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol yn cynyddu statws neu ddefnydd yr ieithoedd. Fodd bynnag, mae digonedd o dystiolaeth sy'n dangos y bydd ieithoedd yn ffynnu pan fo cyfleoedd i'w defnyddio ym mhob agwedd o fywyd yn unig.
- mae tystiolaeth gref o gefnogaeth gan y boblogaeth yng Nghymru ar gyfer darpariaeth gwasanaethau Cymraeg. Mae mwy na naw o bob deg o siaradwyr Cymraeg (gydag ystod o lefelau rhuglder) yn credu bod darpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn bwysig i gadw'r iaith yn fyw.
- ers cyflwyno Deddf yr Iaith Gymraeg, mae tystiolaeth yn dangos y bydd rhwystrau rhag derbyn gwasanaethau yn Gymraeg yn parhau. Y prif rwystrau yw diffyg cyflenwad gwasanaethau yn Gymraeg, diffyg galw am wasanaethau oherwydd diffyg hyder ymysg siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl a diffyg ymwybyddiaeth bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg. Mae diffyg tystiolaeth o ran effeithiolrwydd dulliau penodol o fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn, ond mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod marchnata argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn gallu arwain at gynnydd o ran eu defnydd.
- mae ymchwil yn awgrymu canolbwyntio marchnata ac agweddau hyrwyddo'r iaith Gymraeg ar grwpiau oedran iau; gwella hygyrchedd a pherthnasedd y cyfryngau ac adnoddau Cymraeg sydd ar gael; a gwneud y mwyaf o botensial technoleg megis y rhyngwyd a chyfryngau cymdeithasol newydd.

2.34 Diwylliant sy'n ffynnu

Llewyrchus

Cydlynus

Diwylliant

Byd-eang

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.34.1 Mae hwn yn faes asesu sydd angen gwaith pellach ac yn fwlc hwybodaeth ar hyn o bryd. Mae hyn cael ei waethygu ymhellach oherwydd diffyg eglurder o ran ystyr diwylliant. At hynny, mae gwerth cynhenid diwylliant, yn rhannol, yn honiad athronyddol na ellir ei fesur mewn niferoedd. Mae hyn yn faes o'r asesiad lles sy'n cyflwyno rhai heriau o ran deall a meintoli'r testun.

2.34.2 Mae prinder tystiolaeth gadarn ynglŷn â gwerth ac effaith diwylliant ar les, yn enwedig ar lefel leol. Er mwyn deall pwysigrwydd diwylliant sy'n ffynnu ar les yr ardal a mesur pa mor dda yr ydym yn cyflawni hyn, mae'n rhaid i ni wybod sawl peth y mae gennym wybodaeth gyfyngedig (neu ddim gwybodaeth) amdanynt gan nad ydynt yn cael eu mesur neu eu monitro ar hyn o bryd. Ymysg y pethau eraill yr ydym angen ei wybod:

- beth ydym ni'n ei briodoli fel diwylliant/ gweithgarwch diwylliannol
- pa asedau neu ddarpariaethau diwylliannol sydd gennym ar hyn o bryd?
- lle mae o, beth ydi o, pwy sy'n ei brofi neu'n ei dderbyn, pwy sy'n ei ddarparu?
- ai dyma'r lleoliadau/pobl/mathau o ddarpariaethau cywir?
- beth sy'n cyfrif fel safonau darparu 'da'?
- sut ydym ni'n mesur effaith ein diwylliant?

2.34.3 Gwnaed rhywfaint o ymchwil eilaidd ar y testun fodd bynnag. Mewn adroddiad yn 2014¹²⁹, mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn nodi bod:

“..art and culture make life better, help to build diverse communities and improve our quality of life. Great art and culture can inspire our education system, boost our economy and give our nation international standing.”

2.34.4 Mae'r adroddiad yn nodi rhai o effeithiau cadarnhaol y gall mynediad at a chyfranogiad mewn digwyddiadau celfyddydau a diwylliannol ei gael ar:

Les unigolyn

- Roedd y rhai oedd wedi mynychu lleoliad neu ddigwyddiad diwylliannol yn y 12 mis blaenorol bron i 60 y cant yn fwy tebygol o adrodd fod ganddynt iechyd da, o gymharu â'r rhai oedd heb fynychu, ac roedd rhai sy'n mynychu'r theatr bron i 25 y cant yn fwy tebygol o adrodd fod ganddynt iechyd da.
- Mae ymchwil yn dangos bod amlder uwch o ymgysylltiad gyda chelfyddydau a diwylliant yn gysylltiedig â lefel uwch o les goddrychol.
- Mae ymgysylltu â chelfyddydau a diwylliant â strwythur yn gwella gallu gwybyddol plant a phobl ifanc.
- Mae nifer o astudiaethau wedi adrodd canfyddiadau o ymyraethau celfyddydau cymhwysol a diwylliannol ac wedi mesur eu heffaith gadarnhaol ar gyflyrau iechyd penodol gan gynnwys dementia, iselder a chlefyd Parkinson.
- Mae gan y defnydd o gelfyddyd, pan gaiff ei ddarparu'n effeithiol, y pŵer i hwyluso rhyngweithio cymdeithasol ynghyd â galluogi'r rhai sy'n derbyn gofal cymdeithasol i olrhain diddordebau creadigol. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at fuddion dawns i leihau unigedd a lliniaru iselder a gorbryder ymysg pobl mewn amgylcheddau gofal cymdeithasol.

Lles cymunedol

- Mae tystiolaeth gref y gall cyfranogi mewn celfyddydau gyfrannu at gydlyniant cymunedol, lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd, ac/neu wneud cymunedau yn lleoedd cryfach a diogel.
- Mae gwirfoddolwyr diwylliant a chwaraeon yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gymryd rhan a dylanwadu yn eu cymunedau lleol.

- Mae myfyrwyr ysgol uwchradd sy'n ymgysylltu â chelfyddydau yn yr ysgol ddwywaith yn fwy tebygol o wirfoddoli na'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu â chelfyddydau ac 20 y cant yn fwy tebygol o bleidleisio fel oedolion ifanc.
- Mae cyflogadwyedd myfyrwyr sy'n astudio pynciau celfyddydau yn uwch ac maent yn fwy tebygol o aros mewn cyflogaeth.

Addysg

- Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau drama a llyfrgell yn gwella cyrhaeddiad llythrennedd.
- Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth â strwythur yn gwella cyrhaeddiad mathemateg, caffaeliad iaith yn gynnar a llythrennedd cynnar.
- Mae ysgolion sy'n integreiddio celfyddydau ar draws y cwricwlwm yn yr UDA yn dangos sgoriau darllen a mathemateg cyfartalog uwch o gymharu ag ysgolion tebyg nad ydynt yn integreiddio celfyddydau.

Yr economi

- Gall celfyddydau a diwylliant hybu economïau lleol drwy ddenu ymwelwyr; creu swyddi a datblygu sgiliau; denu a chadw busnesau; adfywio lleoedd; a datblygu doniau.
- Mae busnesau yn y diwydiant celfyddydau a diwylliant yn y DU wedi cynhyrchu trosiant agregedig o £12.4 biliwn yn 2011.
- Ar gyfer pob £1 o gyflog sy'n cael ei dalu gan y diwydiant celfyddydau a diwylliant, mae £2.01 ychwanegol yn cael ei gynhyrchu yn yr economi ehangach drwy effeithiau anuniongyrchol ac effeithiau lluosydd.

2.34.5 Mae'r sector celfyddydau, adloniant a hamdden yn cyflogi oddeutu 2,000 o bobl yn Sir y Fflint. Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 3% o'r holl gyflogaeth yn yr ardal.

2.34.6 Mae effaith diwylliant ar les yn cael ei amlygu yn adroddiad blynyddol 2016 Prif Archwiliwr Meddygol Cymru. Mae rhagnodi cymdeithasol yn ymagwedd iechyd a lles nad yw'n feddygol sy'n ehangu'r ystod o ddewisiadau sydd ar gael i glinigwyr gofal sylfaenol a chleifion i wella ymddygiad byw iach, er enghraifft gwasanaethau megis corau, garddio a chlybiau cerdded, cyngor dyledion, rhwydweithiau gwirfoddoli a chyfeillio. Gall y dull rhagnodi cymdeithasol wella hunan-barch, tymer a hunan-ffeithiolrwydd, cyswllt cymdeithasol a datblygu sgiliau trosglwyddadwy i gynorthwyo i reoli cyflyrau cronig. Gall y galw am wasanaethau iechyd leihau pan nad y model gofal meddygol yw'r datrysiad mwyaf effeithlon.

Chwaraeon a Hamdden

2.34.7 Mae Sir y Fflint mewn lleoliad da, o ran cyfleusterau adeiledig a'r amgylchedd naturiol, i gael effaith gadarnhaol ar weithgarwch corfforol a lles ar draws y Sir. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rheoli canolfan sglefrio yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy (y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Chwaraeon Rhew), ynghyd â phedwar safle pwll nofio ym Mwcle, y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug. Mae'r Gwasanaethau Hamdden hefyd yn rheoli'r ddarpariaeth chwaraeon cymunedol 'sych yn unig' yn y pedair canolfan chwaraeon sy'n gysylltiedig ag ysgolion uwchradd.

- 2.34.8 Mae'r Dangosydd Strategol Cenedlaethol LCS/002 yn dangos nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol. Yn 2015/16, cofnododd Sir y Fflint 1,492,826 o ymweliadau gweithgarwch corfforol, sy'n rhoi sgôr Dangosydd Strategol Cenedlaethol o 9,744 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn gosod Sir y Fflint fel y 5ed uchaf yng Nghymru, yn erbyn cyfartaledd cenedlaethol o 8,409 fesul 1,000 o'r boblogaeth.
- 2.34.9 Mae bron i hanner yr holl blant 7-16 oed yn Sir y Fflint (49%) yn cymryd rhan mewn o leiaf 3 sesiwn chwaraeon yr wythnos. Roedd Sir y Fflint yn y pumed safle yng Nghymru. Mae'r mesurydd hwn, o'r rhaglen 'Gwirioni ar Chwaraeon' wedi cynyddu o 42% yn 2013.
- 2.34.10 Mae'r Cyngor Sir hefyd yn rheoli 160 o ardaloedd chwarae plant, 13 ardal gemau amldefnydd, 10 ardal chwarae ar olwynion a 7 cae artiffisial. Yn 2016, cynhaliwyd rhaglen cynllun chwarae'r haf mewn 60 o gymunedau mewn partneriaeth â 30 Cyngor Tref a Chymuned, Urdd Gobaith Cymru a Gweithredu dros Blant. Cofnododd y cynlluniau gyfanswm o 19,297 o ymweliadau a chynnwys darpariaeth ar gyfer 31 o blant gydag anabledau.

Llyfrgelloedd

- 2.34.11 Mae gan Sir y Fflint saith llyfrgell ac yn diwallu'r safon mynediad cenedlaethol ar gyfer cael lleoliadau o fewn 2.5 milltir o'r llyfrgell. Mae'r Dangosydd Ystadegol Cenedlaethol LCL/001 yn cofnodi nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, fesul 1,000 o'r boblogaeth. Yn 2015/16, cynhyrnod Sir y Fflint sgôr Dangosydd Ystadegol Cenedlaethol o 4,535 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Gyda sgôr cyfartaledd Cymru gyfan o 5,374. Mae hyn yn gosod Sir y Fflint fel y 14eg uchaf yng Nghymru. Roedd aelodaeth Llyfrgelloedd yn 76,488 yn 2015/16, cynnydd o 5% o 2014/15, tra bo aelodaeth cyffredinol y DU wedi gostwng o 4% (CIPFA). Roedd 99% o ddefnyddwyr llyfrgell wedi graddio llyfrgelloedd Sir y Fflint fel 'da' neu 'da iawn', y sgôr gorau a gafwyd gan yr awdurdodau yn 2014-15. Roedd cyfranogaeth yn Her Ddarllen yr Haf yn 2015 y bedwaredd uchaf yng Nghymru.

Celfyddydau a Diwylliant

- 2.34.12 O fewn Cyngor Sir y Fflint mae gan sawl gwasanaeth rôl bwysig o ran cyfrannu at yr elfen gelfyddydau. Mae'r adain Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau yn cefnogi gwasanaethau ar draws yr awdurdod i sicrhau darpariaeth celfyddydau a phrofiadau o'r safon uchaf ar gyfer ysgolion a chymunedau Sir y Fflint.
- 2.34.13 Prif ddarparwr profiadau celfyddydol Sir y Fflint, ar wahân i dîm y Celfyddydau, Diwylliant a Digwyddiadau, yw Theatr Clwyd. Mae hon yn theatr adnabyddus yn rhyngwladol ac yn gwmni cynhyrchu sy'n denu cynulleidfaoedd ac ymwelwyr o fwy na 200,000 pob blwyddyn.
- 2.34.14 O fewn cymuned Sir y Fflint, mae cyfoeth o ddarpariaeth celfyddydau. Mae sefydliadau celfyddydau megis Rhwydwaith Celfyddydau Gweledol a Chrefftau Sir y Fflint, Cymdeithas Theatr Gymunedol Clwyd, Ysgrifenyddwr Sir y Fflint a Dawns Gogledd Ddwyrain Cymru yn cyfrannu'n sylweddol at gyfranogaeth.
- 2.34.15 Mae hygyrchedd ac argaeledd lleoliadau celfyddydau cymunedol, wedi'i gyfyngu o fewn Sir y Fflint, mae hyn yn amlwg iawn o fewn darpariaeth orielau a gofodau perfformio.

- 2.34.16 Trwy gyflwyno a rhaglennu gwyliau celfyddydau teuluol a safleoedd penodol, megis Gŵyl Oleuadau Abaty Dinas Basing, Celfyddydau mewn Llyfrgelloedd, Gŵyl Daniel Owen, GWANWYN a Helfa Gelf, mae cyfranogaeth a chynulleidfaoedd yn parhau i dyfu.
- 2.34.17 Mae adroddiad Cyllid Refeniw ADUK yn cydnabod mai cyllideb gelfyddydau Sir y Fflint ar gyfer 2015/16 oedd £1.1m.
- 2.34.18 Mae Celfyddydau mewn Addysg yn flaenoriaeth nodedig yng Nghymru ar hyn o bryd. Gyda gweithrediad Cynllun Dysgu Creadigol Cymru Gyfan, Rhwydweithiau Addysg a Chelfyddydau Rhanbarthol a'r maes dysgu celfyddydau mynegiannol, bydd pobl ifanc yn cael eu trochi mewn amgylchedd diwylliannol a chreadigol.

Amgueddfeydd ac Archifau

- 2.34.19 Mae gan Sir y Fflint ddarpariaeth dda o ran swyddfa gofnodion ym Mhenarlâg a mynediad i ddeunydd archifau. Mae darpariaeth amgueddfeydd yn eithaf bychan gydag amgueddfeydd (yr Wyddgrug) naill ai mewn llyfrgelloedd neu mewn parciau (Dyffryn Maes Glas).

2.35 Beth yw barn y gymuned ynglŷn â'r gwasanaethau cyhoeddus

Llewyrchus

Iachach

Mwy cyfartal

Cydllynus


Diwylliant

Beth sy'n digwydd yn awr

- 2.35.1 Mae Arolwg Cenedlaethol diweddaraf Cymru¹³⁰ yn dangos bod 61.3% o breswylwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod Cyngor Sir Y Fflint yn darparu gwasanaethau o ansawdd. Hon oedd y ail uchaf o foddhad o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru. Mae gwasanaethau unigol y Cyngor hefyd yn cynnal arolygon boddhad cwsmer yn rheolaidd, ac maent yn gwella eu dadansoddiad o gwynion er mwyn iddynt allu parhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu a gwella eu hymateb.
- 2.35.2 Mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn awgrymu bod angen i Gynghor wella ei strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu, gan mai:
- dim ond 36.5% o ymatebwyr yn Sir y Fflint oedd yn credu bod eu Cyngor yn dda am adael i bobl wybod pa mor dda y mae'n perfformio (cyfartaledd Cymru = 37.2%).
 - dim ond 22.1% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (cyfradd Cymru gyfan =21.0%)
 - hoffai 45.8% o ymatebwyr dderbyn mwy o wybodaeth ar berfformiad eu Cyngor (cyfartaledd Cymru = 52.0%)¹³¹
- .45.2% o'r ymatebwyr yn dymuno darparu mwy o gyfranogiad tuag at benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol (cyfradd Cymru gyfan= 49.3%).


Siart 2.36.1: canran yr ymatebwyr sy'n teimlo bod eu hawdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, 2015

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru



Siart 2.36.2: boddhad cyffredinol gyda chyflwr y gwasanaethau iechyd yng Nghymru fesul bwrdd iechyd, 2015

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru



- 2.35.3 Gyda sgôr o 6.5 allan o 10, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr lefel boddhad gyda'r gwasanaeth iechyd sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (6.3). Fodd bynnag mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn dangos:
- dim ond 39.4% o ymatebwyr sy'n teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau iechyd lleol (cyfartaledd Cymru = 40.0%).
 - dim ond 12.6% o'r ymatebwyr oedd yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwasanaethau iechyd lleol (cyfradd Cymru gyfan =13.8%)
 - hoffai 51.4% o ymatebwyr dderbyn mwy o wybodaeth ar berfformiad gwasanaethau iechyd lleol (cyfartaledd Cymru = 48.5%).
 - hoffai 42.1% o ymatebwyr gael eu cynnwys mewn mwy o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan wasanaethau iechyd lleol (cyfartaledd Cymru – 39.6%).

Sut y mae hyn yn cymharu â'r gorffennol

- 2.35.4 O gymharu â 2012/13, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer awdurdodau lleol yn dangos
- gwelliant o dros dri pwynt canran ar gyfer Sir y Fflint o'r rhai sy'n cytuno bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau o ansawdd da . (newid Cymru – gostyngiad o bron i 4 pwynt canran).
 - gostyngiad o bron i 13 pwynt canran o'r rhai sy'n cytuno bod yr awdurdod lleol yn dda am roi gwybod i bobl ynglŷn â'i berfformiad. (Newid Cymru - gostyngiad o bron i 4 pwynt canran).
 - gostyngiad o oddeutu 6 pwynt canran o ran y rhai sy'n teimlo eu bod yn dylanwadu ar eu hardal leol. (Newid Cymru - gostyngiad o bron i 4 pwynt canran).
- 2.35.5 O gymharu â 2012/13, mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dangos:
- dim newid yn y sgôr boddhad cyffredinol (newid Cymru – gostyngiad o 0.1 pwynt allan o ddeg yn ystod yr un cyfnod).
 - cynnydd o bron i 14 pwynt canran yn y gyfran o ymatebwyr oedd yn teimlo eu bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â pherfformiad y gwasanaethau iechyd lleol (newid Cymru - cynnydd o oddeutu 18 pwynt canran).
 - gostyngiad o dros ddau bwynt canran yng nghyfran yr ymatebwyr oedd yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwasanaethau iechyd lleol (arhosodd ffigur Cymru oddeutu'r un fath).
- 2.35.6 Generally there has been an improvement in satisfaction with public services, despite a period of reduction in public sector funding.

Beth yr ydym yn ei wybod neu'n ei ragweld ar gyfer y dyfodol

- 2.35.7 Mae disgwyliadau a galw ar wasanaethau cyhoeddus yn parhau i gynyddu a disgwylir iddynt gynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r boblogaeth yn parhau i dyfu, mae pobl yn byw'n hirach, a disgwylir i wasanaethau allweddol barhau i wella canlyniadau.

- Disgwylir i ofal iechyd wella fel bod datblygiadau meddygol yn ein cadw'n fyw yn hirach, ond hefyd yn ein galluogi i fyw bywydau iachach.
- Disgwylir i ysgolion ddarparu gwell addysg er mwyn i'n plant gael y dechrau gorau posib mewn bywyd.
- Mae'r galw ar ofal cymdeithasol yn cynyddu ar gyfer pobl hŷn, ar gyfer gofal preswyl a gofal yn y gymuned. Mae galw hefyd yn cynyddu ymysg y grŵp oedran 16-64, yn enwedig pobl ag anawsterau dysgu ac anghenion iechyd meddwl.
- Mae pobl eisiau derbyn mynediad at wasanaethau ar adegau sy'n addas ar gyfer patrymau gwaith a bywydau teuluol/cymdeithasol sy'n newid.
- Disgwyliadau o gydraddoldeb ar draws yr holl wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu.

2.35.8 Ar yr un pryd, roedd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu pwysau ariannol ac ar adnoddau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Mae toriadau cyllid yn y gorffennol wedi tueddu i fod yn rhai byr dymor. Mae mesurau caledi wedi bod ar waith ers 2010. Mae'r amcanestyniadau gwario diweddaraf¹³² yn dangos bod polisiau caledi'r llywodraeth yn debygol o barhau i'r 2020au, sy'n golygu cyfnod o dros ddeng mlynedd o doriadau gwariant cyhoeddus. Y tu hwnt i hynny, mae'r sefyllfa'n amhendant ac yn dibynnu ar gyflwr yr economi a pholisiau treth a gwariant Llywodraethau'r DU yn y dyfodol, ac effaith Brexit ar gyllid cenedlaethol.

2.35.9 Bydd y pwysau hyn yn dylanwadu ar safbwyntiau pobl o'r gwasanaethau cyhoeddus, a bydd angen lliniaru hyn. Gellir gwneud hyn drwy fesurau megis hyrwyddo hunan-ddibyniaeth ac annibyniaeth ymysg preswylwyr; gwella cyd-gynhyrchiad a darpariaeth ar y cyd o wasanaethau a chefnogaeth; newid modelau darparu'r dyfodol, yn enwedig drwy gynnwys y cyhoedd yn y prosesau o wneud penderfyniadau.

3 Asesiadau, strategaethau a chynlluniau i'w hystyried

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi nifer o adolygiadau statudol ac asesiadau y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynhyrchu'r Asesiad Lles hwn:

Asesiad o beryglon ar gyfer y Deyrnas Unedig o dan effaith bresennol ac effaith a ragwelir o ganlyniad i newid hinsawdd a anfonwyd at Weinidogion Cymru o dan adran 56(6) Deddf Newid yr Hinsawdd 2008.

Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd ar gyfer Cymru.

Mae'r rhain wedi'u defnyddio'n benodol i hysbysu adran 'Newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon' yr asesiad hwn.

Adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth addysg meithrin ar gyfer ardal yr awdurdod lleol a gynhaliwyd o dan adran 119(5)(a) Deddf Safonau a Fframweithiau Ysgolion 1998

Mae'r canfyddiadau allweddol o'r asesiad hwn wedi'u defnyddio i hysbysu'r adran 'Rhoi'r 'dechrau gorau' i bob plentyn.'

Asesiad o ddigonolrwydd darpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 26(1) o Ddeddf Gofal Plant 2006

Mae'r canfyddiadau allweddol o'r asesiad hwn wedi'u defnyddio i hysbysu'r adran 'Rhoi'r dechrau gorau i bob plentyn'. Maent hefyd wedi'u defnyddio i hysbysu'r Asesiad Poblogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, sydd yn ei dro wedi'i ddefnyddio i hysbysu'r asesiad hwn.

Asesiad wedi'i gynnal gan yr awdurdod lleol mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 14 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014

Mae canfyddiadau allweddol o'r asesiad poblogaeth a gynhyrchwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 wedi'u defnyddio i hysbysu sawl adran yn yr asesiad hwn. Mae'r adrannau o'r Asesiad Poblogaeth a oedd yn ymwneud â gofalwyr, unigedd ac arwahanrwydd, cam-drin domestig a phobl gydag anableddau wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Cynhyrchwyd yr Asesiad Poblogaeth a'r Asesiad Lles ochr yn ochr â'i gilydd ar draws Gogledd Cymru ac mae ymarfer ymgysylltu cydlynol wedi'i ddefnyddio i hysbysu'r ddau asesiad.

Asesiad strategol a baratowyd yn unol â'r rheoliadau o dan adran 6 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998

Mae'r asesiad wedi hysbysu adrannau 'Mynd i'r afael â cham-drin domestig', 'Mater allweddol – profiadau niweidiol yn ystod plentynod', 'Mater allweddol – cam-fanteisio'n rhywiol ar blant' a gwybodaeth am gamddefnyddio sylweddau yn yr adran 'Mae pobl yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach'. Mae Gogledd Cymru yn fan diogel i fyw a gweithio ynddo ac mae sawl perygl a nodwyd yn yr asesiad yn cael eu trin yn effeithiol gan sefydliadau sy'n ffurfio ein Partneriaeth Trosedd ac Anrhefn Lleol.

Asesiad strategol a baratowyd yn unol â'r rheoliadau o dan yr adran sy'n ymwneud â mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ardal yr awdurdod lleol

Mae hyn wedi hysbysu adrannau 'Cefnogi'r rhai gydag iechyd meddwl gwael' ac 'Mae pobl yn gwneud dewisiadau ffordd o fyw iach' sy'n ystyried y problemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Pob datganiad ardal o dan adran 11 Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu mapiau a phroffiliau llawn gwybodaeth am bob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r rhain wedi'u defnyddio i baratoi'r adrannau ar 'Ased Allweddol - amddiffyn yr amgylchedd naturiol' ac 'Amddiffyn rhag llifogydd' ac wedi hysbysu'r adrannau eraill sy'n ymwneud â'r buddion o ran iechyd, yr economi a lles sy'n deillio o'n hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth.

Asesiad strategol a baratowyd yn unol â'r rheoliadau o dan yr adran sy'n ymwneud â lleihau ail-droseddu yn ardal yr awdurdod lleol

Mae hyn yn ffurfio rhan o'r asesiad strategol yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Yn benodol mae wedi hysbysu adrannau 'Mynd i'r afael â cham-drin domestig' ac 'Mae pobl yn gwneud dewisiadau iach ar gyfer eu ffordd o fyw' (yn enwedig o ran camddefnyddio sylweddau).

4 Dangosyddion lles cenedlaethol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod asesiadau lles lleol yn ystyried y dangosyddion cenedlaethol a gyflwynwyd i Gynulliad Cymru ym mis Mai 2016. Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae'r asesiad wedi ystyried y dangosyddion hyn.

Dangosydd cenedlaethol	A yw wedi'i gynnwys yn yr asesiad	Nodiadau
1. Canran y genedigaethau byw sengl â phwysau geni islaw 2,500g.	Ydi	
2. Disgwyliad oes iach adeg geni gan gynnwys y bwlch rhwng y bobl fwyaf a lleiaf amddifadus.	Ydi	
3. Y ganran o'r oedolion sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmegu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).	Yn rhannol	Dim ond yn gallu ystyried ymddygiad ffyrdd o fyw iach unigol ar hyn o bryd. Disgwylir mesur cyfansawdd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd.
4. Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO ₂) yn yr aer.	Nac Ydi	Mae mesuryddion eraill o ansawdd amgylcheddol wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn.
5. Y ganran o'r plant sydd â llai na dau ymddygiad iach o ran eu ffordd o fyw (peidio ag ysmegu, bwyta pum ffrwyth/llysieuyn bob dydd, byth/prin yn yfed a dilyn y canllawiau o ran gweithgarwch corfforol).	Nac Ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
6. Mesur o ddatblygiad plant bach.	Ydi	
7. Y ganran o'r disgyblion sydd wedi cyflawni'r "Trothwy Lefel 2" gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a Mathemateg, gan gynnwys y bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (I'w ddisodli o 2017 gan y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ar gyfer disgyblion blwyddyn 11).	Ydi	

Dangosydd cenedlaethol	A yw wedi'i gynnwys yn yr asesiad	Nodiadau
8. Y ganran o'r oedolion â chymwysterau ar y gwahanol lefelau yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol.	Ydi	
9. Gwerth Ychwanegol Gros am bob awr a weithir (o'i gymharu â chyfartaledd y DU).	Nac ydi	Mesuryddion eraill o berfformiad economaidd lleol wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
10. Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen.	Nac ydi	Mesuryddion eraill o ffyniant wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
11. Y ganran o'r busnesau sydd wrthi'n arloesi.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
12. Capasiti (mewn MW) yr offer ynni adnewyddadwy sydd wedi'i osod.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
13. Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
14. Ôl Troed Ecolegol Cymru.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol. Mesuryddion eraill o ôl-troed ecolegol wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
15. Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol. Mesuryddion eraill o gynhyrchiant ailgylchu/gwastraff wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
16. Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio gwaith parhaol) ac sy'n ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y DU.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
17. Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau.	Nac ydi	Nid yw'r data sydd ar gael ar lefel leol yn ddigon dibynadwy i ganiatáu dadansoddiad rhyw (ASHE - Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion).
18. Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o'i gymharu â chanolrif y DU, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.	Yn rhannol	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol ar gyfer yr holl grwpiau oedran. Mesuryddion eraill o dlodi incwm wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
19. Y ganran o'r bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol.	Nac ydi	Mesuryddion eraill o amddifadedd wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
20. Y ganran o'r bobl sy'n dweud eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.

Dangosydd cenedlaethol	A yw wedi'i gynnwys yn yr asesiad	Nodiadau
21. Y ganran o'r bobl sydd mewn gwaith.	Ydi	
22. Y ganran o'r bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
23. Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.	Ydi	
24. Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/ cael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd.
25. Y ganran o'r bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd.
26. Y ganran o'r bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd. Mae mesuryddion eraill o foddhad gyda'r ardal leol wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
27. Y ganran o'r bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.	Ydi	
28. Y ganran o'r bobl sy'n gwirfoddoli	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol. Mae mesuryddion eraill o wirfoddoli lleol wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
29. Sgôr llesiant meddyliol cymedrig ar gyfer pobl.	Ydi	
30. Y ganran o'r bobl sy'n unig.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd. Mae mesuryddion eraill o unigedd ac arwahanrwydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
31. Y ganran o'r anheddau sydd heb beryglon.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
32. Nifer yr unedau eiddo (cartrefi a busnesau) sydd mewn perygl uchel a chanolig o lifogydd sy'n deillio o afonydd a'r môr.	Ydi	
33. Y ganran o'r anheddau gyda pherfformiad ynni digonol.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.

Dangosydd cenedlaethol	A yw wedi'i gynnwys yn yr asesiad	Nodiadau
34. Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref am bob 10,000 o aelwydydd.	Nac ydi	Mae mesuryddion eraill o'r rhai ag anghenion tai wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
35. Y ganran o'r bobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau ym maes y celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd.
36. Y ganran o'r bobl sy'n siarad Cymraeg yn feunyddiol ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.	Ydi	
37. Y ganran o'r bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.	Ydi	
38. Y ganran o'r bobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd.
39. Y ganran o'r amgueddfeydd ac archifau sy'n dal casgliadau archifol/treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achredu'r DU.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd.
40. Y ganran o asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well.	Nac ydi	Disgwylir mesurydd o'r Arolwg Cenedlaethol newydd, nid yw ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd.
41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru.	Ydi	Dim ond data cenedlaethol sydd wedi'i ystyried, Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru.	Ydi	Dim ond data cenedlaethol sydd wedi'i ystyried, Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
43. Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol. Mae mesuryddion eraill o ecosystemau lleol wedi'u cynnwys yn yr asesiad.
44. Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
45. Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.
46. Yr adenillion cymdeithasol ar fuddsoddiadau gan bartneriaethau Cymreig yng Nghymru a'r tu allan i'r DU sy'n gweithio tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.	Nac ydi	Nid yw'r mesurydd ar gael ar lefel leol.

Cyfeiriadau

- ¹ Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 2011
- ² Cynllun Gweithredu Iechyd Rhyw a Lles Cymru 2010-2015 Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010). Llywodraeth Cynulliad Cymru
- ³ Pwysau geni isel: adolygiad o ffactorau risg ac ymyraethau, Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2014
- ⁴ Canllaw NICE PH11 Gwella maetheg mamau beichiog a phlant sy'n bwydo ar y fron mewn aelwydydd incwm isel (2008)
- ⁵ Llywodraeth Cymru (2012) Arolwg Bwydo Babanod
- ⁶ Ystadegau imiwneiddio 2015/16, Gwasanaethau Gwybodaeth GIG Cymru
<https://www.healthmapswales.wales.nhs.uk>
- ⁷ O'Connor TG, Heron J, Golding J, Beveridge M, Glover (2002) Maternal antenatal anxiety and behavioural problems in early childhood Brit J Psychiatry 180, 502-508
- ⁸ Allen G (2011) Early intervention : The next steps. Ar gael yn <http://www.dwp.gov.uk/docs/early-intervention-next-steps.pdf>
- ⁹ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) Offer gwyliadwriaeth Beichiogrwydd a Phlentyndod: Derbyniadau brys oherwydd anaf
- ¹⁰ Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) Offer gwyliadwriaeth Beichiogrwydd a Phlentyndod: Plant 5 mlwydd oed gyda dannedd wedi'u pydru, dannedd coll a dannedd wedi'u llenwi
- ¹¹ Crynodeb ystadegau Dechrau'n Deg 2015/16, Llywodraeth Cymru
- ¹² Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015) Profiadau Niweidiol Yn Ystod Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n achosi niwed i iechyd ym mhoblogaeth oedolion Cymru
- ¹³ What works to enhance inter-parental relationships and improve outcomes for children. Prifysgol Sussex: Sefydliad Ymyrraeth Gynnar Harold, G., Acquah, D., Sellers, R. and Chowdry, H. (2016). Ar gael yn: <http://www.eif.org.uk/publication/what-works-to-enhance-inter-parental-relationships-and-improve-outcomes-for-children-3/>
- ¹⁴ Creu dyfodol gwell: Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Llywodraeth Cymru
- ¹⁵ Swyddfa'r Comisiynydd Plant: Briffio ar gyfer y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS, Ysgrifennydd Gwladol Addysg, ar ganfyddiadau Ymchwil Swyddfa'r Comisiynydd Plant i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn Criwiau a Grwpiau, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant mewn gofal, Gorffennaf 2012
- ¹⁶ Heriau gwleidyddol sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio: Materion allweddol ar gyfer Senedd y DU 2015, Papur Ymchwil y Llyfrgell Gyffredin, Mai 2015
- ¹⁷ 10 things you need to know about dementia fact sheet, Alzheimer's Research UK
- ¹⁸ Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (cyfres DR): 2015, ONS
- ¹⁹ 2014 Alzheimer's Disease Facts and Figures, Alzheimer's Association (USA)
- ²⁰ Amcanestyniadau poblogaeth (prif amcanestyniad sail-2014), Llywodraeth Cymru
- ²¹ Amcanestyniadau aelwydydd (sail-2014), Uned ymchwil a gwybodaeth corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- ²² Y ffynhonnell ddiweddaraf o ddata ar boblogaeth y Deyrnas Unedig yw Dementia UK: 'A report into the prevalence and cost of dementia prepared by the Personal Social Services Research Unit (PSSRU) at the London School of Economics and the Institute of Psychiatry at King's College London, for the Alzheimer's Society, 2007'.
- ²³ Matthews, FE et al. A two decade comparison of incidence of dementia in individuals aged 65 years and older from three geographical areas of England: results of the Cognitive Function Ageing Study I and II. Nature Communications; 19 Ebrill 2016
- ²⁴ Cynlluniau Gweithredu grwpiau budd-ddeiliaid dementia 2011, Llywodraeth Cymru; Gwledigaeth Genedlaethol Cymru ar Ddementia 2015, Llywodraeth Cymru/Cymdeithas Alzheimer
- ²⁵ <http://www.local.gov.uk/ageing-well/what-makes>
- ²⁶ Valuing carers 2015; the rising values of carers' support, CareUK
- ²⁷ Pobl 16 oed a hŷn yr amcangyfrifir y byddant yn darparu gofal di-dâl, yn ôl oedran a'r oriau gofal sy'n cael eu darparu, rhagamcan hyd at 2035, <http://www.daffodilcymru.org.uk>
- ²⁸ Ymgyrch i atal unigedd, 2016
- ²⁹ Health and well-being consequences of social isolation in old age, National Institute for Health Research 2014
- ³⁰ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, Llywodraeth Cymru; rhagamcanion poblogaeth canol blwyddyn, Swyddfa Ystadegau Gwladol.

- ³¹ Windle, K, Francis, J, Coomber, C. Preventing loneliness and social isolation: interventions and outcomes, Social Care Institute for Excellence, 2011
- ³² Mynd i'r afael ag unigedd: canllaw ar gyfer awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol 2012
- ³³ <https://www.ncvo.org.uk/practical-support/public-services>
- ³⁴ <http://www.actionforhappiness.org/10-keys-to-happier-living>
- ³⁵ <http://www.nhs.uk/Livewell/volunteering/Pages/Whyvolunteer.aspx>
- ³⁶ UK Civil Society Almanac 2016, Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol
- ³⁷ <http://blogs.ncvo.org.uk/2014/05/29/top-seven-issues-facing-volunteering/>
- ³⁸ <https://www.ncvo.org.uk/about-us/media-centre/briefings/220-the-charity-sector-and-public-services>
- ³⁹ Ystadegau credydau treth plant a chredydau treth gwaith, Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
- ⁴⁰ Strategaeth Tlodi Plant Cymru, Llywodraeth Cymru
- ⁴¹ Mesur anghydraddoldebau 2016: tueddiadau marwolaeth a disgwyliad oes yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ⁴² Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth 2015, ONS; Prif amcanestyniadau poblogaeth is-genedlaethol yn seiliedig ar 2014, Llywodraeth Cymru
- ⁴³ Arolwg Iechyd Cymru 2013-14
- ⁴⁴ Arolwg Troseddau Prydain; Ystadegau Troseddau Cymru a Lloegr ar ddiwedd blwyddyn 06/16, ONS
- ⁴⁵ Cronfa ddata cleifion Cymru, Llywodraeth Cymru
- ⁴⁶ Arolwg Iechyd Cymru 2013-14
- ⁴⁷ Jones L, Bellis MA. 2014. Updating England-specific alcohol-attributable fractions. Lerpwl: Sefydliad Iechyd Cyhoeddus, Prifysgol John Moores Lerpwl. <http://www.cph.org.uk/publication/updated-england-specific-alcohol-attributable-fractions/>
- ⁴⁸ Sefydliad Iechyd y Byd. 2014. Global status report on alcohol and health 2014. Geneva: Sefydliad Iechyd y Byd. http://www.who.int/substance_abuse/publications/global_alcohol_report/en/
- ⁴⁹ Alcohol's harm to others, Sefydliad Iechyd y Byd, Cyfadran Addysg, Iechyd a Chymuned, Prifysgol John Moores Lerpwl, Medi 2016
- ⁵⁰ Lleisiau mud: cefnogi plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt oherwydd rhieni sy'n camddefnyddio alcohol, Comisiynydd Plant Lloegr, Medi 2012
- ⁵¹ Dringo'n Uwch: Creu Cymru Egniol, Llywodraeth Cymru 2009
- ⁵² Griffiths LJ., Parsons TJ., Hill AJ., (2010) Self-esteem and quality of life in obese children and adolescents: a systematic review. *Int J Pediatr Obese*; 5(4):282-304; Xavier S, Mandal S. The psychosocial impacts of obesity in children and young people: A future health perspective. *Public Health Medicine* 2005;6(1):23-27
- ⁵³ Schwimmer J.B., Burwinkle T.M., Varni J.W., (2003) Health-related quality of life of severely obese children and adolescents. *Journal of American Medical Association*. Cyfrol. 289 Nb 14
- ⁵⁴ Mynd i'r afael â gordewdra mewn plentyndod yng Nghymru, Llywodraeth Cymru 2015
- ⁵⁵ Adroddiad Rhaglen Mesur Plant Cymru 2014-15, Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ⁵⁶ Arolwg Iechyd Cymru 2013-14
- ⁵⁷ <http://www.nhs.uk/conditions/Obesity/Pages/Introduction.aspx>
- ⁵⁸ Danner D D, Snowdon D A, Friesen W V (2001) Positive emotions in early life and longevity: findings from the nun study. *Journal of Personality and Social Psychology*, 80:804–813.
- ⁵⁹ Datganiad Sefyllfa Coleg Brenhinol Seiciatryddion PS4 (2010) No health without public mental health: the case for action. <http://www.rcpsych.ac.uk/PDF/Position%20Statement%204%20website.pdf>
- ⁶⁰ Coleg Brenhinol Seiciatryddion (2010) No health without public mental health: the case for action. Llundain: Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- ⁶¹ Panel Comisiynu ar y Cyd ar gyfer Iechyd meddwl (2013) 'Guidance for commissioning public mental health services'.
- ⁶² Llywodraeth Cymru (2012) 'Gyda'n gilydd ar gyfer Iechyd meddwl: strategaeth ar gyfer Iechyd meddwl a lles yng Nghymru'
- ⁶³ How common are mental health problems, Mind (2016) <http://www.mind.org.uk/information-support/types-of-mental-health-problems/statistics-and-facts-about-mental-health/how-common-are-mental-health-problems/>.
- ⁶⁴ Price, S., Weightman, A., Morgan, H., Mann, M. and Thomas, S. (2010) 'Suicide prevention: update of the summary of evidence'. Iechyd Cyhoeddus Cymru
- ⁶⁵ Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

- ⁶⁶ How common are mental health problems, Mind (2016) .
- ⁶⁷ <http://www.who.int/whr/2007/overview/en/index1.html> ar 23/11/16
- ⁶⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/88287> ar 23/11/16
- ⁶⁹ Radford, L., Corral, S., Bradley, C., Fisher, H., Bassett, C., Howat, N. and Collishaw, S. (2011) 'Child abuse and neglect in the UK today'. Llundain: NSPCC
- ⁷⁰ Sidebotham, P., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Dodsworth, J., Garstang, J., Harrison, E., Retzer, A. and Sorensen, P. (2016) 'Pathways to harm, pathways to protection: a triennial analysis of serious case reviews 2011 to 2014'.
- ⁷¹ Pennod 4 – Trais Personol Agos a Cham-drin partner, modiwl hunan-gwblhau, Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2012/13, ONS
- ⁷² Walby, S. (2009) 'Costs of domestic violence per local area'. Trust for London
- ⁷³ Strategaeth hawl i fod yn ddiogel, Llywodraeth Cymru, 2010
- ⁷⁴ A yw gwaith yn dda ar gyfer eich lechyd a'ch Lles, Yr Adran Gwaith a Phensiynau 2006
- ⁷⁵ Cofrestr busnes ac arolwg cyflogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁷⁶ Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁷⁷ Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁷⁸ <http://www.merseydealliance.org.uk/>
- ⁷⁹ Dadansoddiad Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion Gweithle, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁸⁰ Cofrestr busnes ac arolwg cyflogaeth, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁸¹ Chanfrefau J, Lloyd C, Byron C, Roberts R, Craig, D, De Foe D & McManus S (2013). Predicting well-being. Wedi'i baratoi gan NatCen Social Research ar gyfer yr Adran Iechyd. www.natcen.ac.uk/media/205352/predictors-of-well-being.pdf
- ⁸² Casgliad data asesiad athrawon cenedlaethol, Llywodraeth Cymru
- ⁸³ The link between pupil health and well-being and attainment, Iechyd Cyhoeddus Lloegr 2014
- ⁸⁴ Canllaw Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) – asesiad o effaith 2014, Llywodraeth Cymru
- ⁸⁵ Cyflawniad plant 15 oed yng Nghymru: Adroddiad Blynyddol PISA 2012t, NFER 2013
- ⁸⁶ The Role of Skills from Worklessness to Sustainable Employment with Progression – UK Commission for Employment and Skills Medi 2011
- ⁸⁷ Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁸⁸ <https://www.gov.uk/government/collections/ukces-sector-insights-reports-2015>
- ⁸⁹ Busnes y DU: gweithgarwch, maint a lleoliad, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁹⁰ Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁹¹ Local Procurement: Making the most of small business, Centre for Local Economic Strategies, 2013
- ⁹² Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint 2016-19
- ⁹³ Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth 2013-2020, Llywodraeth Cymru
- ⁹⁴ Adroddiad STEAM 2015, Global Tourism Solutions (UK) Ltd
- ⁹⁵ Busnes y DU: gweithgarwch, maint a lleoliad, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ⁹⁶ What agriculture and horticulture mean to Britain, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr
- ⁹⁷ Adroddiadau STEAM ar gyfer Sir y Fflint, 2015
- ⁹⁸ Uchafbwyntiau Gweithredu'r Sector Cyhoeddus: Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru, Llywodraeth Cymru 2011
- ⁹⁹ Ystadegau swyddogol chwarterol allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU: Ch1 2016, Adran Ynni a Newid Hinsawdd
- ¹⁰⁰ Trydan adnewyddadwy yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a rhanbarthau o Loegr yn 2015, Adran Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiant, 2016
- ¹⁰¹ Ystadegau swyddogol allyriadau chwarterol dros dro y DU Ch1 2016, Adran Ynni a Newid Hinsawdd
- ¹⁰² <http://ukclimateprojections.metoffice.gov.uk/23673?emission=medium>
- ¹⁰³ <http://ukclimateprojections.metoffice.gov.uk/23674?emission=medium>
- ¹⁰⁴ Tuag at ddyfodol diwastraff; Cymru'n un, Cenedl Un Blaned, Llywodraeth Cymru
- ¹⁰⁵ <http://www.wrap.org.uk/content/barriers-recycling-home>
- ¹⁰⁶ Council Tax data collection, Welsh Government; mid-year population estimates, Office for National Statistics
- ¹⁰⁷ Datganiad monitro tir ar gyfer tai 2016, Cyngor Sir y Fflint
- ¹⁰⁸ Cyd-astudiaeth o'r farchnad dai leol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Sir y Fflint 2014, arc4 Ltd
- ¹⁰⁹ Mynegai prisiau tai, y Gofrestrfa Tir
- ¹¹⁰ Mynegai prisiau tai a CACI PayCheck, y Gofrestrfa Tir

-
- ¹¹¹ Pennod 5, Social Housing and Spatial Segregation, The Future of Social Housing, Shelter, 2008
- ¹¹² Rhagamcanion anheddau 2014/15, Llywodraeth Cymru
- ¹¹³ Centre for Sustainable Energy (2013) Tackling Fuel Poverty
- ¹¹⁴ Strategaeth Tlodi Tanwydd 2010, Llywodraeth Cymru; Cynhyrchu Lefelau Amcanol o Dlodi Tanwydd yng Nghymru: 2012-2016, Llywodraeth Cymru
- ¹¹⁵ Cynllun tlodi tanwydd a arweinir gan alw yn y dyfodol i ddilyn Cartrefi Cynnes – Nyth, Llywodraeth Cymru, dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru, Awst 2016
- ¹¹⁶ Adroddiad Blynyddol ynglŷn ag Ystadegau Tlodi Tanwydd, yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd
- ¹¹⁷ Rhagamcanion aelwydydd, Llywodraeth Cymru
- ¹¹⁸ Prisiau ynni chwarterol, Mehefin 2016, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ¹¹⁹ Ystadegau swyddogol allyriadau chwarterol dros dro y DU Ch1 2016, Adran Ynni a Newid Hinsawdd
- ¹²⁰ Defnyddwyr y rhyngryd 2016, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ¹²¹ Connected Nations 2015, OfCom
- ¹²² Only the tip of the iceberg: fraud against older people, Age Concern UK, April 2015
- ¹²³ Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru
- ¹²⁴ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-2015, Llywodraeth Cymru
- ¹²⁵ Cyfrifiad o'r boblogaeth 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ¹²⁶ Arolwg y defnydd o'r Gymraeg 2013-15, Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru
- ¹²⁷ Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion (PLASC), Llywodraeth Cymru
- ¹²⁸ Iaith fyw: iaith byw, Strategaeth y Gymraeg 2012-17, Llywodraeth Cymru
- ¹²⁹ The value of arts and culture to people and society: an evidence review, Cyngor Celfyddydau Lloegr, 2014 http://www.artscouncil.org.uk/sites/default/files/download-file/Value_arts_culture_evidence_review.pdf
- ¹³⁰ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15, Llywodraeth Cymru
- ¹³¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013/14, Llywodraeth Cymru
- ¹³² Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Gorffennaf 2016